


Cofrestrfa
Tir EF



**Adroddiad Blynyddol a
Chyfrifon 2025-26**

**Rhoi ein cwsmeriaid
yn gyntaf**

HC 390



Cofrestrfa Tir EF

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Cyflwynir y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynir yr adroddiad i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 13 Gorffennaf 2026

HC 390



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

ISBN 978-1-5286-6654-1

E03634113 07/26

Argraffwyd ar bapur gyda 40% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhdy.

Clawr Enillodd dyluniad Daniel Libeskind ar gyfer Amgueddfa Ryfel Ymerodrol Gogledd Lloegr yn Trafford Park, Manceinion Fwyaf, y Wobr Adeiladu yng Ngwobrau Diwydiant Adeiladu Prydain 2003 a chafodd ei roi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Stirling 2004. Mae Cofrestrfa Tir EF yn parhau i dderbyn ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r eiddo, gyda Swyddfa Coventry yn prosesu gweithred amrywio ar gyfer prydles yn haf 2026. Llun: Shutterstock/SAKhanPhotography

Cynnwys Mae cerflun efydd o'r bardd Syr John Betjeman i'w weld yng nghyntedd uchaf Gorsaf St Pancras yn Camden, Llundain, i anrhydeddu ei rôl yn yr ymgyrch i achub yr adeilad rhag cael ei ddymchwel yn y 1960au. Ymunodd Cyngor Camden â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol ym Mawrth 2026. Llun: Shutterstock/William Barton

Cynnwys

Adroddiad perfformiad	
Trosolwg o Gofrestrfa Tir EF	4
Ein rôl yn y farchnad eiddo	6
Rhagair gan Neil Sachdev, Cadeirydd	8
Rhagair gan Iain Banfield, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro	10
Gweithio gyda chwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau hawdd eu defnyddio	14
Digideiddio ac arloesi	16
Cefnogi'r farchnad eiddo a'r economi gyda'n data	18
Bod yn wylidwrus er mwyn atal twyll eiddo	23
Ein pobl	24
Sut rydym wedi perfformio yn 2025 i 2026	30
Sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein Strategaeth a'n Cynllun Busnes	36
Rheoli ein prif risgiau yn ystod 2025-26	42
Amgylcheddol Cymdeithasol Llywodraethu	44
Cynaliadwyedd	46
Adolygiad ariannol	50
Geirfa	58
Adroddiad atebolrwydd	61
Adroddiad atebolrwydd seneddol	72
Datganiadau ariannol adrannol	92
Datganiad Ymddiriedolaeth	
Cofrestrfa Tir EF 2025-26	113
Datganiadau ariannol	117
Atodiad A	123
Atodiad B	125
Atodiad C	126
Atodiad Ch	127
Atodiad D	128



Adroddiad perfformiad

Trosolwg o Gofrestrfa Tir EF

Ein pwrpas

Rydym yn gwarchod eich perchnogaeth eiddo, yn gwneud prynu tir yn hawdd ac yn ddiogel i bawb ac yn darparu mynediad at wybodaeth am eiddo.

Ein gweledigaeth

Gwasanaethau digidol, arbenigedd a gwybodaeth eiddo hygyrch sy'n datgloi marchnad eiddo well, gyflymach a llai trafferthus.

Sut rydym yn gwasanaethu

Newid: Rydym yn cofrestru newidiadau mewn perchnogaeth eiddo


Diogelu: Rydym yn gwarchod perchnogaeth eiddo

Hysbysu: Rydym yn darparu gwybodaeth am eiddo

Ein gwerthoedd

- Rydym yn meddu ar unplygrwydd
- Rydym yn ysgogi arloesedd
- Rydym yn broffesiynol
- Rydym yn rhoi sicrwydd

Cofrestrfa
Tir EF



Ein prif rôl

Am fwy na 160 o flynyddoedd mae Cofrestrfa Tir EF wedi gwasanaethu fel y sefydliad hanfodol sy'n gwarchod yr hawl i eiddo ac yn galluogi'r farchnad i weithredu. Trwy gadw'r cofnod diffiniol a gwarantedig o berchenogaeth eiddo yng Nghymru a Lloegr, rydym yn cynnig modd i eiddo gael ei drafod yn ddiogel ac yn hyderus.

Amcangyfrifir bod tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr yn werth bron £9 triliwn, sy'n fwy na hanner cyfoeth y genedl. Mae'r Gofrestr teitl yn cynnwys mwy na 27 miliwn o deitlau tir ac eiddo, sy'n cwmparu mwy na 90% o arwynebedd tir Cymru a Lloegr. Mae mynediad at wybodaeth am dir ac eiddo yn cynnig modd i unigolion, busnesau a'r Llywodraeth gynllunio ar gyfer anghenion tai yn y dyfodol, newid hinsawdd ac economi ffyniannus.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn adran anweinidogol ac er 1 Mehefin 2023 bu'n gorff partner i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.



Ministry of Housing,
Communities &
Local Government



Cofrestrfa Tir EF – y ffigurau



56.6m
Ceisiadau
gwasanaeth



224,000
Ceisiadau dyddiol
ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth
Cofrestrfa Tir EF




65%
Sgôr Mynegai
Ymgysylltu
Arolwg Pobl 2025, cynnydd
o 59% yn 2024



98%
Ceisiadau
digidol
i ddiweddaru'r Gofrestr



7,193
Gweithwyr



Dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi:



Cwblhau **22.7m** o geisiadau
gwasanaethau gwybodaeth warantedig
swyddogol i sicrhau bod y farchnad eiddo
yn symud



Prosesu **4.6m** o geisiadau newid cofrestr
(deliadau a theitlau newydd)



Mudo data **36** awdurdod lleol i'n
Cofrestr Pridiannau Tir Lleol



118 o brentisiaid
85% cyfradd cwblhau – y drydedd uchaf
yn y Gwasanaeth Sifil

Ein rôl yn y farchnad eiddo

Budd yn y farchnad



Tir ac eiddo sy'n werth bron **£9 triliwn** yn cael eu cadw



201,000 o geisiadau dyddiol i weld y gofrestr, cynlluniau, dogfennau cysylltiedig, MapSearch a Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo

Cofrestrfa
Tir EF



- Gweld Cofrestr
- Data Pris a Dalwyd
- Mynegai Prisiau Tai y DU
- MapSearch
- Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo

Budd yn y farchnad. Mae gennym un o'r cronfeydd data eiddo geo-ofodol trafodaethol mwyaf yn Ewrop, gan gynnwys yr holl fenthyciadau gwarantedig a hawliau eiddo eraill yng Nghymru a Lloegr. Er 1990, mae ein cofrestr ddigidol wedi bod ar agor yn llawn i'r cyhoedd.

Darparwn ryw faint o'r wybodaeth eiddo fwyaf defnyddiol a gwerthfawr er mwyn cynnal economi sy'n cael ei gwirioneddol ysgogi gan ddata a llywio polisïau'r llywodraeth i gynnal adeiladu tai a thwf. Gall ein gwasanaeth **Pridiannau Tir** ddangos a oes cyfyngiadau ar y defnydd o eiddo digofrestredig. Mae'r gwasanaeth yn gwarchod rhai buddion mewn tir digofrestredig ac rydym hefyd yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein **Cofrestr Credydau Amaethyddol** yn rhoi sicrwydd ar gyfer benthyca dros asedau fferm, megis da byw neu offer, ac eithrio'r tir ei hun.

Trafodiad eiddo



89,739 o gopïau swyddogol, chwiliadau swyddogol a chwiliadau pridiannau tir lleol swyddogol dyddiol

Cofrestrfa
Tir EF



- Chwiliad o'r map mynegai
- Copïau swyddogol
- Pridiannau Tir Lleol
- Chwiliadau swyddogol

Trafodiad eiddo. Mae ein gwasanaethau gwybodaeth warantedig a thrafodion yn darparu gwybodaeth hanfodol a diogelwch i brynwyr, rhoddwyr benthyg a'u cynrychiolwyr proffesiynol, ac ni fyddai'r farchnad eiddo yn gweithredu hebbynt.

Ar ôl prynu a thu hwnt



63 o gofrestriadau twyllodrus wedi cael eu hatal



Dros **18,000** o geisiadau dyddiol i ddiweddarau'r gofrestr neu greu teitl newydd

Cofrestrfa
Tir EF




- Creu cofrestr
- Diweddarau cofrestr
- Property Alert

Ar ôl prynu a thu hwnt.


Derbyniwn tuag 18,000 o geisiadau y dydd i ddiweddarau'r gofrestr neu greu teitl newydd. Gall hyn adlewyrchu perchnogaeth newydd, morgesi a hawliau eraill. Mae cofrestru perchnogaeth newydd yn digwydd ar ddiwedd y trafodiad eiddo – ar ôl i dreth dir y dreth stamp gael ei thalu ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Gall perchnogion ddefnyddio ein gwasanaeth Property Alert i helpu i warchod eu heiddo rhag twyll.

Ceisiadau gwasanaeth



*Gwasanaeth am ddim

Refeniw



Cyfanswm Refeniw (gan gynnwys: incwm Gwasanaethau eraill) **£500.6m**

Rhagair

gan Neil Sachdev, Cadeirydd



Mae **Glannau Bazalgette** yng nghanol Llundain – wedi ei enwi ar ôl y peiriannydd enwog o oes Fictoria Syr Joseph – wedi ei greu ar dir wedi ei adfer o Afon Tafwys o dan gynllun carthffosydd lefel dwfn Twnnel Thames Tideway. Cwblhawyd cais Thames Water i gofrestru'r rhydd-ddaliad y flwyddyn hon gan Swyddfa Abertawe. Cafodd y tir ei gaffael trwy ddatganiad breinio cyffredinol gan ddefnyddio pwerau Seneddol, a oedd yn golygu nad oedd angen gweithred drosglwyddo Llun: Chris Hopkinson/Tideway



Neil Sachdev Cadeirydd Cofrestrfa Tir EF

Ein gwerthoedd fel sefydliad yw meddu ar unplygrwydd, ysgogi arloesedd, bod yn broffesiynol a rhoi sicrwydd. Yn achos pob un o'r rhain rydym yn ceisio darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio'n ddiflino ar wneud hynny – rhoi cwsmeriaid wrth wraidd ein penderfyniadau, gweithredoedd a blaenoriaethau.

Rydym ni i gyd yn gwybod sut beth yw bod yn gwsmer sy'n gofyn cwestiynau i gwmni neu sefydliad. Mae gan ein cwsmeriaid, boed yn brynwr neu'n werthwr tai, yn drawsgludwr neu'n rhoddwr benthyg, yn ddatblygwr neu'n entrepreneur data, lawer o gwestiynau i'w gofyn. Maen nhw am wybod pa mor gyflym y byddwn yn prosesu eu cofrestriadau, sut rydym yn gwarantu bod eu cynlluniau teitl a chofrestri yn ddibynadwy ac yn ddiogel, a sut y byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau digidol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd ystyrlon a mesuradwy o ran ateb y cwestiynau hyn, trwy ein gweithredoedd a'n hymrwymadau. Fel y dangosa'r adroddiad hwn, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i leihau oedran a nifer y ceisiadau heb eu prosesu, mater a fu o bwys canolog i'n cwsmeriaid ac inni ein hunain ers sawl blwyddyn. Yn bwysig ddiagon, rydym wedi gwneud hyn heb aberthu unrhyw beth o ran cywirdeb ac unplygrwydd. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod ein sgorau gwasanaeth cwsmeriaid yn gwella gyda chynnydd o 5 pwynt canran i 68% yn chwarter pedwar – sgôr gyffredinol uchaf y flwyddyn. Rydym yn darparu'r hyn y mae ei angen ar ein cwsmeriaid ac maen nhw'n cydnabod hynny. Wedi dweud hynny, gwyddom y gall ein prosesau fod yn rhy araf a chymhleth o hyd i lawer o gwsmeriaid. Nid gwelliant cynyddol yw ein huchelgais ond yn hytrach newid mawr mewn cyflymder, symlrwydd a dibynadwyedd.

Rydym hefyd wedi bod yn annog ac yn arfogi ein cwsmeriaid i wella ansawdd y ceisiadau y maen nhw'n eu cyflwyno inni. Trwy gyhoeddi data ar ymholiadau y mae modd eu hosgoi am y tro cyntaf eleni a darparu amrywiaeth ehangach o hyfforddiant a chymorth am ddim, rydym yn rhoi syniad clir i drawsgludwyr a chwmnïau cyfreithiol sut y gallant sicrhau bod eu ceisiadau'n gywir y tro cyntaf. O ganlyniad, mae llawer o gwsmeriaid wedi gweld lleihad sylweddol yn faint o weithiau y mae'n rhaid inni ofyn am ragor o wybodaeth ganddynt. Mae gwella ansawdd mewnbnw ar draws y system yn parhau i fod yn elfen hanfodol wrth wella perfformiad cyffredinol.

Rwyf wedi bod yn hapus iawn ag ymdrech arbennig ein 7,000+ o gydweithwyr arbenigol i wella cyflymder

“Trwy gyhoeddi data ar ymholiadau y mae modd eu hosgoi am y tro cyntaf eleni a darparu amrywiaeth ehangach o hyfforddiant a chymorth am ddim, rydym yn rhoi syniad clir i drawsgludwyr a chwmnïau cyfreithiol sut y gallant sicrhau bod eu ceisiadau'n gywir y tro cyntaf.”

ein gwasanaeth, a hefyd eu parodrwydd i wirioneddol ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhoi eu hanghenion nhw yn gyntaf. Mae eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb wedi bod yn ganolog i'r cynnydd rydym wedi ei wneud.

Ar draws y sefydliad rydym wedi bod yn croesawu cwsmeriaid i'n swyddfeydd ac yn ymweld â'u swyddfeydd nhw – gan siarad â'n gilydd ynghylch sut rydym yn darparu ar eu cyfer. Roedd ein Hadolygiad Gofal Cwsmeriaid yn garreg filltir o ran rhoi tryloywder ac eglurder i'n prosesau trin cwynion a'n hymgysylltiad ehangach â'n cwsmeriaid. Rydym yn rhoi'r argymhellion ar waith ac yn gweithio hyd yn oed yn agosach gyda'n Hadolygydd Cwynion Annibynnol i gryfhau ymddiriedaeth, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Bydd ein cwsmeriaid proffesiynol wedi gweld a phrofi'r ffordd rydym wedi datblygu a gwella ein gwasanaethau digidol. Rydym wedi gwella'r ddwy brif sianel y maen nhw'n eu defnyddio, ein porthol busnes a Business Gateway, wrth inni ddileu systemau gwaddol yn raddol. Mae ceisiadau'n cael eu dilysu'n gynharach yn y broses, sy'n golygu y gallwn symud ffocws ein gweithwyr achos o dasgau arferol i waith mwy cymhleth. Ar gyfer dinasyddion a busnesau bach rydym wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaethau ar-lein newydd yn 2026-27 sy'n cynnig modd iddynt wneud cais am gopiau swyddogol a chynlluniau teitl yn ddigidol yn hytrach na thrwy'r post. Bydd technoleg yn allweddol i alluogi cynnydd, ond ni fydd yn ddigonol ar ei phen ei hun.

Bydd darparu gwasanaeth cyflymach a mwy tryloyw yn gofyn am safonau data cyson, mewnbynnau o safon uwch a chyfatebiaeth gryfach ar draws rhoddwyr benthyg, trawsgludwyr a'r farchnad ehangach. Bydd Cofrestrfa Tir EF yn parhau i chwarae rôl flaenllaw wrth ysgogi'r newid hwn. Gall ein cwsmeriaid a'n partneriaid ddisgwyl ein gweld ni'n cyflawni'r rôl honno gyda mwy o egni a chyflymder trwy'r mesurau rydym wedi eu hamlinellu yn ein Strategaeth 2025+ a'n Cynllun Busnes 2026+, gan gynnwys cefnogi uchelgais y Llywodraeth i ddarparu 1.5 miliwn o gartrefi newydd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gweinidog, y Farwnes Taylor o Stevenage, wrth inni ymgysylltu â datblygwyr a darparwyr seilwaith, gwella mynediad at y data tir ac eiddo sy'n sail i'w penderfyniadau, ac ehangu'r gwasanaethau sy'n helpu i alluogi datblygiadau mawr a chymhleth. Rydym yn benderfynol o gyflymu cynnydd – gan weithio gyda phartneriaid ar draws y system i ddarparu marchnad eiddo sy'n gyflymach, yn symlach ac yn fwy tryloyw i bawb. Dyna'r safon y dylai ein cwsmeriaid ei disgwyl, a'r un rydym wedi ymrwymo i'w chyflawni.

Rhagair

gan **Iain Banfield**

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro



Mae **Parc Selhurst**, cartref Clwb Pêl-droed Crystal Palace, enillwyr Cyngwrair Cyngres UEFA 2026, i'w weld yng nghornel dde uchaf yr olygfa o'r awyr hon o Fwrdeistref Croydon yn Llundain. Ymunodd y cyngor bwrdeistref â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2026. Llun: Google Earth



Iain Banfield Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro

“Rydym wedi cyrraedd ein targed o leihau oedran ceisiadau sy’n aros i’w prosesu (oedran 95% o bob prif fath o gais) o bron 20 mis (yn 2023) i lai na 9 mis.”

Ein gweledigaeth ni yma yng Nghofrestrfa Tir EF yw datgloi marchnad eiddo well, gyflymach sy’n peri llai o straen. Rydym yn gwybod y gall prynu a gwerthu eiddo fod yn un o brofiadau mwyaf arwyddocaol a phoenus bywyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd camau pendant i wella ein perfformiad gweithredol a’r sylfeini ar gyfer trawsnewid hirdymor.

Rwy’n falch ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella cyflymder ac ansawdd ein gwasanaethau. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cofrestru bron hanner yr holl geisiadau cofrestru teitl o fewn wythnos i’w derbyn. Rydym wedi cyrraedd ein targed o leihau oedran ceisiadau sy’n aros i’w prosesu (oedran 95% o bob prif fath o gais) o bron 20 mis (yn 2023) i lai na 9 mis. Ochr yn ochr â hynny, mae gwelliannau yn ansawdd cofnodion cofrestr newydd yn dangos ein bod yn cynnal ymddiriedaeth hanfodol perchnogaeth eiddo a chyflawni lefelau uwch o effeithlonrwydd yr un pryd.

Rydym wedi parhau i foderneiddio ein gwasanaethau trwy drawsnewid digidol. Mae ein porthol cwsmeriaid wedi ei ailwampio yn cynnig gwelededd ceisiadau well, gan gynnwys cofrestradau cyntaf, tra bod gwelliannau i ryngwynebau rhaglennu cymwysiadau trydydd parti yn helpu cwsmeriaid i gyflwyno ceisiadau o safon uwch y tro cyntaf. Mae derbyn Llofnodion Electronig Cymwys i’r farchnad yn gosod sylfaen a fydd yn creu byd lle na fydd angen tyst mwyach i gyflawni gweithred yn ddigidol.

Mae arloesedd yn parhau i fod yn ganolog i’n huchelgeisiau. Rydym yn ehangu ein defnydd o ddeallusrwydd artifisial er mwyn gwella gwasanaethau cwsmeriaid a phrosesau mewnol, gan gynnal mesurau diogelwch priodol yr un pryd. Mae deallusrwydd artifisial eisoes yn helpu cydweithwyr i lywio cyfarwyddyd cymhleth mewn modd mwy effeithlon ac mae’n cyflymu’r broses o ddigideiddio cofnodion Pridiannau Tir Lleol wrth inni weithio tuag at gwblhau’r gofrestr genedlaethol erbyn diwedd 2028.

Mae ein data yn parhau i fod yn sail i’r farchnad eiddo a’r economi ehangach. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwmo i’w gwneud hi’n haws i’w gyrchu a’i ddefnyddio, gan gefnogi gweithwyr proffesiynol, busnesau a dinasyddion fel ei gilydd i wneud penderfyniadau gwybodus a datblygu gwasanaethau arloesol.

Ni fyddai’r cynnydd hwn yn bosibl heb ein pobl ac mae’r 12 mis diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein lefelau ymgysylltiad staff. Trwy fuddsoddiad parhaus mewn dysgu a datblygu, ar y cyd â ffocws cryfach ar arweinyddiaeth a dealltwriaeth cwsmeriaid, rydym yn meithrin y capasiti y mae ei angen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol. Mae’r ffocws o’r newydd hwn wedi ei adlewyrchu yn y lefelau cynyddol o fodlonrwydd cwsmeriaid, a orffennodd y flwyddyn ariannol ar ei lefel uchaf ers pum mlynedd, gan roi hyder inni fod y newidiadau rydym yn eu gwneud yn cael eu cydnabod gan y rhai rydym yn eu gwasanaethu.

Er ein bod yn falch o’r cynnydd rydym wedi ei wneud, rydym yn gwybod bod mwy i’w wneud eto. Trwy Strategaeth 2025+ a’n Cynllun Busnes 2026+, byddwn yn parhau i foderneiddio’r farchnad eiddo, gan wella profiad cwsmeriaid a darparu gwasanaethau sy’n symlach, cyflymach ac yn fwy gwydn. Mae ein huchelgais yn glir: darparu gwasanaethau cyhoeddus gwych a gwneud Cofrestrfa Tir EF yn lle hawdd i bawb wneud busnes.

Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf

Parhau i wella perfformiad gwasanaeth



Rhoi cwsmeriaid yn gyntaf




Adeiladu gwasanaethau digidol modern



Cefnogi diwygio'r farchnad dai



Mae'r rhain i gyd yn cael eu galluogi gan ein pobl:
sgiliau arbenigol, arweinyddiaeth gref a'r gallu i
gyflawni newid yn hyderus





Ymunodd **Cyngor Bwrdeistref St Helens** â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ionawr 2026. Mae'r fwrdeistref yn gartref i'r amgueddfa Byd Gwydr, a sefydlwyd yn 2000 i adrodd hanes pobl a diwydiannau St Helens. Llun: Alamy/John Davidson.

Gweithio gyda chwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau hawdd eu defnyddio

Mae deall beth y mae ei angen ar ein cwsmeriaid – a gweithredu ar y wybodaeth honno – yn ganolog i sut rydym yn datblygu ac yn gwella ein gwasanaethau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfnhau ein hymgyssylltiad â chwmnïau cyfreithiol, trawsgludwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwn i wneud ein gwasanaethau'n gyflymach, yn fwy cywir ac yn haws i'w defnyddio.

Un o'n blaenoriaethau cliraf fu lleihau nifer yr ymholiadau y mae modd eu hosgoi – ceisiadau a anfonwn at ymgeiswyr am ragor o wybodaeth neu eglurhad lle mae'r cais gwreiddiol yn cynnwys gwallau neu hepgoriadau y gellir eu hosgoi'n rhwydd. Fel arfer, anfonwn tua 800,000 o geisiadau bob blwyddyn, am gost amcangyfrifedig i'r sector eiddo o oddeutu £17 miliwn y flwyddyn. Y flwyddyn ddiwethaf anfonwyd tua 108,000 yn llai o lythyrau ymholiadau, sy'n golygu bod miloedd o oriau wedi cael eu rhyddhau yn ôl i'r system gan ein helpu i gwblhau mwy o geisiadau yn gyflymach.



108,000
yn llai o lythyrau
ymholiadau wedi cael
eu hanfon

Dywedodd cwsmeriaid wrthym eu bod am gael gwybodaeth gliriach ynghylch ble roeddent yn mynd o'i le a beth allent ei wneud am hyn. Mewn ymateb, dechreuwyd rhannu data ymholiadau y mae modd eu hosgoi ar lefel cwmni, gan ddangos am y tro cyntaf ble roedd gwallau'n digwydd a sut roedd perfformiad yn cymharu ar draws y sector. Chwe mis yn ddiweddarach, cyhoeddwyd y data yma ar GOV.UK, gyda chefnogaeth rheoleiddwyr a chyrrff o'r diwydiant. Dangosodd y canlyniadau fomentwm go iawn: roedd 33% o gwsmeriaid proffesiynol wedi lleihau eu cyfraddau ymholiadau y mae modd eu hosgoi.



33% o gwsmeriaid
proffesiynol wedi lleihau
eu cyfraddau ymholiadau
y mae modd eu hosgoi

Mae gweithdai ar-lein am ddim Cofrestrfa Tir EF ar gyfer gweithwyr proffesiynol eiddo yn cynnwys dau ar gofrestru adeiladau newydd

Ochr yn ochr â mwy o dryloywder, buddsoddwyd yn helaeth mewn cymorth i gwsmeriaid a hyfforddiant. Dangosodd ein harolwg Curiad Calon Cwsmeriaid nad oedd 55% o'n cwsmeriaid yn ymwybodol o'r hyfforddiant am ddim a gynigiwn, gan ein hysgogi i godi ymwybyddiaeth o'n hyb hyfforddi ar GOV.UK ac ehangu ein rhaglen o weithdai am ddim. Mae mwy na 6,450 o bobl wedi mynychu'r sesiynau hyn sy'n cael eu cynnal gan uwch weithwyr achos arbenigol ac yn rhoi sylw i'r gwallau mwyaf cyffredin y mae modd eu hosgoi a chynnig cymorth byw. Roedd ein timau cymorth i gwsmeriaid hefyd wedi gweithio'n uniongyrchol gyda chwmnïau penodol trwy gyfarfodydd ansawdd ceisiadau un-i-un, gan ddarparu dadansoddiad wedi ei deilwra o'u cyflwyniadau a'u cyfeirio at gymorth arbenigol.

Cofrestrfa
Tir EF



**Cofrestru
adeiladau
newydd?**





Cofrestrfa
Tir EF

hyb hyfforddi

Ydych chi wedi ymweld
â'n Hyb Hyfforddi?



Hyfforddiant Cofrestrfa Tir EF




Rydym wedi bod yn gwella ein gwasanaethau digidol hefyd er mwyn helpu cwsmeriaid wrth iddynt ddrafftio eu ceisiadau ar draws ein porthol ar-lein rhad ac am ddim a meddalwedd sy'n gysylltiedig â'n gwasanaethau trwy ein rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau Business Gateway. Rydym wedi cyflwyno mwy o wiriadau digidol i godi problemau cyffredin cyn iddynt gyflwyno'r cais. Pan gaeodd y cwmni trawsgludo PM Law yn sydyn yn Chwefror, gweithredwyd yn gyflym i gymryd camau i gysylltu â chwsmeriaid oedd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu sefyllfa a'u bod yn gallu cael mynediad at y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Mae adborth cwsmeriaid hefyd wedi llunio gwelliannau i'r ffordd rydym yn delio â chwynion. Roedd Adolygiad Gofal Cwsmeriaid, a gomisiynwyd gan ein Bwrdd, wedi nodi cyfleoedd i gryfhau sut rydym yn trin cwsmeriaid pan fydd pethau'n mynd o'i le. Mewn ymateb i'r argymhellion, rydym wedi:

- lansio taith gwynion ar-lein newydd;
- cyflwyno dadansoddiad achos sylfaenol i ddysgu o gwynion a gwella ein gwasanaethau; a
- sefydlu tîm cwynion canolog pwrpasol.

Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi arwain at welliant o 27% yng nghyflymder datrys cwynion a lleihad o 25% yn nifer y cwynion a dderbyniwyd. Ein nod yw gwranddo'n ofalus ar gwsmeriaid, bod yn dryloyw ynglŷn â pherfformiad a gweithio mewn partneriaeth i lunio gwasanaethau sy'n wirioneddol ateb eu hanghenion.



27% o welliant yng
nghyflymder datrys
cwynion



25% o leihad yn
nifer y cwynion a
dderbyniwyd

Digideiddio ac arloesi

Mae cynnydd sylweddol wedi parhau o ran digideiddio gwasanaethau a phrosesau mewnol yn ystod y flwyddyn, gyda thechnoleg a deallusrwydd artifisial (AI) yn chwarae rôl gynyddol ganolog yn y ffordd rydym yn gweithredu a'r ffordd rydym yn gwasanaethu ein cwsmeriaid.

Rydym wedi gwneud gwelliannau ystyrlon i effeithlonrwydd ein gwasanaethau. Rydym wedi ehangu awtomeiddio ceisiadau trafodion sengl trwy ein peiriant Prosesu Ceisiadau, gan gynnwys awtomeiddio ceisiadau holltiad cyd-denantiaeth.


Gwasanaethau cwsmeriaid hawdd eu defnyddio

Er mwyn gwella ansawdd ceisiadau sy'n dod i mewn a lleihau ymholiadau, datblygwyd gwasanaeth ceisiadau newydd ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio rhyngwynebaw rhaglennu cymwysiaid sy'n cael eu galluogi gan Business Gateway, a fydd yn defnyddio gwiriadau digidol cyson. Bydd hyn yn lleihau gwallau cyn cyflwyno ceisiadau ac felly'n osgoi'r angen am ymholiadau. Erbyn 2028, gallai hyn arbed tua 300,000 awr y flwyddyn o aros am broses weinyddol ddiangen ac yn lle hynny leihau mannau problemau cwsmeriaid a darparu gwybodaeth ddibynadwy ymlaen llaw.

Dechreuodd gwaith ar blatfform rhyngwynebaw rhaglenni cymwysiaid newydd, gydag amgylchedd profi 'blwch tywod', a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddatblygwyr meddalwedd gysylltu â'n gwasanaethau a datblygu offer gwell ar gyfer trawsgludwyr.

Cafodd gwelliannau sylweddol eu gwneud i'n porthol ar-lein rhad ac am ddim. Erbyn hyn gall cwsmeriaid olrhain cynnydd ceisiadau i gofrestru eiddo gan ddefnyddio'r gwasanaeth Gweld Ceisiadau, gan gynnwys gallu cael mynediad at ymholiadau cysylltiedig a'u datrys yn gyflym. Cafodd y platfform ei ailddylunio hefyd er mwyn i'r hafan gyfateb â'r sgrin Gweld Ceisiadau â'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol i ddarparu profiad mwy cyson a greddf. Daeth y Gwasanaeth Cofrestru Dogfennau electronig i ben – y system waddol lle mae cwsmeriaid yn cyflwyno ffurflenni papur wedi eu sganio – a'i ddisodli gan y Gwasanaeth Cofrestru Digidol.

Yn Awst, yn dilyn paratoi trylwyr a chydweithio agos â darparwyr platfformau a mabwysiadwyr cynnar, roeddem yn barod i dderbyn ceisiadau wedi eu llofnodi trwy ddefnyddio Llofnodau Electronig Cymwysedig (LIEC), gan nodi carreg filltir yn y gwaith o ddigideiddio trafodion eiddo yng Nghymru a Lloegr. Gwahoddwyd y diwydiant i ddechrau cyflwyno ceisiadau wedi eu llofnodi gan ddefnyddio LIEC, y math mwyaf diogel o lofnod electronig sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn wahanol i ddulliau llofnodi traddodiadol, mae LIEC yn defnyddio technoleg gwirio hunaniaeth ddatblygedig, gan gynnwys gwiriadau biometrig megis adnabod wyneb sy'n debyg i wirio pasbort, i gadarnhau hunaniaeth llofnodwr cyn llofnodi dogfen. Mae hyn yn cynhyrchu cofnod digidol na ellir ei newid heb ei ddarganfod, gan gynnig diogelwch cryfach yn erbyn twyll na llofnod wedi ei dystio yn y modd consensiynol. Trwy wirio hunaniaeth llofnodwr ymlaen llaw, mae LIEC yn dileu'r angen am dyst wrth gyflawni gweithred, gan gynnig mwy o hyblygrwydd a symlrwydd i drawsgludwyr, rhoddwyr benthyg a'u cleientiaid. Gan weithio'n agos gyda darparwyr platfformau a'r farchnad drawsgludo ehangach, rydym yn helpu mabwysiadwyr cynnar trwy'r cyfnod gweithredu cychwynnol.



Cymdeithas Adeiladu Nationwide oedd y rhoddwr benthyg cyntaf i gyflwyno cais am forgais trwy ddefnyddio LIEC, gan nodi carreg filltir arwyddocaol i'r diwydiant eiddo. Mae hwn yn foment o falchder i bawb sy'n rhan o'r gwaith ac yn dangos nad dim ond posibilrwydd damcaniaethol yw LIEC ond yn hytrach realiti ymarferol, gweithredol ym myd trafodion eiddo heddiw. Mae hyder Nationwide yn y dechnoleg yn arwydd cryf i'r farchnad ehangach, a gobeithiwn y bydd yn ysbrydoli rhoddwyr benthyg a thrawsgludwyr eraill i gymryd eu camau cyntaf gyda LIEC. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi pob cwmni ar y daith honno, ni waeth pa mor fawr neu fach, ac rydym yn gyffrous am y momentwm y mae'r llwyddiant hwn yn ei greu.

Rydym yn disgwyl i LIEC fod yn rhan safonol o'r broses trafodion eiddo ac rydym yn parhau i weithio gyda rhoddwyr benthyg a'r farchnad ehangach i gyflymu'r broses o'i fabwysiadu.

Yn benodol ar gyfer cwsmeriaid dinasyddion, datblygwyd map strategol clir i leihau eu dibyniaeth ar wasanaethau papur a'u galluogi i ryngweithio â'r Gofrestr Tir yn ddigidol, yn syml ac yn annibynnol. Yn y misoedd nesaf, bydd dinasyddion yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein newydd i ofyn am gopïau swyddogol a chynlluniau teitl, talu amdanynt a'u lawrlwytho.

Cofrestrfa
Tir EF



Llofnodau Electronig Cymwysedig

Mwy o ddiogelwch ac yn haws

Llofnodau Electronig Cymwysedig (LIEC) yw'r math mwyaf diogel o lofnod electronig – does dim angen papur neu dyst.



SIGNATURE

John

Deallusrwydd Artiffisial

Dros y flwyddyn ddiwethaf, symudwyd y tu hwnt i archwilio deallusrwydd artiffisial, gan gynyddu ein defnydd o dechnoleg a bod yn uwch fabwysiadwr yn y llywodraeth.

Cyflwynwyd ein Cynorthwydd Deallusrwydd Artiffisial mewnol ar draws y sefydliad yn lonawr, gan gynnig modd i gydweithwyr ddod o hyd i atebion yn ein Cyfarwyddyd Ymarfer cymhleth mewn hanner yr amser y byddai chwiliad traddodiadol yn ei gymryd. Trwy wella cysondeb yn y ffordd y mae'r cyfarwyddyd yn cael ei ddefnyddio, mae'r cynorthwydd hefyd yn helpu i gynyddu cynhyrchiant a hyder wrth wneud penderfyniadau. Defnyddiwyd adborth o gynlluniau peilot i fireinio'r offeryn a'r hyfforddiant.

I gefnogi hyn, lansiwyd ein Hyb Deallusrwydd Artiffisial fel adnodd canolog ar gyfer cyfarwyddyd, polisi a chymorth ymarferol. Mae hyn wedi ei ategu gan drefniadau llywodraethu clir i sicrhau bod pob defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn parhau i fod yn ddiogel, moesegol, cyfreithlon a'i fod yn cyfateb â'n hamcanion strategol. Roeddem hefyd wedi annog pobl i gymryd rhan yn rhaglen Un Peth Mawr 2025: Deallusrwydd Artiffisial i Bawb y Gwasanaeth Sifil, gan helpu cydweithwyr i feithrin hyder a sgiliau ymarferol ym maes deallusrwydd artiffisial.


O ran Pridiannau Tir Lleol, mae modelau sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial eisoes wedi prosesu dros 10 miliwn o ddelweddau i dynnu gwybodaeth allweddol am eiddo ar raddfa fawr, gan gyflymu'n fawr mynediad at ddata strwythuredig o ffynonellau â llaw blaenorol (rhoddir sylw manylach i hyn yn yr adran nesaf). Mae'r gallu hwn yn dangos y potensial ar gyfer cymhwyso deallusrwydd artiffisial yn ehangach ar draws ein data. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ystyried y defnydd o brosesu dogfennaeth trwy ddeallusrwydd artiffisial ar draws pob llinell wasanaeth. Y nod yw atgyfnerthu'r gwerth mesuradwy o Bridiannau Tir Lleol a chefnogi mwy o effeithlonrwydd mewn gwaith achos.

Wrth edrych i'r dyfodol, yn unol â Llawlyfr Deallusrwydd Artiffisial y Llywodraeth, rydym yn disgwyl i ddeallusrwydd artiffisial chwarae rôl gynyddol bwysig wrth wella'r broses gwneud penderfyniadau, datgloi gwerth ein data ac ysgogi arloesedd ar draws cofrestru tir, ochr yn ochr â'r farn ddynol arbenigol sy'n sail i gywirdeb y gofrestr.



One Big Thing

AI for All



Cefnogi'r farchnad eiddo a'r economi gyda'n data

Gwerth ein data

Ein data yw ein hased mwyaf gwerthfawr, gyda'r wybodaeth am dir ac eiddo sydd gennym yn ffurfio un o'r cronfeydd data eiddo mwyaf yn Ewrop. Rydym yn cydnabod yr angen i wneud ein data yn haws i'w ganfod, ei gyrchu, ei rannu a'i aildefnyddio er mwyn helpu twf economaidd a chyfrannu at uchelgais y Llywodraeth i gryfhau effeithlonrwydd y farchnad eiddo. Rydym wedi ymrwymo i ddatgloi gwerth ein data yn llawn, gan sicrhau effeithiau cynnar a gwelliannau tymor hwy dros y 10 mlynedd nesaf.


Mae ein setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd wedi parhau i ddarparu gwybodaeth hanfodol i filoedd o ddefnyddwyr. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd mwy na 580,000 o lawrlwythiadau data o'n platfform Defnyddio data tir ac eiddo, cyfartaledd o oddeutu 48,000 y mis. O'r 14 set ddata sydd ar gael, codir tâl ar gyfer dwy ohonynt, a chodir tâl ar gyfer un o'r rheini dim ond pan gaiff ei defnyddio'n fasnachol. Rydym hefyd wedi rhannu data trwy gydol y flwyddyn i gefnogi blaenoriaethau polisi'r llywodraeth a datblygu gwasanaethau cyhoeddus.

Llwyddodd y Gwasanaeth Cyngori ar Lesddaliadau (LEASE) i ddefnyddio ein data i ddatblygu offeryn newydd o'r enw 'Gwirio cyfnod eich prydles' sy'n cynnig modd i aelodau'r cyhoedd ddarganfod y blynnyddoedd sy'n weddill ar brydles eiddo yng Nghymru a Lloegr yn rhad ac am ddim. Mae'r offeryn hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch a ddylai lesddeiliaid ystyried ymestyn eu prydles a sut i wneud hynny.



Cefnogi arloesedd Technoleg Eiddo

Er 2017 rydym wedi gweithio ar y cyd â'r Arolwg Ordnans i gyd-ariannu'r Rhaglen Cyflymydd Geovation, gan gefnogi cwmnïau newydd technoleg eiddo gyda'n data a'n harbenigedd. Yn 2026 unwaith eto roedd y Financial Times wedi rhestru Geovation yn y 150 o hybiau cychwyn busnes gorau yn Ewrop.

Hyd yn hyn, rydym wedi cefnogi 54 o gwmnïau newydd technoleg eiddo. Mae llawer o'r rhain wedi mynd ymlaen i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n galluogi'r farchnad eiddo i weithio'n fwy effeithlon, yn ogystal â chreu swyddi newydd a chyfrannu at yr economi.



Dyma ddwy enghraifft o sut mae cyfranogwyr blaenorol Geovation yn gwneud y farchnad eiddo yn fwy effeithlon.



Gwneud prynu a gwerthu tai yn gyflymach gyda data ymlaen llaw: Home Sale Pack

Mae'r cwmni Technoleg Eiddo Home Sale Pack yn dangos sut y gall data tir ac eiddo, a ddefnyddir yn gynharach yn y broses drafodion, wella'r broses gwneud penderfyniadau a lleihau methiannau yn y broses prynu tai.

Sylweddolodd Ruth Beeton, cyfreithwraig eiddo gyda dros 23 mlynedd o brofiad ym maes trawsgludo eiddo, y gallai darparu gwybodaeth allweddol ar ddechrau'r broses yn hytrach nag yng nghanol y broses osgoi oedi, ail-negodi a thrafodion yn chwahu'n llwyr.

Cyd-sefydlodd Home Sale Pack i ddwyn ynghyd y wybodaeth gyfreithiol y mae ei hangen i werthu eiddo a'i gwirio cyn i'r eiddo fynd ar y farchnad. Trwy symud y gwaith cyfreithiol i ddechrau'r broses, gall pobl wneud penderfyniadau gwell yn gynharach. Mae hyn yn golygu llai o syrpreisys a llwybr llyfnach at gwblhau.

Mae gwybodaeth gan gynnwys data teitl a phriddiannau tir lleol yn allweddol i hyn. Mae'r ffynonellau data hyn yn cynnig modd nodi problemau cyfreithiol posibl ar y cychwyn, boed hynny'n gyfamodau cyfyngu neu'n gofnodion priddiannau tir lleol a allai effeithio ar y trafodiad.

Dyweddodd Ruth Beeton:

"Roedd cymryd rhan yn Rhaglen Cyflymydd Geovation wedi rhoi cyfle inni gydweithio ag arbenigwyr o'r diwydiant a dyfnhau ein hymgyssylltiad â data Cofrestrfa Tir EF. Roedd hefyd wedi atgyfnerthu'r hyn roeddem eisoes wedi ei weld yn digwydd, sef bod cefnogaeth gref ar gyfer dull mwy rhagweithiol, sy'n seiliedig ar ddata, at drawsgludo."

Mae'r effaith eisoes yn glir.

"Rydym yn gweld prynwyr mwy gwybodus, amseroedd trafodion cyflymach ac, hyd yma, nid ydym wedi cael un methiant. Mae'r amserlenni cyfartalog o greu pecyn i gwblhau'r broses yn gyfreithiol wedi lleihau i saith wythnos."

Cyflwyniadau cynllunio cywir y tro cyntaf: UK Planning Gateway

Wedi ei sefydlu gan Michael Kalam, Rheolwr Gyfarwyddwr gyda dros 15 mlynedd o brofiad yn Lapworth Architects, adeiladwyd UK Planning Gateway i fynd i'r afael â phroblem barhaus ond y gellir ei datrys: oedi yn y broses gynllunio wedi ei achosi gan anghysondebau bach mewn ffiniau safleoedd, manylion perchnogaeth a data tir.

Gyda mwy na 400,000 o geisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ar draws Lloegr yn unig bob blwyddyn, gall hyd yn oed gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau am eglurhad arbed amser i ymgeiswyr ac awdurdodau lleol.

Mae UK Planning Gateway yn integreiddio data Cofrestrfa Tir EF â mapio'r Arolwg Ordnans a gofynion dilysu awdurdodau lleol ar adeg cyflwyno cais cynllunio. Trwy wirio ffiniau safleoedd a gwybodaeth am berchnogaeth yn gynharach yn y broses, gellir cwblhau ceisiadau am eglurhad cyn cyflwyno cais yn aml, gan leihau'r tebygolrwydd o luniadau diwygiedig neu ohebiaeth ychwanegol ar ôl dilysu. Mae ymarferwyr yn dweud y gall osgoi un rownd o eglurhad arbed sawl diwrnod o ddrafftio a gohebu.

Roedd ymuno â Rhaglen Cyflymydd Geovation yn Awst 2025 yn ganolog i ddatblygiad y cwmni. Fel yr eglura Michael Kalam:

"Cawsom fynediad nid yn unig i setiau data Cofrestrfa Tir EF megis data cofrestr teitl a pholygonau stent teitlau, ond i her a newnwelediad arbenigol ar sut y gellir cymhwyso data tir yn fwy effeithiol o fewn llifoedd gwaith ceisiadau cynllunio presennol.

"Roedd y rhaglen hefyd wedi ein cysylltu â chwmnïau Technoleg Eiddo eraill sy'n wynebu heriau tebyg gyda mentora oedd wedi ein helpu i symud o'r cysyniad i gynnyrch gweithredol. Mae'r rhwydwaith cymorth hwnnw'n parhau i fod yn werthfawr wrth inni dyfu."


Cofrestr Pridiannau Tir Lleol

Mae gwybod pa bridianau tir lleol – gwybodaeth megis gorchmynion cadw coed ac amodau cynllunio – sy'n gymwys i eiddo yn rhan hanfodol o'r broses prynu tŷ. Trwy greu Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ganolog, ddigidol ar gyfer Cymru a Lloegr, rydym yn helpu i wneud y broses prynu eiddo yn fwy effeithlon, gan arbed llawer iawn o amser ac arian i gwsmeriaid.

O adeg ei lansio yn 2018 hyd at ddiwedd Mawrth 2026, mae'r gofrestr wedi:



Arbed dros £4.5 miliwn i gwsmeriaid mewn ffioedd chwilio¹



Mudo mwy na 9 miliwn o bridianau o 147 o awdurdodau lleol i'r gofrestr



Arbed 13 diwrnod ar gyfartaledd i ddefnyddwyr i gael canlyniad chwilio PTLI



Cynhyrchu mwy na 2.2 miliwn o ganlyniadau chwilio pridiannau tir lleol i gwsmeriaid




Gweld 36 o awdurdodau lleol eraill yn mudo data i'r gofrestr

Y flwyddyn ddiwethaf, mudodd 36 o awdurdodau lleol eraill eu data pridiannau tir lleol i'r gofrestr, y nifer fwyaf mewn un flwyddyn hyd yn hyn.

Mae dwyn ynghyd mwy na 25 miliwn o gofnodion pridiannau tir lleol o 331 o awdurdodau lleol mewn un gofrestr ddigidol yn dasg gymhleth iawn. Mae'r data ar gael mewn fformatau gwahanol a rhaid i'r data gael ei ddigideiddio a'i wirio'n ofalus i sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau uchel sy'n ofynnol. Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd hyd yma, rydym wedi penderfynu bod angen mwy o amser arnom i gwblhau'r gwaith hwn yn iawn. Felly rydym wedi newid y dyddiad cwblhau targed ar gyfer y gofrestr i ddiwedd y flwyddyn ariannol 2028-29 er mwyn inni allu blaenoriaethu ansawdd a chywirdeb data dros gyflymder darparu gwasanaeth.

Ers i'r awdurdod lleol cyntaf fudo ei ddata yn 2018, rydym wedi dysgu a chymhwyso llawer o wersi i wneud y broses yn gyflymach ac yn llyfnach i bawb, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artifisial lle bo'n briodol.



Yn Ebrill 2025, roedd Cynghorau Bwrdeistref De Hams a Gorllewin Dyfnaint wedi mudo eu data pridiannau tir lleol i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol ganolog

Trawsnewid mudo pridiannau tir lleol gyda deallusrwydd artiffisial

Mae ein tîm gwyddor data wedi datblygu offeryn deallusrwydd artiffisial pwrpasol sy'n helpu i gyflymu a gwella mudo cofnodion pridiannau tir lleol awdurdodau lleol.

Gall yr offeryn arloesol nodi, tynnu a strwythuro gwybodaeth am bridiau tir lleol yn awtomatig, gan leihau dibyniaeth ar brosesau llaw sy'n cymryd llawer o amser. Mae defnydd cynnar wedi dangos y gall yr offeryn leihau amseroedd mudo yn sylweddol ac ar yr un pryd cynnal safonau ansawdd data llym, gyda'r holl allbynnau yn pasio gwiriadau ansawdd y tro cyntaf.

Bwrdeistref Newham yn Llundain oedd yr awdurdod lleol cyntaf i gael ei wybodaeth wedi ei phrosesu gan ddeallusrwydd artiffisial a phasio'r holl wiriadau ansawdd data, a chymerodd y dasg bedair wythnos a phedwar o bobl, o'i gymharu ag amcangyfrif o dri mis ac 20 o bobl heb ddeallusrwydd artiffisial.

Trwy leihau gwirio â llaw a gofynion adnoddau a galluogi staff i ganolbwyntio ar dasgau gwerth uwch, mae'r offeryn deallusrwydd artiffisial yn cefnogi darparu cofrestr ddigidol o safon uchel yn gyflymach. Mae hyn yn cryfhau hyder mewn data eiddo ac yn cyfrannu at farchnad eiddo fwy gwydn.

Cynllun peilot i leihau methiannau

Yn 2025, gofynnodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i Gofrestrfa Tir EF arwain cynllun peilot i ymchwilio i fanteision darparu mynediad at ddata rheoliadau adeiladu a phrifyrdd fel rhan o'r diwygiadau i gyflymu trawsgludo. Mae ymchwil wedi dangos bod y setiau data hyn ymhlith yr achosion mwyaf cyffredin o oedi mewn chwiliadau eiddo, gan gyfrannu'n sylweddol at drafodion aflwyddiannus, sy'n costio oddeutu £400 miliwn i brynwyr bob blwyddyn.

Cafodd y cynllun peilot ei arwain gan y Rhaglen PTLI, gan weithio mewn cydweithrediad â nifer o awdurdodau lleol o bob rhan o Gymru a Lloegr yn ogystal â chwsmeriaid a budd-ddeiliaid eraill. Bydd y casgliadau, a ddisgwyllir yn ddiweddarach yn 2026, yn helpu i lywio polisi'r llywodraeth yn y dyfodol ac yn cefnogi datblygiad marchnad eiddo fwy gwydn, sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n gweithio'n fwy effeithlon i brynwyr, gwerthwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mae Car Cefl Llundain yn cynnig taith 15 munud â golygfeydd trawiadol ar draws Afon Tafwys rhwng Penrhyn Greenwich a'r Dociau Brenhinol yn Newham. Llun: Shutterstock/TTStock Photography





Mae tai hanner ffrâm bren canoloesol i'w gweld ar hyd Afon Stour yng nghanol Caergaint. Ymunodd y cyngor dinas â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Awst 2025. Llundun: Shutterstock/Boris Stroujko

Bod yn wyliadwrus er mwyn atal twyll eiddo

Rydym wedi parhau i chwarae rôl flaenllaw yn y frwydr yn erbyn twyll teitl cofrestredig, gan nodi ac atal ymgais i dwyllo yn ystod y cam cofrestru.

Mae dulliau darganfod twyll gwell, gwiriadau wedi eu targedu a chyfarwyddyd wedi ei ddiweddarau i staff a'r cyhoedd wedi cyfrannu at atal ceisiadau eiddo twyllodrus sy'n werth mwy na £63 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwasanaeth rhad ac am ddim Property Alert wedi bod ar flaen y gad unwaith eto yn yr ymdrechion hyn, gan gynnig modd i berchnogion eiddo fonitro eu heiddo ar gyfer unrhyw weithgarwch amheus. Rydym yn hysbysu deiliad cyfrif Property Alert yr eiliad y derbynnir cais i newid cofnodion eiddo mewn rhyw ffordd, gan roi cyfle iddynt ei gwestiynu neu wrthwynebu. Rydym yn parhau i annog pobl i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth amhrisiadwy hwn er mwyn helpu i ddiogelu eu heiddo.

Gyda chefnogaeth ymgyrch ymwybyddiaeth barhaus, mae nifer y cyfrifon Property Alert gweithredol wedi codi 14.6% er 2024-25 i fwy na 900,000 erbyn diwedd 2025-26.

Mae'r sylw mawr a gafodd twyll eiddo yn y cyfryngau wedi helpu i gadw'r gwasanaeth yn llygad y cyhoedd unwaith eto, gyda Property Alert yn cael ei grybwyll yn Rip Off Britain ar BBC One, Five Ways They Get You ar Radio 4 ac mewn nifer o erthyglau ar draws y wasg fasnach a'r wasg genedlaethol.

Dywedodd **Lynne Feddon**, Pennaeth Gwrth-dwyll:

"Er fy mod yn falch bod cyfrifon Property Alert yn parhau i gynyddu, rydym yn gwybod bod twyllwyr yn gallu manteisio'n rhwydd ar y cyfleoedd diweddaraf felly rhaid inni barhau i fod yn wyliadwrus. Er nad ydym byth yn hunanfodlon, mae'n dda gwybod ein bod wedi gallu atal nifer o ymdrechion i dwyllo."

Mewn un enghraifft, roedd adroddiad i'n llinell twyll eiddo am weithgarwch amheus yn gysylltiedig â sawl cyfeiriad wedi arwain at ymchwiliad gan y Tîm Gwrth-Dwyll. Roedd hyn wedi enwi nifer o unigolion a chwmnïau oedd i'w gweld wedi'u cysylltu â'i gilydd.

Roedd eu hunaniaethau'n cynnwys enwau ffug ac roedd eu gweithgareddau wedi effeithio ar 29 o geisiadau ar eiddo ar draws Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Wrth gynorthwyo gydag ymchwiliad yr heddlu, roeddem wedi llwyddo i ganslo'r ceisiadau twyllodrus hyn. Yn Ebrill 2025, cafwyd y prif droseddwr yn euog o 76 o droseddau twyll a hunaniaeth annilys, nifer ohonynt yn ymwneud â thwyll eiddo, a'i ddedfrydu i 10 mlynedd o garchar.

Rydym hefyd yn gweithio ar draws y llywodraeth, gan gynorthwyo sefydliadau megis yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, Heddlu Dinas Llundain ac Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus i rannu data, cudd-wybodaeth ac arferion gorau.

Unwaith eto, roedd Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll Ryngwladol 2025 wedi cynnig cyfleoedd amhrisiadwy inni drafod y tueddiadau twyll eiddo diweddaraf, a sut i warchod ein hunain rhagddynt.

Mae'r Tîm Gwrth-dwyll bob amser yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r tueddiadau diweddaraf mewn gweithgarwch twyllodrus trwy hyfforddiant wedi ei dargedu.

Ein pobl

Pobl sy'n perfformio'n dda ac sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi a'i rymuso. Rydym wedi buddsoddi mewn arweinyddiaeth, dysgu a datblygu i adeiladu diwylliant perfformiad uchel a rhoi'r sgiliau y mae eu hangen ar gydweithwyr i ddarparu gwasanaethau digidol a chefnogi ein cwsmeriaid.

Rydym wedi bod yn buddsoddi yn y sgiliau a'r galluoedd y mae eu hangen fwyaf ar y sefydliad, gan ddefnyddio prentisiaethau i feithrin talent mewn meysydd â blaenoriaeth megis darparu gwasanaeth, digidol, data, arweinyddiaeth a phroffesiynau arbenigol. Gyda 118 o brentisiaid yn dysgu ar hyn o bryd a chyfradd cwblhau o 85% – y drydedd uchaf yn y Gwasanaeth Sifil – mae'r buddsoddiad hwn yn cyflawni cymwysterau cydnabyddedig, dilyniant gyrfa a gallu sefydliadol cryfach.

Galluogi perfformiad uchel trwy ddatblygu arweinyddiaeth

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud buddsoddiad bwriadol, ar draws y sefydliad, mewn gallu arweinyddiaeth, gan gydnabod bod hyn yn sylfaen ar

gyfer perfformiad, diwylliant a chyflawni cryfach. Mae ein hymagwedd wedi cyfuno buddsoddi o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr, gan gryfhau gallu rheoli llinell ar draws pob gradd ac ar yr un pryd targedu uwch arweinwyr i feithrin yr hyder, eglurder ac ymddygiadau y mae eu hangen i arwain Strategaeth 2025+ a bod yn fodel rôl ar gyfer Ffordd CTEF.

Ein buddsoddiad mwyaf arwyddocaol oedd mewn Sylfeini Rheoli Llinell. I ddechrau, cynlluniwyd Sgyrsiau Perfformiad Da ar gyfer tua 600 o reolwyr llinell Swyddog Gweithredol ac Uwch Swyddog Gweithredol, yna cafodd hyn ei ymestyn i bob un o'r 1,200 o reolwyr llinell ar draws Cofrestrfa Tir EF, o'r Swyddog Gweithredol i'r Prif Weithredwr dros dro, dros gyfnod o chwe mis. Mae hyn wedi creu sylfaen eang ar gyfer arweinyddiaeth pobl fwy cyson, ac o safon uchel, gyda chynnig modiwlauidd sy'n ceisio cefnogi rheolwyr llinell newydd a phrofiadol trwy offer ymarferol, datblygu sgiliau, dysgu gan gymheiriaid, hyfforddi a mentora. Cafodd y rhaglen sgôr bodlonrwydd o dros 90%, a dywedodd 93% eu bod eisoes yn rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith o ganlyniad. Mae hyn wedi helpu i osod y tôn ar gyfer diwylliant arweinyddiaeth mwy cysylltiedig, lle mae ymarfer myfyriol a dysgu gan



gymheiriaid ymarferol yn helpu arweinwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac atgyfnerthu ein buddsoddiad parhaus mewn cymunedau o arweinwyr.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gallu uwch arweinyddiaeth gyda dros 123 o gydweithwyr ar radd 6 ac uwch, ac yn fwy diweddar mewn cynnig datblygu uwch weision sifil wedi ei dargedu. Mae hyn wedi cynnwys cyfathrebu ac adrodd straeon i helpu arweinwyr i berchnogi a chyfleu ein Strategaeth 2025+, wedi hwyluso dysgu trwy grwpiau arweinyddiaeth a diwrnodau cwrdd i ffwrdd, ac wedi canolbwyntio gwaith ar yr amodau ar gyfer perfformiad uchel, gan gynnwys diogelwch seicolegol, her adeiladol, eglurder strategol, atebolrwydd ac ystwythder. Er mai cam cynnar yw hyn yn y rhaglen tymor hwy, mae arwyddion calonogol o gynnydd, gan gynnwys mwy o hyder a galw am ddatblygiad pellach, ar y cyd â gwelliant yn sgôr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil sy'n gofyn a oes gweledigaeth glir gan uwch arweinwyr.

Roedd mwy na 1,400 o gydweithwyr wedi cymryd rhan mewn rhaglenni'r Academi Cofrestru Tir, gan gefnogi dechreuwyr newydd, cydweithwyr sy'n datblygu yn eu rolau a'r rhai sy'n symud ymlaen i waith achos mwy cymhleth. Mae cwblhau'r rhaglenni hyn yn darparu awdurdod technegol cydnabyddedig, gan gefnogi datblygiad personol a gallu sefydliadol.

Cafodd llwybr hyfforddi technegol yr Academi Cofrestru Tir (o Swyddog Cofrestru Gweithredol i Uwch Swyddog Cofrestru) ei gydnabod trwy ennill y wobr o fri Gwobr

Hyfforddiant y Dywysoges Frenhinol, gan ei gosod ymhlith 57 o raglenni hyfforddi rhagorol yn genedlaethol. Mae'r wobr sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cydnabod ymrwymiad eithriadol i ddysgu a datblygu ac yn adlewyrchu graddfa ac effaith y buddsoddiad a wnaethom mewn meithrin sgiliau a gallu. Mae mwy na 400 o Uwch Swyddogion Cofrestru newydd wedi cwblhau neu'n mynd trwy'r rhaglen, sydd wedi cyfrannu'n fawr at feithrin gallu a gwellu cynhyrchiant.

Yn fwy cyffredinol, buddsoddwyd mewn meithrin gallu ar draws ein gweithlu yn unol â datblygiadau cymdeithasol a Gwasanaeth Sifil ehangach. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo mabwysiadu deallusrwydd artiffisial a'i ddeall trwy ein sianeli mewnol, yn unol â menter 'Un Peth Mawr' y Gwasanaeth Sifil. Roedd y gweithgarwch hwn wedi ategu ymgysylltiad cryf â dysgu deallusrwydd artiffisial, gyda nifer o gydweithwyr yn dilyn y modiwlau hyfforddi a argymhellir er mwyn meithrin hyder a dealltwriaeth ymarferol o ddeallusrwydd artiffisial.

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil – mesur newid

Dangosodd canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2025 sgorau gwell ar draws y rhan fwyaf o feysydd gyda chydweithwyr yn parhau i nodi ymdeimlad cryf o bwrpas, gwaith tîm cadarnhaol a lefelau uchel o gynhwysiant a thriniaeth deg. Roedd arweinyddiaeth a rheoli newid wedi cofnodi un o'r gwelliannau mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall, gan gynyddu wyth pwynt canran, ac yn flaenoriaeth barhaus i'r sefydliad.



Roedd yr arolwg wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu gweladwy yn dilyn adborth. Er bod canfyddiadau gweithgarwch mewn ymateb i adborth wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy. Rydym wedi cryfhau ein fframwaith diwylliant ac ymgysylltu i wella perchnogaeth, olrhain a thryloywder camau gweithredu ar lefel sefydliadol a lleol.

Disgwyliadau cliriach

Yn dilyn archwiliad iechyd diwylliant annibynnol, rydym wedi gweithio'n helaeth gyda chydweithwyr a rhwydweithiau staff ar draws y sefydliad i gyd-greu a lansio Ffordd CTEF – ein cyd-ymrwymiad. Mae hwn yn fynegiant clir o'r hyn a gynigiwn fel cyflogwr a'r hyn a ddisgwyliwn yn gyfnewid am hyn fel rhan o'n trawsnewid diwylliannol. Mae'r dull gweithredu hwn yn darparu eglurder ar ymddygiadau, mwy o atebolrwydd a ffocws ar gwsmeriaid i enwi dim ond rhai.

Gwella ffyrdd o gysylltu ac ymgysylltu

Mae'r cyfle i arweinwyr gysylltu â chydweithwyr trwy gydol y flwyddyn wedi cynyddu, gan gefnogi egwyddor Ffordd CTEF o eglurder a thryloywder. Mae uwch arweinwyr ac aelodau Bwrdd Cofrestrfa Tir EF wedi ymweld â phob un o'r 14 swyddfa, gan rannu blaenoriaethau, gwrandao ar bryderon a chydabod llwyddiannau lleol. Roedd y Prif Weithredwr dros dro wedi cynnal boreau coffi anffurfiol, rhithwir bob pythefnos hefyd, gan ddarparu fforwm agored i staff gysylltu'n uniongyrchol i rannu barn a thrafod unrhyw bwn.

Trwy gydol y flwyddyn, roedd sesiynau 'Dod at ein Gilydd' rheolaidd wedi dod â'r Tîm Gweithredol a chydweithwyr

ynghyd i rannu diweddariadau, ateb cwestiynau a dathlu llwyddiant.

Roedd y sesiynau hyn wedi meithrin cyfathrebu agored, cryfhau cydlyniant sefydliadol a rhoi cyfle i'n pobl ymgysylltu'n uniongyrchol â'r arweinwyr, trwy godi pryderon yn uniongyrchol, a chynnig modd rhoi sylw iddynt yn ystod yr alwad neu drwy gyfathrebu dilynol. Er enghraifft, cawsom nifer fawr o gwestiynau ar bolisi canslo ac ymholi, a chafodd hyn sylw trwy ddiweddariadau tryloyw a chyd-destun ychwanegol.

Roedd presenoldeb yn gryf yn gyson, gyda 2,200 o bobl yn ymuno'n fyw ar gyfartaledd (tua 33% o'r gweithlu), a llawer mwy yn gwyllo'r recordiad. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau uchel o ymgysylltu a'r gwerth a roddir ar dryloywder a chysylltiad o fewn Cofrestrfa Tir EF.

Gwella tryloywder a chyfranogiad

Rydym wedi parhau i gefnogi ein pwyllgorau cysgodol, gan gynnig modd i gydweithwyr gael dealltwriaeth ddyfnach o wneud penderfyniadau strategol. Mae aelodau'n adolygu agenda a phapurau cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ymlaen llaw ac yn cynnig her adeiladol a safbwyntiau newydd.

Dywedodd y cyfranogwyr fod y profiad wedi gwella eu dealltwriaeth o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau a'r angen i gydbwysu blaenoriaethau cystadleuol. Dangosodd adborth eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithio â chydweithwyr ar draws y sefydliad, gan feithrin mwy o waith tîm a mewnwelediad a chyd-ddealltwriaeth.



Cynhwysiant – ein rhwydweithiau

Mae ein wyth rhwydwaith amrywiaeth yn hanfodol i feithrin gweithle cynhwysol lle mae gwahaniaethau meddwl yn cael eu parchu a'u hannog. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y Rhwydwaith Pob Oedran wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth 'MOT canol oes' i gynig cefnogaeth ar wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, deall eich pensiwn a gwneud newidiadau iach ar gyfer bywyd hwy. Mae'r rhwydwaith niwroamrywiaeth, Spectrum, a'n Rhwydwaith Gweithwyr Anabl yn parhau i chwarae rôl allweddol o ran cael defnyddwyr i brofi technoleg newydd er mwyn sicrhau hygrychedd. Mae'r rhwydwaith LHDT+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol +) Pride, rhwydwaith REACH (hil, ethnigrwydd a threftadaeth ddiwylliannol) a'r Rhwydwaith Ffydd a Chred yn annog aelodau i gymryd rhan lawn a dilys ym mywyd Cofrestrfa Tir EF, tra bod y Rhwydwaith Menywod yn parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o iechyd menywod.

Mae'r rhwydwaith symudedd cymdeithasol Aspire yn codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y gall cydweithwyr eu hwynebu oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Mae'n darparu cymuned gefnogol ac yn hyrwyddo cyfleoedd hygrych ar gyfer datblygu a dilyniant. Mae hefyd yn helpu rheolwyr llinell i ddeall symudedd cymdeithasol yn well ac yn darparu sesiynau wedi eu targedu ar gyfer aelodau, megis ystyried mynediad at hyfforddiant a mentora, gan helpu cydweithwyr i gydnabod bod y cyfleoedd hyn ar eu cyfer nhw. Roedd y rhwydwaith wedi hwyluso grwpiau gwrandio gyda'n Prif Weithredwr dros dro, i rannu profiadau a helpu i lywio newid cadarnhaol.

Pen-blwydd Swyddfa Fylde yn 25 oed

Roedd ein Swyddfa Fylde wedi dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed gyda rhaglen o ddathliadau lleol a ddaeth â chydweithwyr ynghyd i gydnabod hanes, diwylliant a chyfraniad y swyddfa i Gofrestrfa Tir EF.

Gwobrau gwasanaeth hir

Bu cyfle i ddathlu bron 300 o wobrau gwasanaeth hir, o 25 mlynedd i 50 mlynedd. Rhyngddynt mae'n rhoi cyfanswm anhygoel o 8,490 mlynedd o wasanaeth, gyda naw cydweithiwr arbennig iawn yn dathlu hanner canrif.





Mae'r gwesty W London, sydd â blaen gwydr, yn dirnod yn Soho erbyn hyn, gan demtio gwesteion gyda chyfleusterau gan gynnwys sba, canolfan ffitrwydd ac ystafell sgrinio. Prynwyd y rhydd-ddaliad am £260 miliwn yn 2025. Llun: Shutterstock/IR Stone



Mae'r tîm cofrestru gwirfoddol yn Swyddfa Fylde wedi cofrestru nifer o eiddo ar ystadau Pool Farm a Shannon Road yn ddiweddar ar gyfer Cyngor Dinas Birmingham. Llun: Google Earth

Sut rydym wedi perfformio yn 2025 i 2026

Yn yr adran hon, amlinellwn sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein Cynllun Busnes 2025 i 2026. Dros y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar ein hymdrechion parhaus i sicrhau perchnogaeth eiddo, gwneud prynu tir yn hawdd ac yn ddiogel i bawb, a darparu mynediad at wybodaeth am eiddo yng Nghymru a Lloegr, fel y nodir yn ein Strategaeth 2025+.

Ein canlyniadau strategol

Ein blaenoriaethau yn 2025 i 2026 oedd:



Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwyb ac mae'n hawdd i bawb wneud busnes â ni



Mae hawliau eiddo wedi eu diogelu trwy gofrestru cywir a chyfoes, systemau digidol a seilwaith gwydn



Mae ein data hygyrch a'n harbenigedd yn cefnogi penderfyniadau cynllunio, adeiladu a defnydd tir



Mae gweithlu sy'n perfformio'n dda, arbenigol ac ymgysylltiedig gennym sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf

Rydym yn mesur perfformiad trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion a setiau data ar GOV.UK, gan gynnig modd inni ddeall yr effaith ehangach y mae'r sefydliad yn ei chael, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau. Mae adran dadansoddi perfformiad yr adroddiad hwn ar dudalennau 36-41 yn darparu dadansoddiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol a'r prif risgiau rydym wedi eu hwynebu.





Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwyb ac mae'n hawdd i bawb wneud busnes â ni

Mae'r canlyniad hwn yn rhoi ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. P'un a yw pobl yn prynu eu cartref cyntaf, yn rheoli busnes neu'n delio â materion eiddo cymhleth, ein nod yw bod yn broffesiynol, yn gefnogol ac yn glir ynghylch sut y gallwn helpu. Rydym yn gweithio i ddeall anghenion cwsmeriaid yn well fel ein bod ni, gyda'n gilydd, yn darparu gwasanaeth amserol, o safon uchel sy'n gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn diogelu buddion cyfreithiol ymgeiswyr o'r eiliad y byddwn yn derbyn eu cais i newid teitlau cofrestredig presennol. Nid yw'r newidiadau hyn yn rhai brys yn aml ond maent yn ofynnol yn gyfreithiol ac yn digwydd ar ôl i dreth dir y dreth stamp gael ei thalu ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd dros 4 miliwn o geisiadau ôl-gwblhau i newid perchnogaeth tir ac eiddo, gyda 50% wedi eu cwblhau a'u dychwelyd i'r cwsmer o fewn 8 diwrnod.

Gwnaethom gynnydd ystyrllon hefyd wrth leihau nifer y ceisiadau heb eu prosesu. Rydym yn monitro'r rhain ar draws pump prif fath o gais, gan ganolbwyntio ar oedran y 95% hynaf o fewn pob math sy'n aros i'w prosesu. Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi gwella'r amser a dreuliodd pob math heb ei brosesu, gan leihau o ychydig o dan 12 mis ar ddiwedd Mawrth 2025 i ychydig o dan 9 mis erbyn diwedd Mawrth 2026.

Er mwyn osgoi oedi a allai beryglu gwerthiant neu drafodiad eiddo, rydym yn cynnig gwasanaeth wedi ei gyflymu (llwybr carlam) rhad ac am ddim. Os yw oedi wrth gofrestru yn achosi problemau, boed yn gyfreithiol, ariannol neu bersonol, mae ein meini prawf ar gyfer cyflymu wedi eu bodloni. Derbyniwyd tua 424,000 o geisiadau llwybr carlam y flwyddyn ddiwethaf a phroseswyd 95.6% ohonynt yn gyson cyn belled ag y bo modd o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae hyn yn golygu ein bod naill ai wedi sicrhau bod yr eiddo wedi ei gofrestru'n llawn, neu ein bod wedi gofyn am wybodaeth oedd ei

hangen gan bartïon eraill gan gynnwys ar geisiadau cysylltiedig a dderbyniwyd yn flaenorol, cyn y gallem gofrestru'r cais wedi ei gyflymu yn llawn. Roedd ein lefelau uchel o berfformiad yn y maes hwn wedi helpu i warchod trafodion eiddo hanfodol a chynnal ein ffydd yn y farchnad.

Rydym wedi symleiddio teithiau cwsmeriaid o'r dechrau i'r diwedd, gwella profiad y cwsmer trwy gyfathrebu mwy empathig a gwella'r daith gwynion i leihau'r gwrthdaro yn y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â ni. Rydym wedi gwella tryloywder gwybodaeth am gynnydd ceisiadau ar GOV.UK a'n porthol fel bod cwsmeriaid yn derbyn diweddariadau clir a chyson ar yr amserlenni cwblhau tebygol, gan ein helpu i reoli disgwyliadau yn fwy effeithiol. Dechreuwyd datblygu model gwasanaeth hefyd i ateb ystod ehangach o anghenion, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cymorth wedi ei reoli, ei gyflymu a mwy arbenigol ar gyfer ceisiadau cymhleth.

Yn ogystal, dechreuwyd cyflwyno dilysu cwsmeriaid, sy'n gwirio bod ceisiadau yn gyflawn ac yn y fformat cywir ac yn cadarnhau manylion allweddol yn erbyn y wybodaeth sydd gennym ni eisoes cyn inni eu derbyn. Mae hyn yn helpu cwsmeriaid i gael pethau'n iawn y tro cyntaf, gan wella ansawdd ceisiadau a lleihau gwallau ac oedi y mae modd eu hosgoi.

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid wedi gwella gyda dinasyddion a chwsmeriaid proffesiynol yn cofnodi mwy o fodlonrwydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein sgorau hefyd yn cymharu'n dda â meincnodau annibynnol y sector cyhoeddus.

Ochr yn ochr â hyn, roeddem wedi parhau i adolygu ein strwythur ffioedd a thâl, gyda'r nod o'i symleiddio yn hytrach na chynyddu'r incwm cyffredinol. Y flwyddyn nesaf byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn llywio'r newidiadau terfynol – y disgwylir iddynt ddod i rym yn ddiweddarach yn 2027. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn gwneud pethau'n haws i'n cwsmeriaid ac ar yr un pryd yn cynnal cyfleoedd i ail-fuddsoddi yn ein gwasanaeth cyhoeddus a darparu gwasanaethau mwy effeithlon i bawb.



424,000

o geisiadau wedi eu cyflymu wedi cael eu derbyn y flwyddyn ddiwethaf

95.6%

o'r rhain wedi cael eu prosesu'n gyson o fewn 10 diwrnod gwaith



Mae hawliau eiddo wedi eu diogelu trwy gofrestri cywir a chyfoes, systemau digidol a seilwaith gwydn

Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau y gall pobl fod yn ffyddiog bod gwybodaeth am berchnogaeth eiddo yn gywir, yn ddiogel ac yn ddibynadwy, a bod ein systemau'n gallu gwrthsefyll newid, galw a risg heb beryglu cywirdeb y gofrestr.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio cynghorau sir, gadw cofrestr Pridiannau Tir Lleol sy'n cofnodi rhwymedigaethau sy'n effeithio ar eiddo o fewn eu hardal weinyddol. O dan Ddeddf Seilwaith 2015, mae cyfrifoldeb am y cofrestr hyn yn cael ei drosglwyddo i Gofrestrfa Tir EF yn raddol. Trwy ein rhaglen arobryn, Rhaglen Pridiannau Tir Lleol (PTLI), rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i'w mudo i un gofrestr ddigidol ganolog. Amcangyfrifir bod y rhaglen PTLI eisoes wedi cynhyrchu buddion economaidd sy'n werth mwy na £187 miliwn.

Erbyn hyn rydym wedi mudo cyfanswm o 147 o'r 331 o awdurdodau lleol, ac o'r rhain cyflawnwyd 36 yn ystod 2025-26. Mae hyn wedi creu cofrestr unedig gyda dros 9 miliwn o bridiannau, gan symleiddio mynediad at wybodaeth hanfodol i ddefnyddwyr, gwella tryloywder tir, a chefnogi penderfyniadau cynllunio a defnydd tir gwell ar draws y wlad. Rydym wedi cynnal mwy na 2.2 miliwn o chwiliadau, gan arbed £10.64 fesul chwiliad ar gyfartaledd i gwsmeriaid a gafodd eu canlyniadau ar unwaith, sef arbediad amser o 13 diwrnod fesul chwiliad ar gyfartaledd o'i gymharu â'r gwasanaethau a ddisodlwyd. Yn Nhachwedd, enillodd ein Rhaglen PTLI y wobwr Arloeswr Technoleg y Flwyddyn yng Ngwobrau Arloesi 2025.

Roedd diogelu cywirdeb a manylder y Gofrestr Teitl (Tir) yn parhau'n ganolog i'r ddarpariaeth. Cafodd cynnydd calonogol ei wneud o ran lleihau amllder ac effaith gwallau

ar gofnodion cofrestr newydd, gan gynnal cofrestr fwy dibynadwy a sicr i gwsmeriaid a'r farchnad eiddo ehangach. Rydym wedi cryfhau ein hymateb i risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg hefyd: yn ystod y flwyddyn, cafodd ceisiadau cofrestru twyllodrus amheus eu canslo yn erbyn eiddo gwerth tua £60 miliwn, ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid trawslywodraethol i rannu gwybodaeth a gwella canfod mathau anarferol o dwyll, gan helpu i ddarparu mwy o ddiogelwch ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Roedd ehangu awtomeiddio wedi parhau lle mae'n darparu'r budd mwyaf. Cynyddwyd awtomeiddio ar gyfer ein ceisiadau diweddar cofrestr mwyaf poblogaidd a mabwysiadwyd dull seiliedig ar risg at gyflymu darparu morgeisi preswyl, gan ein helpu i lansio'r gwasanaeth yn gynt. Er mwyn helpu i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy cyson, cyflwynwyd Cyfarwyddyd Ymarfer wedi ei alluogi gan ddeallusrwydd artifisial, gan helpu cydweithwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir yn gyflymach, lleihau atgyfeiriadau diangen a chryfhau ansawdd ceisiadau wedi eu diweddarau.

Mae buddsoddi mewn seilwaith gwydn wedi cynnal darparu ein gwasanaethau mewn modd dibynadwy trwy gydol y flwyddyn. Mae sicrwydd seiber wedi cael ei gryfhau ac rydym wedi parhau i foderneiddio systemau craidd, gan sicrhau bod ein seilwaith yn parhau'n gadarn, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y dyfodol.



£10.64

wedi ei arbed fesul chwiliad ar gyfartaledd ar gyfer cwsmeriaid a dderbyniodd eu canlyniadau ar unwaith



Mae ein data hygyrch a'n harbenigedd yn cefnogi penderfyniadau cynllunio, adeiladu a defnydd tir

Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella mynediad at ein data a'i gyfuno â'n harbenigedd fel y gall pobl sydd angen deall, defnyddio neu adeiladu ar dir wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chysylltu'n haws â'i gilydd a gyda ni. Yn unol ag uchelgeisiau tai a seilwaith y Llywodraeth, gosodwyd y sylfeini i ddefnyddio ein data i gefnogi twf economaidd gan gydweithio â chwsmeriaid i foderneiddio'r broses o brynu a gwerthu tai, ac adeiladu ar lwyddiant ein Rhaglen PTLI i gynnig profiad cyflymach a mwy effeithlon. Dechreuwyd ystyried hefyd sut y gallai ein gwasanaethau data presennol ac yn y dyfodol ddatglo gwybodaeth ddyfnach am y marchnadoedd tir ac eiddo, gan helpu cymunedau, cynllunwyr a datblygwyr i wneud penderfyniadau craff am ardaloedd lleol, cynllunio a thrafodion eiddo.

Darparwyd profiad cyflym ac effeithlon ar gyfer y gwasanaethau cyn-gwblhau allweddol hynny sy'n cynnig modd i eiddo newid dwylo yn ddi-oed. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gwybodaeth, sy'n hanfodol ar gyfer cychwyn trafodion eiddo, ac felly rhaid eu cyflwyno'n brydlon. Maent yn cynnwys gwarant y wladwriaeth, gan sicrhau diogelwch i brynwyr, rhoddwyr benthyg a'u cynrychiolwyr proffesiynol, a thrwy hynny hwyluso gweithrediad hwylus y farchnad eiddo.

Roedd y gwasanaethau hyn yn gweithredu gydag effeithlonrwydd eithriadol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, derbyniwyd dros 22 miliwn o geisiadau am wasanaethau gwybodaeth warantedig gan gynnwys copïau swyddogol, chwiliadau swyddogol a chwiliadau swyddogol o'r map mynegai. O'r ceisiadau hyn, roedd 90% wedi eu hawtomeiddio ac ar gael ar unwaith. Cwblhawyd y ceisiadau oedd yn weddill â llaw gan ein gweithwyr achos arbenigol, gyda 99.8% o'r holl geisiadau wedi eu cwblhau o fewn tri diwrnod gwaith, gan gynnwys cyfran a oedd angen barn ddynol ac arbenigedd gweithwyr achos. Roedd ceisiadau oedd yn cymryd yn hwy yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y cwsmer, megis chwiliadau sy'n effeithio ar ganolfannau siopa cyfan, lle roedd angen datgelu teitlau rhydd-ddaliol a phrydlesol ar gynllun. Yn yr achosion eithriadol hyn, cafodd cwsmeriaid wybodaeth gyson trwy gydol y broses.

Gwnaethpwyd cynnydd cryf o ran diffinio cyflwr cofrestr wedi ei galluogi'n geo-ofodol yn y dyfodol trwy gryfhau'r sylfeini sy'n gwella hygyrchedd a defnyddioldeb data tir ac eiddo. Gan ddefnyddio dealltwriaeth o'r byd go iawn, datblygwyd a phrofwyd prototeipiau geo-ofodol cynnar i ddangos sut y gallai cofrestr sy'n seiliedig ar fap helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth am dir ac eiddo, ei

dehongli a'i defnyddio'n gyflymach ac yn fwy hyderus. Mae'r gwaith hwn yn darparu bloc adeiladu hanfodol ar gyfer trawsnewid data gofodol ar raddfa fawr yn y dyfodol. Mae'n sefydlu sail glir ar gyfer y cam cyflawni nesaf ac yn gosod y sylfeini ar gyfer datgloi potensial geo-ofodol ehangach data tir ac eiddo, gan gefnogi cynllunio, defnydd tir a gwneud penderfyniadau gwell.

Ochr yn ochr â hyn, cytunwyd ar gynllun strategol Cofrestrfa Tir EF ar gyfer data dros y deng mlynedd nesaf. Bydd y cynllun hwn yn ein symud o fod yn geidwad cofnodion yn bennaf i fod yn alluogwr gweithredol marchnad eiddo sy'n gweithredu'n well. Mae'n amlinellu cyfeiriad teithio clir ar gyfer trin data fel ased sefydliadol gwerthfawr, gan wella ei ansawdd a'i hygyrchedd, ac yn cryfhau'r sgiliau, llywodraethu a thechnoleg y mae eu hangen i'w ddefnyddio'n effeithiol. Byddwn yn gwneud hyn trwy ymgorffori dull "data diofyn", gan sicrhau bod gofynion data yn cael eu hystyried o gamau cynharaf cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer awtomeiddio mwy diogel, dealltwriaeth sefydliadol well a gwneud penderfyniadau mwy cyson, ac ar yr un pryd cefnogi defnydd ac aildefnyddio cryfrol o ddata tir ac eiddo i sicrhau manteision i gwsmeriaid, cynllunwyr a llunwyr polisi.

Rydym yn parhau i gefnogi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r llywodraeth ehangach ar gyflenwi tai, tryloywder tir a diwygio trawsgludo digidol. Trwy ddarparu data, arbenigedd cyfreithiol a mewnbwn technegol, rydym yn cyfrannu at ddatblygu polisiau a chynllunio gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 a'r Bil Diwygio Cyfraith Cyfunddaliad a Lesddaliad drafft. Mae Cofrestrfa Tir EF yn cefnogi uchelgais y llywodraeth i adeiladu 1.5m o gartrefi a threfi newydd trwy ein gwasanaethau presennol a thrwy ddatblygu gwasanaethau arbenigol ar gyfer adeiladwyr tai – gan sicrhau bod safleoedd yn cael eu gweld yn gynnar a datrys problemau perchnogaeth a chyfreithiol ymlaen llaw – gan gynnig modd darparu tai newydd yn gyflymach. Rydym yn cefnogi gwelliannau i'r broses prynu a gwerthu tai ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Weinyddiaeth, Homes England a'r diwydiant i leihau gwrthdaro yn y system. Mae ymgysylltu â'r Weinyddiaeth a Homes England wedi helpu i sefydlu partneriaethau effeithiol, egluro ble gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, a chefnogi blaenoriaethau allweddol y llywodraeth.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn aelod gweithredol o Grŵp Llywio'r Farchnad Eiddo Digidol, gan weithio ochr yn ochr ag adrannau'r llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant i gefnogi trawsnewid hirdymor y farchnad tir ac eiddo. Rydym wedi cyfrannu data, dealltwriaeth dechnegol a phrofiad ymarferol o weithredu'r Gofrestr Tir i gefnogi blaenoriaethau cyffredin ynghylch gwella safonau data, tryloywder a llifoedd gwybodaeth ar draws y broses trafodion eiddo. Roedd y gwaith hwn wedi parhau i ganolbwyntio ar alluogi marchnad eiddo fwy diogel, effeithlon a chyfeillgar i ddefnyddwyr, gan gydnabod bod diwygio parhaus yn gofyn am weithredu cydynol ar draws y llywodraeth a'r diwydiant.



99.8%

o'r holl geisiadau am wasanaeth gwybodaeth warantedig heb eu hawtomeiddio wedi cael eu cwblhau gan ein gweithwyr achos arbenigol o fewn tri diwrnod gwaith



Mae gweithlu sy'n perfformio'n dda, arbenigol ac ymgysylltiedig gennym sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf

Mae pob un o'n pobl yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflawni ein canlyniadau a chefnogi ein hymrwymiaadau. Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar arfogi ein hased pwysicaf, sef ein pobl, gyda'r sgiliau, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a chynnal perfformiad da wrth iddynt barhau i esblygu.

Dros y 12 mis diwethaf, gwnaethpwyd cynnydd parhaus wrth gryfhau gallu, ymgysylltiad ac arweinyddiaeth ein gweithlu. Ymgysylltwyd â dros 1,100 o reolwyr yn ein rhaglen datblygu arweinwyr a rheolwyr i'w helpu i gefnogi timau'n well trwy newid ac ymgorffori diwylliant sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Rydym hefyd wedi ymgorffori Strategaeth Iechyd a Llesiant cyfannol, gan ddwyn ynghyd llesiant meddyliol, corfforol ac ariannol â gallu arweinyddiaeth a rheoli presenoldeb. Ategwyd hyn gyda hyfforddiant wedi ei dargedu i reolwyr, cyfarwyddyd cryfach, darpariaeth llesiant wedi ei hehangu ac wedi ailwampio'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr a chynigion iechyd galwedigaethol.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygu sgiliau cydweithwyr gweithredol newydd a phresennol. Roedd dros 1,400 o ddysgwyr cymwysedig wedi dilyn gweithgarwch dysgu a datblygu trwy'r Academi Cofrestru Tir, y buddsoddiad mwyaf mewn un flwyddyn ariannol erioed, gan ddangos buddsoddiad sefydliadol cryf yn ein pobl ac ymrwymiad i dyfu gallu. Roedd yr academi yn un o 57 o sefydliadau yn unig ar draws y DU ac lwerddon i dderbyn Gwobr Hyfforddiant y Dywysoges Frenhinol yn 2025, gan gydnabod effaith sefydliadol glir, darpariaeth o safon uchel a chyfatebiaeth â nodau strategol. Derbyniodd yr academi Ganmoliaeth Arbennig hefyd ar gyfer Ymagwedd Arloesol at Hyfforddi a Datblygu, a ddyfarnwyd y flwyddyn hon am y tro cyntaf i ddeg sefydliad yn unig, gan adlewyrchu creadigrwydd, ymrwymiad ac arbenigedd tîm ein hacademi a'r effaith ar allu'r gweithlu.

Yn ystod y flwyddyn, cyd-ddyluniwyd a lansiwyd Ffordd CTEF, gan sefydlu fframwaith ymddygiadol clir ar draws y sefydliad i gefnogi diwylliant cadarnhaol, cynhwysol sy'n perfformio'n dda. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn ymgysylltiad gweithwyr i 65% yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2025, a chefnogodd gynnydd o 7.3% yn nifer y ceisiau a gwblhawyd ac a adlewyrchwyd ar y gofrestr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Rheoli ein prif risgiau

Fel pob sefydliad, rydym yn wynebu risgiau wrth gyflawni ein Strategaeth, Cynllun Busnes a swyddogaethau statudol. Rydym yn rheoli'r risgiau hyn yn weithredol ac yn effeithiol er mwyn inni allu diogelu cywirdeb y cofrestr, gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus, gwella ein perfformiad a sicrhau canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r farchnad eiddo.

Y flwyddyn ddiwethaf, cafodd naw prif risg eu rheoli a oedd yn gysylltiedig â'n hamcanion strategol ac ymrwymiaadau ein cynllun busnes. Adolygwyd y risgiau hyn yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn gan berchnogion risg, Pwyllgorau Gweithredol, Bwrdd Cofrestrfa Tir EF a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae crynodeb o'r prif risgiau, cyfeiriad y daith yn ystod y flwyddyn, ein sefyllfa archwaeth risg ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â gweithgarwch lliniaru allweddol i'w weld yn yr Adroddiad Perfformiad o dudalen 42 ymlaen.

Cofrestrfa
Tir EF



Ffordd CTEF

Cofrestrfa
Tir EF



Yr Academi
Cofrestru Tir



Mae Coed y Cwm yn Llanbryn-mair, Powys, yn hafan i bobl leol ac ymwelwyr. Roedd Swyddfa Plymouth yn prosesu cais trosglwyddo am werth ar gyfer y llecyn prydferth hwn yn haf 2026. Llun: Alamy/Philip Smith

Sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein Strategaeth a'n Cynllun Busnes

Cafodd perfformiad ein Cynllun Busnes ei fesur yn 2025 i 2026 trwy ddefnyddio'r dangosyddion sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a nodir isod. Cefnogwyd y rhain yn fewnol gan ecosystem lawn o ddangosyddion perfformiad yr adroddwn arnynt trwy strwythur llywodraethu dwy haen effeithiol, i'n Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EF. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EF ymgynghorol yn galluogi aelodau anweithredol o'r bwrdd i gynnig eu profiad a'u harbenigedd allanol i gynghori a herio'r cyfarwyddwyr gweithredol. Mae ein pwyllgorau'n darparu dulliau llywodraethu mewnol ac yn gyfrifol am reoli Cofrestrfa Tir EF o ddydd i ddydd a gweithredu'r Cynllun Busnes i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwyb i bawb.





Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwych ac mae'n hawdd i bawb wneud busnes â ni

Rhagorwyd ar dri o'n pedwar dangosydd perfformiad a chyflawnwyd un

Oedran ceisiadau ôl-gwblhau heb eu prosesu


Bob blwyddyn, derbyniwn dros 4 miliwn o geisiadau ôl-gwblhau i newid perchnogaeth tir ac eiddo. Rydym yn monitro ceisiadau heb eu prosesu ar draws pump prif fath o gais, gan ganolbwyntio ar oedran y 95% hynaf o fewn pob math sy'n aros i gael eu prosesu. Dros y flwyddyn, rydym wedi parhau i wneud cynnydd ystyrlon i leihau'r amseroedd prosesu hyn, er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi problemau byd go iawn i gwsmeriaid. Erbyn hyn mae pob un o'r pump prif fath o gais yn llai na naw mis oed, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o geisiadau yn cael eu prosesu tua 11 mis yn gyflymach na phan oeddent ar eu hanterth. Mae hyn yn nodi cam pwysig ymlaen ac yn adlewyrchu effaith barhaus buddsoddi yn ein pobl, a moderneiddio prosesau a systemau. Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n helaeth yn natblygiad cydweithwyr newydd a phresennol, gan gefnogi cynnydd o 7.3% yn nifer y ceisiadau a gwblhawyd y flwyddyn hon o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Diben: Mae hwn yn ddangosydd oedran 95% o'r mathau hynaf o geisiadau sy'n aros i'w prosesu (mae eiddo wedi ei ddiogelu'n gyfreithiol pan dderbynnir cais)

Targed: 9 mis

Wedi ei ragori: 8.9 mis

Gwelliant cadarnhaol o 11.9 mis yn 2024-25



Ceisiadau ôl-gwblhau wedi eu cyflymu


Rydym wedi parhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol y mae eu hangen i sicrhau bod y farchnad eiddo yn symud. Er mwyn osgoi oedi a allai roi gwerthiant eiddo neu drafodiad mewn perygl, cynigiwn wasanaeth wedi ei gyflymu (llwybr carlam) yn rhad ac am ddim. Os yw oedi wrth gofrestru yn achosi problemau, boed yn broblemau cyfreithiol, ariannol neu bersonol, mae ein meini prawf ar gyfer cyflymu cais yn cael eu bodloni. Derbyniwyd tua 424,000 o geisiadau wedi eu cyflymu y flwyddyn ddiwethaf a phroseswyd 95.6% ohonynt yn gyson cyn belled ag y bo modd o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae hyn yn golygu ein bod naill ai wedi sicrhau bod yr eiddo wedi ei gofrestru'n llawn, neu wedi gofyn am wybodaeth y mae ei hangen gan bartïon eraill gan gynnwys ar geisiadau cysylltiedig a dderbyniwyd yn flaenorol, cyn y gallem gofrestru'r cais wedi ei gyflymu yn llawn. Roedd ein lefelau uchel o berfformiad yn y maes hwn wedi helpu i ddiogelu trafodion eiddo hanfodol a chefnogi hyder yn y farchnad.

Diben: Mae hyn yn mesur pa mor effeithiol rydym yn prosesu ceisiadau wedi eu cyflymu (llwybr carlam) o fewn 10 diwrnod gwaith dros gyfnod treigl o 12 mis

Targed: 95%

Wedi ei ragori: 95.6%

Perfformiad wedi ei gynnal o 95.6% a gyflawnwyd yn 2024-25



Darparu gwasanaethau cyhoeddus gwych ac mae'n hawdd i bawb wneud busnes â ni (parhad)

Bodlonrwydd cwsmeriaid

Roedd bodlonrwydd dinasyddion wedi cyrraedd y targed ac roedd 1% yn uwch na chyfartaledd Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid y DU (UKCSI) y Sector Gwasanaethau Cyhoeddus (Cenedlaethol). Mae'r meincnod annibynnol hwn yn rhoi sicrwydd bod ein profiad gwasanaeth yn perfformio'n gryf yn erbyn mesurau cydnabyddedig UKCSI, a bod Cofrestrfa Tir EF yn parhau i fod yn sefydliad y mae'n hawdd gwneud busnes ag ef ac ychydig yn well na sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus.


Diben: Mae hyn yn mesur y gwahaniaeth canrannol o gyfartaledd Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid y DU ar gyfer y Sector Cyhoeddus (Cenedlaethol), gan roi golwg wrthrychol ac annibynnol o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda Chofrestrfa Tir EF.

Targed: O fewn 2% o gyfartaledd cenedlaethol y sector cyhoeddus

Wedi ei gyflawni: 75.2, 1% yn uwch na chyfartaledd Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid y DU ar gyfer y Sector Gwasanaethau Cyhoeddus (Cenedlaethol)

Gwelliant cadarnhaol o 72.6 yn 2024-25

Data o fis Ionawr bob blwyddyn. Data'r flwyddyn flaenorol ddim ar gael.



Ein gwasanaethau


Rydym yn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid proffesiynol trwy gynnal arolwg chwarterol o'r rhai sydd wedi defnyddio ein gwasanaethau yn ystod y tri mis diwethaf ac yn rhoi sgôr o 8-10 i'r gwasanaeth a gawsant. Mae perfformiad wedi gwella i'r lefel uchaf erioed yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn gwybod bod cyflymder ein gwasanaeth yn cael effaith ar y gwasanaeth cyffredinol, a dyna pam rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella oedran y ceisiadau hynaf sydd heb eu prosesu. Yn y flwyddyn nesaf, fel y nodir yn ein Cynllun Busnes 2026+, byddwn yn gweithio gyda chwsmeriaid i lunio cynnig llwybr carlam a gwasanaeth a reolir sy'n ateb anghenion cwsmeriaid yn well ac yn helpu i lunio model sy'n cael ei arwain mwy gan wasanaeth.

Diben: Mae'r dangosydd adborth uniongyrchol hwn yn rhoi persbectif cwsmeriaid proffesiynol sy'n rhoi sgôr o 8-10 allan o 10 i'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn

Targed: 60%

Wedi ei ragori: 68%

Gwelliant cadarnhaol o 59% a gyflawnwyd yn 2024-25





Mae hawliau eiddo wedi eu diogelu trwy gofrestri cywir a chyfoes, systemau digidol a seilwaith gwydn

Rhagorwyd ar ddau o'n dau ddangosydd perfformiad

Ansawdd y Gofrestr Teitl

Mae lleihau amllder ac effaith gwallau ar y Gofrestr Teitl yn hanfodol i gynnal cofnodion eiddo cywir a dibynadwy. Gall gwallau arwain at broblemau cyfreithiol, ariannol a phersonol mawr i berchnogion eiddo a budd-ddeiliaid eraill. Mae lleihau'r gwallau hyn ar gyfer cofnodion newydd ar y gofrestr yn sicrhau bod trafodion eiddo yn cael eu prosesu'n ddidrafferth ac yn effeithlon, gan leihau'r risg o oedi ac anghydfodau. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd trafodion eiddo a hefyd yn darparu profiad llai trafferthus i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses. Mae hefyd yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid ac yn helpu i gynnal ffydd yn ein gwasanaethau, gan roi hyder i gwsmeriaid fod y wybodaeth newydd a gofnodwyd yn gywir. Yn y pen draw, mae lleihau gwallau yn cyfrannu at sefydlogrwydd a thryloywder cyffredinol y farchnad eiddo, gan fod o fudd i berchnogion eiddo unigol a'r economi ehangach. Gwnaethom gynnydd calonogol o ran lleihau amllder ac effaith gwallau newydd y flwyddyn ddiwethaf fel rhan o'n cynllun gwella tair blynedd.


Diben: Mae hyn yn mesur a yw'r gwallau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid yn cael eu cadw o fewn terfynau derbyniol ac a oes gwelliant canrannol yn ansawdd cofnodion newydd

Targed: 5%

Wedi ei ragori: 11.7%

Gwelliant cadarnhaol o 2% yn 2024-25

Data'r flwyddyn flaenorol ddim ar gael



Nifer y ceisiadau ôl-gwblhau heb eu prosesu


Yn 2025-26, ochr yn ochr â lleihau oedran ceisiadau heb eu prosesu, sef yr hyn sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid, roeddem hefyd wedi lleihau'r nifer cyffredinol sy'n aros i'w prosesu gan 8% i 433,000. Mae'r ceisiadau hyn yn cynnwys newidiadau i deitlau presennol ac yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau sydd fel arfer yn digwydd ar ôl i eiddo gael ei werthu, ar ôl i Dreth Dir y Dreth Stamp gael ei thalu, ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Yn bwysig ddigon, mae buddion cyfreithiol yr ymgeisydd yn cael eu diogelu o'r eiliad y derbyniwn y cais. Yn y dyfodol, mae ein Cynllun Busnes 2026+ yn nodi camau gweithredu pellach i leihau ceisiadau heb eu prosesu a pherfformiad dychwelyd i gyflwr mwy cyson, wedi ei ategu gan recriwtio wedi ei dargedu, hyfforddiant gwell i weithwyr achos ac arweinwyr, a newid sylweddol mewn awtomeiddio.

Diben: Mae hyn yn mesur y gwelliant y mae ei angen i gadw nifer y ceisiadau sy'n aros i'w prosesu o fewn gwerth 30 diwrnod o nifer y ceisiadau arferol

Targed: Llai na 636,000

Wedi ei ragori: 433,000

Gwelliant cadarnhaol o 636k yn 2024-25





Mae ein data hygyrch a'n harbenigedd yn cefnogi penderfyniadau cynllunio, adeiladu a defnydd tir

Rhagorwyd ar ein un dangosydd perfformiad

Gwybodaeth eiddo warantedig


Rydym wedi darparu profiad cyflym ac effeithlon ar gyfer y gwasanaethau cyn-gwblhau hanfodol hynny sy'n golygu y gall eiddo newid dwylo yn ddi-oed. Y flwyddyn ddiwethaf, derbyniwyd dros 22 miliwn o geisiadau gwasanaethau gwybodaeth warantedig – copïau swyddogol, chwiliadau swyddogol a chwiliadau o'r map mynegai – gyda mwy na 90% wedi eu hawtomeiddio ac ar gael yn syth.

Diben: Mae hyn yn mesur pa mor effeithiol rydym yn cwblhau ceisiadau gwasanaeth gwybodaeth warantedig o fewn 3 diwrnod gwaith

Targed: 99%

Wedi ei ragori: 99.8%

Perfformiad wedi ei gynnal o 99.8% a gyflawnwyd yn 2024-25





Mae gweithlu sy'n perfformio'n dda, arbenigol ac ymgysylltiedig gennym sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf

Rhagorwyd ar ddau o'n dau ddangosydd perfformiad

Mynegai Ymgysylltiad Gweithwyr


Mae'r Mynegai Ymgysylltiad Gweithwyr yn cael ei gasglu trwy'r arolwg blynyddol Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Crynodeb yw hwn o bum cwestiwn sy'n ymwneud ag ymgysylltu sy'n cynnwys: pa mor falch y mae staff yn teimlo yn gweithio i Gofrestrfa Tir EF, a fyddent yn ei argymhell fel lle braf i weithio, a ydynt yn teimlo cysylltiad personol cryf i Gofrestrfa Tir EF, ac a ydynt yn teimlo ei bod yn eu hysbrydoli a'u cymell i wneud eu gorau glas yn eu swydd a chyflawni amcanion y sefydliad. Yn 2025, dychwelodd ymgysylltu i lefelau a welwyd ddiwethaf yn 2022-23 a gwellodd i'r chwarter uchaf o adrannau tebyg o'r llywodraeth, gan adlewyrchu effaith ein ffocws ar arweinyddiaeth, diwylliant a phrofiad cydweithwyr.

Diben: Mae hyn yn dangos sut mae ein Mynegai Ymgysylltiad Gweithwyr yn cymharu ag adrannau eraill tebyg o'r llywodraeth

Targed: Canolrif

Wedi ei ragori: Chwarter uchaf (65%)

Gwelliant cadarnhaol i'r chwarter uchaf o adrannau tebyg o'r llywodraeth



Cynhyrchiant gweithwyr

Rydym yn asesu cynhyrchiant trwy werthuso nifer y ceisiadau sy'n gofyn am arbenigedd ein gweithwyr achos i'w cwblhau, yn hytrach na'r rhai sydd wedi eu hawtomeiddio ac sydd ar gael ar unwaith. Yn 2025-26, diweddarwyd y dangosydd perfformiad allweddol hwn i adlewyrchu'r cyfartaledd 12 mis treigl ar draws y flwyddyn, yn hytrach na chi-plun diwedd blwyddyn, er mwyn rhoi darlun mwy cynrychioliadol o gynhyrchiant. Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygu sgiliau cydweithwyr newydd a phresennol, sydd wedi cefnogi gwelliant o 4% mewn cynhyrchiant. Mae hyn wedi galluogi cynnydd o 7.3% yn nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan ein cydweithwyr dros y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar yr un pryd, ehangwyd y defnydd o awtomeiddio a gwnaethpwyd gwelliannau pellach i'n systemau digidol.


Diben: Mae'r dangosydd hwn yn dangos y gwelliant canrannol yn nifer cyfartalog y ceisiadau y mae pob gweithiwr achos cyfwerth ag amser llawn yn eu cwblhau (cyfartaledd 12 mis)

Targed: 3% (11.3)

Wedi ei ragori: 4% (11.4)

Gwelliant cadarnhaol o 4% o 11.0 yn 2024-25

Data'r flwyddyn flaenorol ddim ar gael



Rheoli ein prif risgiau yn ystod 2025-26

Gwellodd y proffil risg cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Erbyn diwedd y flwyddyn, aseswyd saith o'r naw prif risg fel rhai 'o fewn yr archwaeth'. Roedd dwy risg yn parhau y tu allan i'r archwaeth: seiber a data. Roedd y rhain yn adlewyrchu'r meysydd lle roedd angen gweithredu ymhellach i gryfhau gwydnwch sefydliadol, llywodraethu data, gallu a sicrwydd.

Prif risg

1. Disgwyliadau gwasanaeth cwsmeriaid

Amcan: Darparu gwasanaeth amserol, o safon sy'n ateb anghenion cwsmeriaid.
Risg: Gallai oedi neu ansawdd gwasanaeth gwael gynyddu anfodlonrwydd cwsmeriaid, craffu a phwysau ar gywirdeb y gofrestr.

Mesurau lliniaru allweddol yn ystod 2025-26

- Cynlluniau'r gweithlu, gallu a hyfforddiant wedi eu cryfhau.
- Gweithgarwch parhaus Cwsmer yn Gyntaf i symleiddio rhyngweithiadau cwsmeriaid.
- Wedi defnyddio data perfformiad a chwsmeriaid i gefnogi blaenoriaethu a rheoli'r gwaith sydd angen ei wneud.

O fewn yr archwaeth

Risg yn sefydlog



2. Cywirdeb y gofrestr

Amcan: Cadw ein cofrestr yn gywir, yn ddibynadwy ac yn addas at y diben.
Risg: Gallai gwendidau yn ansawdd neu gywirdeb y gofrestr effeithio ar ffydd y cyhoedd, costau indemnïad a hyder yn nata Cofrestrfa Tir EF.

- Wedi adolygu a diwygio polisi gweithredol a chyfarwyddyd ymarfer.
- Wedi defnyddio rheoli a sicrhau ansawdd i fonitro ansawdd y gofrestr.
- Wedi parhau i adeiladu gallu gweithredol, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau o safon well a phrosesu ceisiadau cwsmeriaid yn fwy cyson.
- Wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng cywirdeb y gofrestr, ansawdd data, twyll a sicrwydd trawsnewid digidol.

O fewn yr archwaeth

Risg wedi lleihau



3. Ein pobl

Amcan: Cynnal gweithlu sy'n perfformio'n dda, wedi'i ymgysylltu, medrus ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
Risg: Gallai ymgysylltiad isel, bylchau mewn gallu neu reoli perfformiad aneffeithiol effeithio ar gyflawni a chanlyniadau cwsmeriaid.

- Wedi cyfathrebu'n well â'n pobl ynghylch cyfeiriad a blaenoriaethau sefydliadol.
- Wedi cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer sgysiau rheoli perfformiad a datblygu.
- Ffocws parhaus ar gynllunio pobl, ymgysylltu, llesiant a gweithgarwch ymgynghori.
- Wedi adeiladu gallu arweinyddiaeth a rheoli llinell i gefnogi perfformiad, ymgysylltiad a chyflenwi gwell.

O fewn yr archwaeth

Risg wedi lleihau



4. Iechyd technegol

Amcan: Cadw technoleg, gwasanaethau digidol a seilwaith yn ddiogel, gwydn a chyfoes.
Risg: Gallai iechyd technoleg gwael effeithio ar argaeledd gwasanaethau, gwydnwch, diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol.

- Wedi cwblhau asesiadau o'r holl systemau hanfodol.
- Wedi ymgorffori asesiadau iechyd technegol yn ein dulliau gweithio.
- Wedi lansio dangosfwrdd iechyd technegol a datblygu gweithgarwch cylch bywyd a datgomisiynu.

O fewn yr archwaeth

Risg wedi lleihau



5. Dylunio busnes a chyflawni newid

Amcan: Cyflawni'r newid y mae ei angen i wireddu ein blaenoriaethau strategol.

Risg: Gallai gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu neu gyflawni aneffeithiol effeithio ar gyflymder, ansawdd a manteision newid.

- Wedi defnyddio Dylunio Busnes i gefnogi dewisiadau cynllunio a buddsoddi.
- Wedi cryfhau blaenoriaethu a sicrwydd trwy Awdurdod Dylunio a Dylunio i Gyflawni.
- Wedi gwella'r cyfatebiaeth rhwng cynllunio busnes, cynlluniau cyflawni a chanlyniadau strategol.
- Wedi cryfhau gweithgarwch gwireddu buddion er mwyn gwella gwelededd yr effeithiau disgwylidig ac olrhain a yw newid yn sicrhau'r buddion a fwriadwyd.

O fewn yr archwaeth

Risg yn sefydlog



6. Seiber

Amcan: Parhau i fod yn wydn yn erbyn bygythiadau seiber sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Risg: Gallai ymosodiad seiber sylweddol llwyddiannus amharu ar wasanaethau, data a swyddogaethau statudol.

- Wedi ymateb i dirwedd bygythiad seiber gynyddol a mwy cymhleth, gan gynnwys twf parhaus mewn ymosodiadau soffistigedig a risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwyr.
- Wedi gwella rheolaethau diogelwch allweddol ar draws systemau, mynediad, dyfeisiau a rheoli bregusrwydd.
- Wedi datblygu diwylliant diogelwch, risg fewnol a gweithgarwch diogelwch amddiffynnol.
- Wedi profi a chryfhau trefniadau ymateb ac adfer seiber trwy ymarferion.

Y tu allan i'r archwaeth

Risg wedi cynyddu



7. Gofynion cwsmeriaid

Amcan: Deall ac ymateb i anghenion newidiol cwsmeriaid a'r farchnad.

Risg: Gallai dealltwriaeth wael o anghenion cwsmeriaid arwain at wasanaethau nad ydynt yn bodloni disgwyliadau neu'n cefnogi marchnad eiddo'r dyfodol.

- Wedi casglu gwybodaeth trwy ymchwil, fforymau, arolygon ac adborth.
- Wedi rhannu barn cwsmeriaid i gefnogi gwneud penderfyniadau a dylunio gwasanaethau.
- Wedi gwella adrodd rheolaidd (chwarterol) ar themâu allweddol.
- Wedi parhau â gweithgarwch cysylltu ac ymgysylltu â chwsmeriaid.
- Wedi datblygu gweithgarwch Cwsmer yn Gyntaf ac Adolygiad Gofal Cwsmeriaid i sicrhau bod anghenion ac adborth cwsmeriaid yn llunio gwelliannau i wasanaethau.

O fewn yr archwaeth

Risg wedi lleihau



8. Rheoli budd-ddeiliaid, ansicrwydd geo-wleidyddol ac ariannol

Amcan: Cynnal perthnasoedd cryf â budd-ddeiliaid ac ymateb i newid allanol.

Risg: Gallai cefnogaeth wan budd-ddeiliaid neu ddealltwriaeth wael o'r amgylchedd allanol effeithio ar gyllid, hyder a chyflawni.

- Wedi gweithio'n agos gyda'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus a budd-ddeiliaid y farchnad eiddo.
- Wedi rhannu gwybodaeth a mewnwelediad o'r farchnad i gefnogi penderfyniadau strategol.
- Wedi cryfhau gweithgarwch cynllunio a blaenoriaethu mewn ymateb i bwysau ariannol a chyflawni.
- Wedi datblygu cynllunio senario geo-wleidyddol er mwyn deall yn well effeithiau allanol posibl ar amgylchedd gweithredu a chynlluniau cyflawni Cofrestrfa Tir EF.

O fewn yr archwaeth

Risg yn sefydlog



9. Data

Amcan: Trin data fel ased strategol a'i ddefnyddio'n effeithiol.

Risg: Gallai methu ag ymgorffori diwylliant sy'n seiliedig ar ddata gyfyngu ar wneud penderfyniadau, awtomeiddio, deallusrwydd artifisial a gwerth cyhoeddus ehangach.

- Wedi datblygu gallu data, recriwtio a chefnogi partneriaid.
- Wedi datblygu'r Fframwaith Llywodraethu Data.
- Wedi cytuno ar strategaeth sefydliadol i ddatgloi gwerth ein data
- Wedi lansio Strategaeth Ddata newydd ynghyd â gweithgarwch i wella llythrennedd data a defnydd ehangach o ddata.

Y tu allan i'r archwaeth

Risg yn sefydlog



Amgylcheddol Cymdeithasol Llywodraethu

Mae'r Panel Amgylcheddol Cymdeithasol Llywodraethu newydd ei ffurfio wrth wraidd cydlynu a chysylltu gweithgarwch y Panel ar draws Cofrestrfa Tir EF, gan ddarparu cyfrwng i gydweithwyr ddod â syniadau, codi materion a rhannu arferion da. Gydag aelodaeth ymgysylltiedig ac agenda eang sy'n cwmpasu themâu amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, mae'r Panel wedi galluogi cydweithio ar draws meysydd busnes ac wedi helpu i droi syniadau newydd yn ganlyniadau ymarferol – o ymgyrchoedd cynaliadwydd i werth cymdeithasol a gyflawnir trwy gcontractau.



Mae'r cydgysylltu hwn yn cefnogi corff cynyddol o weithgarwch yn lleol ar draws swyddfeydd sy'n dod yn fyw trwy raglen o sioeau teithiol swyddfeydd lleol. Mae'r rhain wedi arddangos ehangder yr hyn y mae cydweithwyr eisoes yn ei wneud ac wedi atgyfnerthu ymwybyddiaeth o sut mae gweithredoedd bob dydd nid yn unig yn cyfrannu at effaith amgylcheddol ehangach ond hefyd yn arwain at arbedion cost sylweddol. Mae swyddfeydd wedi croesawu'r cyfle i ddangos eu cymeriad unigol, gyda chyfranogiad cryf gan arweinwyr safle a grwpiau lleol yn ategu diwylliant sefydliadol cyffredin.

Ar draws lleoliadau, mae cydweithwyr yn ysgogi newid ystyrion trwy fentrau cymunedol ac yn y gweithle. Mae gweithgareddau amgylcheddol megis casglu sbwriel a glanhau traethau yn mynd law yn llaw â rhwydweithiau codi arian elusennol, gwirfoddoli a llesiant wedi eu teilwra yn ôl anghenion lleol. Mae'r ymdrechion hyn ar lawr gwlad yn cryfhau cynhwysiant, yn cefnogi cymunedau lleol ac yn hybu ymgysylltiad, gan ddangos sut y gall camau gweithredu ar raddfa fach, sy'n cael eu hysgogi'n lleol, gael effaith sylweddol ar y cyd.



Roedd Ynys Burgh ar arfordir deheuol Dyfnaint yn un o hoff leoedd yr awdur llên drosedd Agatha Christie, a'i defnyddiodd fel lleoliad ar gyfer dwy nofel. Mae'r ynys lanw yn ardal De Hams, ac ymunodd y Cyngor â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2025. Llun: Geograph/Derek Voller

Jeremiah's Journey

Mae Cofrestrfa Tir EF wedi dod â rhwymedigaethau gwerth cymdeithasol caffael yn fyw mewn ffordd arbennig o ystyrlon trwy ei gwaith gyda'r elusen o Plymouth, Jeremiah's Journey. Roedd yr elusen, sydd wedi helpu tua 450 o blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n galaru yn ardal Plymouth, wedi elwa'n uniongyrchol o ddull cydweithredol gyda'n cydweithwyr a chyflenwyr Technoleg a Thrawsnewid, TPXimpact, gan ddarparu arbenigedd technegol pwrpasol.

Roedd Jeremiah's Journey yn delio ag amryw o heriau gweithredol a oedd yn cael effaith ariannol ac yn creu anawsterau i staff a'r rhai yr oedd yr elusen yn eu cefnogi. Trwy welliannau ymarferol i'r gwasanaethau gyda chefnogaeth TPXimpact, a gwneud defnydd da

o ddiwrnodau gwirfoddoli CTEF i ddarparu cymorth amlddisgyblaethol, roedd modd cefnogi'r elusen mewn ffordd uniongyrchol ac arloesol. Yn hytrach na dim ond rhoi amser mewn ffordd ddiffocws, roedd y timau wedi gweithio'n uniongyrchol gyda'r elusen ac yn gallu dylunio ac adeiladu atebion technegol oedd yn datrys eu problemau penodol.

I gydweithwyr Cofrestrfa Tir EF, roedd y profiad wedi cynnig llawer mwy na gwirfoddoli traddodiadol. Roedd wedi creu cyfle i gymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destun hollol wahanol ac ar yr un pryd meithrin perthnasoedd newydd gyda phartneriaid a thimau na fyddent fel arfer yn gweithio ochr yn ochr â nhw, a chael effaith wirioneddol, barhaol ar gyfer Jeremiah's Journey.



Cynaliadwyedd

A photograph of a dense forest. In the foreground, a large tree trunk is heavily covered in bright green moss. To its right, several fallen logs and branches are also covered in moss. The background is filled with more trees and foliage, with sunlight filtering through the canopy. The overall scene is vibrant and green.

Mae'r llecyn llawn awyrgylch Puzzlewood ger Coleford yng Nghoedwig y Ddena yn fforest law dymherus brin ac yn lleoliad ffilmio poblogaidd. Ymunodd Cyngor Dosbarth Coedwig y Ddena â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ionawr 2026. Llun: Shutterstock/ Olga Kylymnyk

Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (AELI) sy'n berchen ar y mwyafrif o'n hadeiladau; mae Cofrestrfa Tir EF yn rheoli'r gweithgareddau busnes a gweithredol. Mae AELI wedi darparu cyllid ar gyfer nifer o'r prosiectau newid ar ddiwedd cylch oes a Sero Net y flwyddyn hon.

Rydym wedi parhau â'n hachrediad i safon ISO14001 ar gyfer Systemau Rheoli Amgylcheddol gyda'r ardstiad parhaus wedi ei gadarnhau yn 2025. Mae'r safon, sy'n cael ei harchwilio'n allanol, yn seiliedig ar gydymffurfio â'n System Rheoli Amgylcheddol ac yn dangos gwelliant parhaus. Cynhelir archwiliadau ail-ardystio yn 2026.

Mae ein grŵp gwirfoddol o hyrwyddwyr cynaliadwyedd wedi parhau i ystyried sut i godi ymwybyddiaeth trwy ymgyrchoedd lleol a hefyd cefnogi'r darparwr Rheoli Cyfleusterau (RhC) i gyflawni llawer o fentrau cenedlaethol y rhoddir sylwi i rai ohonynt isod.

Straeon newyddion da cynaliadwyedd

Rydym yn parhau i weithio gydag AELI i nodi cyfleoedd i wneud yr eiddo a feddiannwn yn fwy cynaliadwy. Hyd yma, mae AELI wedi buddsoddi dros £2 filiwn gan arbed tua 84 tonnelli o garbon. Y flwyddyn hon, mae wedi ariannu prosiect i osod paneli ffotofoltäig (PV) yn swyddfa Abertawe. Disgwylir i hyn gynhyrchu 150,000KWh o drydan y flwyddyn, gan arbed 30 tonnelli o garbon. Yn 2026 caiff y cynllun ei ymestyn i gynnwys swyddfa Plymouth.

Mae Cynllun Lleihau Carbon gan ein darparwr RhC ar gyfer y contract ac mae wedi llunio ei bapur adolygu gwastraff i gynorthwyo gydag Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth ar gyfer rheoli a lleihau gwastraff.

Rydym wedi cydweithio â'n darparwr RhC a hyrwyddwyr cynaliadwyedd lleol hefyd ar y mentrau canlynol yn ystod y flwyddyn.



Diwrnod y Llyfr

Rydym wedi cydweithio i dderbyn rhoddion llyfrau i gefnogi "Blwyddyn Genedlaethol Darllen". Cafodd dros 350 o lyfrau eu rhoi i ysgolion lleol ym Mhenbedw, Caerlŷr a Plymouth. Roedd yr ysgolion wedi ein diolch am ein haelioni a'n hawydd i ysgogi cariad at ddarllen ym mywyd plentyn.

Gweithdy Gwastraff Croydon

Roedd First Mile, rheolwyr gwasanaethau gwastraff ein darparwr RhC, wedi rhedeg stondin ailgylchu gwastraff dros dro ar y cyd â staff Cynaliadwyedd y contractwyr a'r Rheolwr Rhagoriaeth Gwasanaeth i wella'r problemau gwastraff halogedig parhaus. Cafwyd llawer o sgysiau diddorol ynghylch y broses o wastraff halogedig, a bydd darn 'gwersi a ddysgwyd' yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau pellach dros y flwyddyn nesaf.

Safle Gwastraff ac Ailgylchu Shred Station

Cafodd ymweliad ei drefnu i safle gwastraff ac ailgylchu yn Essex yn Ebrill 2025. Roedd yn gyfle gwych i weld y gwaith yn digwydd a dysgu am daith gynaliadwyedd ein papur gwastraff a sut mae'r broses o rwygo a gwaredu'n ddiogel yn cael ei rheoli a'i chynnal.

Mai Di-dor

Er mwyn cefnogi ein mannau gwyrdd rydym yn gadael darnau o dir heb eu torri ym Mai i annog bioamrywiaeth ar y safle. Caiff hyn ei ailadrodd ym Mai 2026 gyda'r posibilrwydd o adael mannau am gyfnod hwy i gael yr effaith orau posibl, ochr yn ochr â mwy o dryloywder o ran gallu i gyfranogi.

Anrhegion Nadolig

Unwaith eto yn Rhagfyr roedd y sefydliad wedi cefnogi Cenhadaeth Nadolig Cash 4 Kids. Roedd OCS wedi trefnu blychau rhoddion ar gyfer anrhegion i blant difreintiedig ar draws naw safle. Roedd y blychau dan eu sang gyda rhoddion a gafodd eu cludo i warysau lleol mewn pryd i'w dosbarthu cyn y Nadolig.

Cynaliadwyedd

	Wedi ei gyflawni	Targed	Ar darged?
Carbon	Lleihad o 66%	Lleihad o 55%	Ar darged
Gwastraff yn codi	Lleihad o 46% yn y gwastraff a gynhyrchir	Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%	Ar darged
	99.3% wedi ei ailgylchu 0.7% i safle tirlenwi	Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff ac anfon llai na 10% o'r gwastraff i safle tirlenwi*	
Defnydd o ddŵr	Lleihad o 43%	Lleihau'r dŵr a ddefnyddir gan o leiaf 8%	Ar darged

*Mae gwastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i'w droi'n ynni yn hytrach na mynd i safle tirlenwi

Mae'r holl ddata perfformiad wedi ei gyfrifo yn erbyn llinell sylfaen 2017-18.

Maes	Perfformiad	Targed – i gadw o'i fewn
Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas	allyriadau carbon (tunelli) gwariant (£)	1,985 1,561,383.17
Gwastraff	defnydd (tunelli) gwariant (£)	564 104,758.00
Dŵr	defnydd (m) gwariant (£)	23,482 75,967.41

Carbon

Rydym wedi lleihau'r defnydd o drydan yn erbyn defnydd y flwyddyn ddiwethaf gan 282MWh. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi symud o'n swyddfa yn Peterborough i'r Hyb Llywodraeth yn Hydref 2025. Symudwyd i drydan Tariff Gwyrdd adnewyddadwy o 01/04/24.

Mae'r defnydd o nwy wedi lleihau gan 1,461MWh o'i gymharu â ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy welliannau i rai o'n systemau gwresogi adeiladau.

Mae ein hallyriadau carbon cyffredinol wedi lleihau er 2017-18 ac yn 1,985 o dunelli, sy'n lleihad yn erbyn y flwyddyn sylfaen o 66%. Cyfanswm allyriadau Cwmpas 1 ar gyfer y flwyddyn ariannol yw 918 ac allyriadau Cwmpas 2 yw 636. Defnyddiwyd ffactorau allyriadau'r Llywodraeth ym mhob adroddiad Cofrestrfa Tir EF. Gweler Atodiad C am ddata tuedd hanesyddol.

Cyflawnwyd y targed blaenorol a osodwyd gan Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth (YGLI) ar gyfer carbon o hediadau domestig i'w leihau gan 30% erbyn diwedd Mawrth 2025. Yn y flwyddyn sylfaen roedd Cofrestrfa Tir EF wedi gwneud cyfanswm o 351 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 18.03 o dunelli. Yn 2025-26 cofnodwyd 53 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 2.38 o dunelli, gan arwain at leihad carbon yn erbyn y llinell sylfaen o 82%.

Mae gan AELI raglen Net Sero, ac rydym yn gweithio'n agos i nodi cyfleoedd. O fewn y flwyddyn ariannol

gyfredol, mae AELI wedi gosod paneli ffotofoltäig yn adeilad Abertawe.

Gwastraff

Y targed a osodwyd yw lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan 15% o linell sylfaen 2017-18 a cheisio ei leihau ymhellach, ac ailgylchu neu gompostio gan 70%, gyda'r nod o anfon llai na 10% o wastraff i safle tirlenwi.

Cyrhaeddwyd y targedau fel sy'n ofynnol erbyn Mawrth 2025. Rydym wedi parhau i fesur yn erbyn y targedau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gyda faint o wastraff a gynhyrchwyd wedi ei leihau yn erbyn y llinell sylfaen o 42% a 99.3% o'r holl wastraff wedi ei ailgylchu. 4.25% wedi ei anfon ar gyfer treulio anaerobig, 13% wedi ei losgi ar gyfer ei droi'n ynni.

Pwysau Gwastraff yn ôl categori (Tunelli)	
Cyfanswm y gwastraff wedi ei gynhyrchu	564
Cyfanswm y gwastraff sy'n codi	462.71
Cyfanswm y gwastraff wedi ei gompostio	23.6
Cyfanswm y gwastraff wedi ei losgi gydag adfer ynni	72.7
Cyfanswm y gwastraff wedi ei losgi heb adfer ynni	.16
Cyfanswm y gwastraff i safle tirlenwi	4.2

Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr Rheoli Cyfleusterau i gasglu gwybodaeth ariannol ar gyfer ffrydiau gwaith unigol.

Mae papur yn cyfateb i 41% o'r gwastraff, gyda 236 o dunelli yn cael eu hanfon i'w hailgylchu.

Roedd targed YGLI yn gofyn am weithgarwch gwell o ran cael gwared ar blastigau untro defnyddwyr (PUD) o ystad y llywodraeth. Rydym wedi parhau i nodi ffynonellau o PUD sydd wedi arwain at ddata adrodd gwell gan arwain at gynnydd yn y PUD y gwyddys amdanynt yn y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr i newid cynhyrchion hanfodol i opsiwn mwy cynaliadwy.

Dŵr

Rydym wedi cyflawni lleihad o 43% yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 8% o linell sylfaen 2017-18. Rydym wedi parhau i gyrraedd y targed hwn.

Papur

Cafodd adrodd ar y defnydd o bapur ei ddileu o'r targedau ar ddechrau cyfnod adrodd 2025-26.

Caffael cynaliadwy

Mae ein Polisi Caffael a Rheoli Contractau yn rhoi ystyriaeth briodol i gynaliadwyedd, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, cymorth i fentrau bach a chanolig a ffactorau amgylcheddol. Rydym yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ystyried yn ein dewisiadau buddsoddi, fel bod ein contractau'n cyfrannu at gyflawni targedau YGLI. Rydym yn cynnwys gofynion cymdeithasol, economaidd a/neu amgylcheddol yn ein manylebau tendr ac yn asesu ymatebion cyflenwyr i'r rhain, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflenwyr i fonitro perfformiad yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt i gael gwerth o'n contractau. Byddwn yn mabwysiadu unrhyw ganllawiau newydd a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod ein contractau'n parhau i gyflawni yn erbyn ein gofynion cynaliadwyedd.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a digidol

Mae ein hymrwymiad parhaus at ofynion carbon Sero Net y llywodraeth yn cynnwys sicrhau bod rhaid i unrhyw dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), offer digidol a seilwaith trydanol sy'n cael eu huwchraddio neu eu newid, berfformio'n well na'r hyn sy'n cael ei ddisodli. Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac amcanion allweddol y llywodraeth.

Y flwyddyn hon mae gennym 700 o liniaduron wedi eu hadnewyddu, ac mae 6,600 o orsafoedd docio wedi eu haddasu at ddibenion gwahanol trwy ein contract Cyfrifiaduron Defnyddwyr gyda SCC ac wedi cael eu rhoi i ysgolion. Rydym yn sicrhau bod 100% o'r holl offer TGCh wedi eu datgomisiynu yn cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu mewn modd amgylcheddol a moesegol.

Datganiad Cydymffurfiaeth y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (DACH) 2025-26

Y flwyddyn hon rydym wedi parhau i gyflawni'r llywodraethu ar elfennau perthnasol o Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) a'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (DACH).

Mae CTEF wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol cysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â chanllawiau cais datgelu Trysorlys EF sy'n gydnaws â DACH, sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Nid yw Cofrestrfa Tir EF yn ystyried bod yr hinsawdd yn brif risg, ac felly mae wedi cydymffurfio ag argymhellion DACH a datgeliadau ynghylch:

Llywodraethu – datgeliadau a argymhellir (a) a (b)

Rheoli Risg – datgeliadau a argymhellir (a) i (c)

Metrigau a Thargedau – datgeliadau a argymhellir (b)

Bydd perfformiad yn erbyn Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn cael eu hadrodd i'r Panel ACLI bob chwarter ynghyd â chasgliadau o archwiliadau mewnol ac allanol. Yna bydd y panel ACLI yn adrodd am unrhyw bryderon pwysig ynghylch addasu i'r hinsawdd i'r Pwyllgor Iechyd Corfforaethol.

Adroddir bob tri mis i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar ein Hymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth, gan gynnwys Nwyon Tŷ Gwydr Cwmpasau 1 a 2 ac elfennau perthnasol o Gwmpas 3. Rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymadau YGLI.

Mae AELI yn berchen ar, ac yn gyfrifol am, y rhan fwyaf o'r eiddo a feddiannwn. Mae Cofrestrfa Tir EF yn ymgymryd â'r gweithgarwch cynnal a chadw mewn 10 o'r safleoedd hyn, ac rydym yn denant bach yn y gweddill. Felly mae gwydnwch yr ystad a rhoi sylw i senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gyfrifoldeb AELI a Chofrestrfa Tir EF.

Yn ystod 2025 roed AELI wedi parhau i gasglu data ar lefel adeiladau i wella'r wybodaeth am risgiau a mesurau lliniaru addasu i'r hinsawdd. Rydym wedi cynnal adolygiad risg newid hinsawdd gan edrych yn benodol ar bob elfen o lifogydd, gwyntoedd cryfion a thymheredd eithafol gan ddefnyddio Fframwaith Addasu Ystadau Swyddfa'r Cabinet sy'n nodi risg newid hinsawdd yn ganolig neu isel ar gyfer adeiladau a reolir gan Gofrestrfa Tir EF. Bydd hyn yn arwain at gael gwybodaeth a thrafod gwybodaeth gydag AELI a fydd yn cyflawni cynllun gweithredu wedi ei flaenoriaethu Cofrestrfa Tir EF, lle bo'n gymesur ac yn briodol, ar draws ein hystad a feddiannir yn 2026.

Rheolir Risgiau Hinsawdd yn benodol trwy Gofrestr Risg CTEF rhif eitem 4417 – Cyfraniad Cofrestrfa Tir EF i ACLI a 349 Perfformiad a Monitro Amgylcheddol. Fel y nodwyd uchod yn y flwyddyn gyfredol rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag AELI i gyflawni prosiectau Net Sero yn ein lleoliadau yn Abertawe a Plymouth, gyda phrosiectau pellach i'w cyflawni yn 2026-27.

Rydym yn cadw i fyny â datblygiadau ac yn paratoui ymateb i ymrwymadau YGLI newydd wedi iddynt gael eu cyhoeddi. Byddwn yn ailosod ein data llinell sylfaen yn unol â chynigion YGLI drafft, gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r data a gasglwyd yn 2025-26.

Adolygiad ariannol



Mae Clwb Pêl-droed Everton newydd gwblhau ei dymor cyntaf yn ei gartref newydd Stadiwm Hill Dickinson yn Noc Bramley-Moore yn Lerpwl. Roedd Swyddfa Coventry yn delio â chais aml-deitl gwerth £45 miliwn ar gyfer yr eiddo yn haf 2026. Llun: Shutterstock/J5videos

Ar gyfer 2025-26, roedd Cofrestrfa Tir EF wedi parhau i gael ei hariannu trwy'r broses Cyflenwi Seneddol. Mae ein costau wedi eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cyfunol (DWNC) o fewn y Cyfrifon Adnoddau, gyda'r Datganiad o Incwm Net Cyfunol (DINC) o fewn y Datganiad Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu ein holl ffioedd, taliadau ac incwm masnachol. Mae sefyllfa diwedd blwyddyn Cofrestrfa Tir EF ar gyfer asedau a rhwymedigaethau wedi ei nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (DSA), yn y Cyfrifon Adnoddau a'r Datganiad Ymddiriedolaeth. Mae'r datganiadau ariannol manwl i'w gweld ar dudalennau 92 i 95, a thudalennau 117 i 119. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r Safonau Adrodd Ariannol yn y flwyddyn ariannol hon sy'n effeithio ar Gofrestrfa Tir EF.

Yn 2025-26, rydym wedi buddsoddi mewn lleihau'n sylweddol oedran a nifer y ceisiadau heb eu prosesu, gan gymryd camau pwysig yn ein trawsnewid digidol, gwella'r profiad a'r gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid yn ei gael a buddsoddi yn ein pobl. Mae manylion pellach i'w gweld ar dudalennau 14 i 21 yn adran perfformiad yr adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Yng Nghofrestrfa Tir EF, rydym wedi rheoli ein gwariant yn ofalus o fewn ein cyfansymiau rheolaeth seneddol, gyda thanwariant yn erbyn ein Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (TGAA) o £14.1 miliwn (tanwariant o 2.9%) a thanwariant yn erbyn ein Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGAC) o £0.7 miliwn (tanwariant o 1.1%).

Tabl crynodeb 2025-26	Alldro	Cyllideb Amcangyfrifedig Atodol
	£000	£000
Terfyn Gwariant Adrannol (TGA)		
Adnodd: arian parod*	449,562	463,008
Adnodd: heb fod yn arian parod*	26,526	27,205
Cyfanswm adnoddau	476,088	490,213
Cyfalaf	62,427	63,100
Cyfanswm TGA	538,515	553,313
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)		
Adnoddau	1,028	12,000
Cyfalaf	0	0
Cyfanswm	1,028	12,000

Adolygiad ariannol o'r cyfrifon adnoddau (TGAA)

Tabl Adolygiad Ariannol	2025-26	2024-25
	£m	£m
Costau staff	351.6	330.7
Prynu nwyddau a gwasanaethau	94.5	72.6
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio*	26.1	28.6
Taliadau indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol**	1.6	6.0
Cyfanswm gwariant gweithredu	473.8	437.9
Cyllid (incwm)/treuliau	1.7	1.9
(Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol	0.6	0.0
Gwariant adnoddau net am y flwyddyn	476.1	439.8
Darpariaethau eraill a ddefnyddiwyd	0.0	0.0
Cyfanswm TGAA	476.1	439.8

* Heb gynnwys amhariad a godir ar Wariant a Reolir yn Flynyddol (GRF).
** Heb gynnwys symudiadau yn y ddarpariaeth indemniad (wedi eu dosbarthu fel GRF).


Costau Staff

Cynyddodd ein costau staff o £330.7 miliwn i £351.6 miliwn, ochr yn ochr â'r codiad cyflog blynyddol (a wnaed yn unol â chyfarwyddyd cylch gwaith Tâl y Gwasanaeth Sifil), a chynnydd yn nifer ein staff Trawsnewid a Thechnoleg i gefnogi ein portffolio newid.

Prynu nwyddau a gwasanaethau

Y meysydd gwariant allweddol a'u symudiadau o 2024-25 i 2025-26 oedd:

- gwasanaethau TG a phroffesiynol, sy'n cynnwys cynnal a chadw offer a thrwyddedau, lle cynyddodd costau o £29.5 miliwn i £36.6 miliwn yn bennaf oherwydd costau chwyddiant;
- costau staff eraill gan gynnwys hyfforddiant, a gynyddodd o £10.3 miliwn i £17.1 miliwn, a'r prif ffactorau a arweiniodd at hyn oedd cynnydd o £3.5 miliwn mewn staff asiantaeth (gan gynnwys capasiti ymchwydd darparu gwasanaeth a chynnydd o £2 filiwn yn ymwneud â gwella galluoedd rheoli ac arwain ein pobl;
- lleihau costau llety o £12.4 miliwn i £12.2 miliwn; ac
- mae costau eraill a gwrthdroi cronïadau wedi cynyddu o gredyd net o £4.9m (yn dilyn adolygiad arwyddocaol o gronïadau oedrannus yn 2024-25) i adlewyrchu costau net o £2.1 miliwn.



Taliadau dibrisiant ac amorteiddio

Mae maint ein hystad ar les wedi lleihau yn 2025-26, gan arwain at ostyngiad yn ein dibrisiant prydles o £1.0 miliwn. Cynyddodd dibrisiant asedau a berchnogir gan £0.2 miliwn, gydag amorteiddio asedau anniriaethol yn lleihau £1.7 miliwn.

Taliadau indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol

Mae costau heb fod yn gostau staff Cofrestrfa Tir EF hefyd yn adlewyrchu effaith ein gwarant teitlau wedi ei chefnogi gan y wladwriaeth, sy'n helpu i gynnal cywirdeb y gofrestr. Mae'n diogelu dioddefwyr rhag twyll neu wallau. Yn 2025-26, dyrannwyd £1.6 miliwn yn erbyn 948 o hawliadau, o'i gymharu â £6.0 miliwn a ddyrannwyd yn erbyn tua 750 o hawliadau yn 2024-25.

Costau ariannu a gwaredu asedau anghyfredol

Yn 2025-26, cafodd Cofrestrfa Tir EF gostau o £1.7 miliwn yn gysylltiedig â'r gwariant llog ar Brydlesi cyllid, sy'n adlewyrchu'r newidiadau yn y brydles hawl-i-ddefnyddio a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn (2024-25: £1.9 miliwn). Ni fu unrhyw warediadau arwyddocaol o asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn.

Adnoddau – Gwariant a Reolir yn Flynyddol (A-GRF)

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cyfrifo gwerth ein darpariaeth indemniad gyda chymorth Adran Actwari'r Llywodraeth gyda model sy'n defnyddio ein data hawliadau hanesyddol a chyfraddau disgownt Trysorlys EF i amcangyfrif cyfanswm gwerth all-lifau economaidd yn y dyfodol. Ariennir y ddarpariaeth indemniad trwy Adnoddau – GRF oherwydd ansicrwydd cynhenid hawliadau. Ein gwariant oedd £1.0 miliwn yn erbyn cyfanswm rheoli o £12.0 miliwn (tanwariant o 91%).


Mae gwybodaeth yn y dyfodol am hawliadau Heb eu Talu ac Wedi Codi ond Heb eu Hadrodd (WCHH) i'w gweld yn Nodyn 12 y cyfrifon adnoddau, sydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd ar y rhagdybiaethau mwyaf arwyddocaol.

Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGAC)

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2025-26 oedd £62.4 miliwn, yn erbyn cyfanswm Cyflenwad Amcangyfrifedig o £63.1 miliwn, gan arwain at danwariant o £0.7 miliwn.

Incwm Statudol ac Incwm Arall

Rydym yn parhau i gasglu'r holl ffioedd a thaliadau pan wneir cais ac yn ildio'r incwm i Drysorlys EF ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae'r incwm hwn yn cael ei adrodd yng nghyfrifon y Datganiad Ymddiriedolaeth (sydd hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynnyddol hwn). At ei gilydd, gwelwyd cynnydd o £101.5 miliwn mewn incwm statudol o £395.3 miliwn a dderbyniwyd yn 2024-25 i £496.8 miliwn yn 2025-26 (cynnydd o 20%).



Cynhyrchodd ein gwasanaethau cofrestru ôl-gwblhau £273.5 miliwn (55% o'n hincwm ffioedd craidd). Daw'r mwyafrif o'r incwm hwn (£185.1 miliwn) o ddiweddariadau sy'n ymwneud â newidiadau i deitlau presennol (megis newid perchnogaeth), gyda cheisiadau teitl newydd (megis cofrestriadau cyntaf, trosglwyddiad o ran a phrydlesi newydd) yn cyfrif am y gweddill (£88.3 miliwn).

Mae'r incwm sy'n gysylltiedig â cheisiadau lle nad yw Cofrestrfa Tir EF wedi darparu'r gwasanaeth cysylltiedig eto yn cael ei ddal gan Gofrestrfa Tir EF fel incwm gohiriedig, neu 'Ffioedd a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw' (FfDdYLI). Yn ystod y flwyddyn, bu gostyngiad net yng ngwerth FfDdYLI o £3.7 miliwn. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu effaith ariannol ein hymrwymiad at leihau oedran a nifer ein ceisiadau heb eu prosesu yn 2025-26.

Daw'r rhan fwyaf o weddill ein hincwm craidd o wybodaeth cyn-gwblhau a gwasanaethau ymholiadau a gynhyrchodd £196.4 miliwn o incwm yn 2025-26. Roedd hyn yn gynydd o £76.3 miliwn o 2024-25, gan adlewyrchu effaith blwyddyn lawn y Gorchymyn Ffi o 2024. O hyn, roedd gwasanaethau gwybodaeth, megis copïau swyddogol a chwiliadau sy'n gamau hanfodol o fewn pob trafodiad eiddo, wedi cynhyrchu £154.9 miliwn. Roedd gwasanaethau ymholiadau, megis Gweld Cofrestr, wedi cynhyrchu £41.4 miliwn.

Yn ogystal, mae Cofrestrfa Tir EF hefyd yn darparu gwasanaethau tir ac eiddo eraill.

- Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir digidol yn gwarchod buddion mewn tir digofrestredig, ac rydym yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein hadran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill. Cynhyrchodd y gwasanaethau hyn £21.4 miliwn o incwm yn 2025-26.
- Mae ein rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn gofrestr genedlaethol, sydd ar gael ar unwaith o wybodaeth a gedwir gan awdurdodau lleol sydd wedi mudo i'r plattform. Cynhyrchodd y gwasanaethau hyn £1.9 miliwn o incwm y flwyddyn ariannol hon.

Incwm arall

Mae Cofrestrfa Tir EF yn darparu gwasanaethau data masnachol i gwsmeriaid y farchnad eiddo a'r economi ehangach. Roedd incwm o ryddhau ein data yn fasnachol wedi cynhyrchu £3.8 miliwn yn 2025-26.

2026-27

Cytunwyd i newid yn fframwaith ariannol Cofrestrfa Tir EF ar gyfer 2026-27 fel rhan o Adolygiad Gwariant 2025. O 2026-27 ymlaen, bydd cyllideb TGAA Cofrestrfa Tir EF yn cael ei gosod i werth enwol (£1k) sy'n golygu bod rhaid realeiddio digon o incwm i gwmpasu'r holl wariant TGAA yn y flwyddyn. Bydd TGAC a GRF yn parhau i gael eu hariannu trwy'r broses Cyflenwi Seneddol.



Mae Baddondy Rhufeinig Caerfaddon, sydd mewn cyflwr da, yn defnyddio ffynhonnau poeth naturiol a fu'n safle cysegredig ers oes y Celtiaid. Ymunodd Cyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ionawr 2026. Llun: Pete Sim/Cofrestrfa Tir EF

Gwybodaeth gorfforaethol arall

Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus trwy gydymffurfio â GDPR y DU (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Yn unol ag Atodlen 2, paragraff 5(1) o Ddeddf Diogelu Data 2018, mae Cofrestrfa Tir EF wedi ei heithrio rhag cydymffurfio â rhai darpariaethau GDPR y DU i'r graddau y byddai cymhwyso'r darpariaethau hynny yn ein hatal rhag cydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol, gan gynnwys Deddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

Mae cynnydd ar reoli ein cofnodion digidol gwaddol yn parhau ar frys. Yn ystod 2025 adolygwyd dros 300,000 o gofnodion, a arweiniodd at drosglwyddo 4,128 i'r Archifau Cenedlaethol, gan sicrhau eu cadwraeth a'u hygyrchedd ar gyfer y dyfodol.

Derbyniwyd cyfanswm o 552 o geisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) a Rhyddid Gwybodaeth yn 2025-26. Ein cyfradd ymateb gyffredinol ar gyfer ymateb i geisiadau o fewn yr amserlenni statudol yn ystod 2025-26 oedd 93.4%.

Iechyd a diogelwch

Y ffocws y flwyddyn hon oedd meithrin gwydnwch ac ystwythder yn ein trefniadau iechyd a diogelwch trwy hyfforddiant rheolwyr llinell, rhaglenni datblygu proffesiynol iechyd a diogelwch a gwella'r adnoddau i'r holl staff gael mynediad at wybodaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch, ochr yn ochr â mynediad gwell at gefnogaeth ar gyfer addasiadau i'r gweithle mewn gweithle hybrid. Rydym yn parhau i weithio ar draws cymuned gweithwyr proffesiynol iechyd a diogelwch y llywodraeth i chwilio am gyfleoedd i gydweithio a dod â ffyrdd newydd o weithio i'r ffordd rydym yn cefnogi'r sefydliad. Rydym wedi cyflawni ystod o weithgareddau i gefnogi ein hymrwymiad at ddysgu a gwelliant parhaus ym maes rheoli iechyd a diogelwch, ac mae hyn wedi cael ei gydnabod mewn archwiliadau mewnol ac allanol gydag achrediad parhaus ISO 45001.

Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n dyletswyddau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, gan sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Angie Clarkson, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth Dros Dro, yw'r uwch berchennog cyfrifol am y cynllun. Rydym yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg, y corff annibynnol sy'n monitro ein cydymffurfiaeth.

Gellir anfon gohebiaeth a cheisiadau yn Gymraeg trwy ebost at GwasanaethCymraeg@landregistry.gov.uk, a gellir gwneud ymholiadau yn Gymraeg trwy ffonio 0300 006 0422. Gellir gweld tudalennau GOV.UK sydd ar gael yn Gymraeg trwy ddewis y tab 'Cymraeg' yng nghornel dde uchaf y dudalen. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg ar gael yn <https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy>

Cyflwynwyd 'Gwobr y Gymraeg CTEF' eleni i Nicola Barry a Dawn Morgan o Swyddfa Abertawe. Mae'r ddwy wedi delio â cheisiadau, gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ers blynnyddoedd lawer, a thrwy eu hymrwymiad a'u harbenigedd, gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau yn hyderus.

Cydnabuwyd y gwaith rhagorol a wneir gan yr enwebeion hefyd, gan fod eu cyfraniadau'n hanfodol wrth sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn hygyrch yn Gymraeg:

- Y Tim Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid am gynnal fersiynau Cymraeg o'n ffurflenni cyswllt.
- Y Tim Dylunio Graffeg am gynhyrchu cyhoeddiadau a fideos Cymraeg.
- Y Tim Pridiannau Tir Lleol am gynnal fersiynau Cymraeg y gwasanaeth Chwilio am Bridiannau Tir Lleol a'r gwasanaeth Cynnal Pridiannau Tir Lleol.
- Y Tim Chwilio am Wybodaeth am Dir ac Eiddo am gynnal fersiwn Gymraeg y gwasanaeth Chwilio am Wybodaeth am Dir ac Eiddo.
- Y Tim Mynegai Prisiau Tai'r DU am gynnal fersiwn Gymraeg teclyn Mynegai Prisiau Tai'r DU.

Cydllynu seneddol

Mae Hyb Seneddol Cofrestrfa Tir EF yn eistedd yn Swyddfa'r Prif Weithredwr ac yn gyfrifol am sicrhau bod ein prosesau seneddol yn rhedeg yn ddidrafferth. Rhoddwyd sylw i 44 o gwestiynau seneddol a goruchwyliwyd busnes ac ymgysylltiad gweinidogol Cofrestrfa Tir EF, gan gynnwys delio â 1,054 o lythyrau gweinidogol, AS a llythyrau l'w Drin yn Swyddogol.

Safonau gwasanaeth

Mae manylion y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: <https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-servicestandards>.

Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac mae wedi ei ddosbarthu fel Pwyllgor Arbenigol. Rôl y pwyllgor yw rhoi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf.

Caethwasiaeth fodern

Cefnogwn fesurau i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu pobl, yn ein sefydliad nac yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau cadarn yn ein contractau a’n prosesau recriwtio. Yn ogystal, hwyluswn allu cydweithwyr i godi pryderon, gan gynnwys unrhyw faterion sy’n ymwneud â’n cadwyni cyflenwi.

Cwynion

Mae Cofrestrfa Tir EF wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth amserol o safon uchel sy’n adlewyrchu anghenion cwsmeriaid.

Yn gryno:

- Cafodd 86% o gwynion eu datrys yng ngham cyntaf ein proses gwyno.
- Roedd cwynion yn cynrychioli 0.14% o’r ceisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Lleihaodd nifer y cwynion o 7,319 yn 2024-25 i 6,525 yn 2025-26 (lleihad o 11%).
- Erbyn hyn rydym yn datrys 89% o ymholiadau dros y ffôn pan gysylltir â ni y tro cyntaf.
- Cafodd 62% o gwynion eu datrys o fewn ein safon gwasanaeth cwsmeriaid o 20 diwrnod gwaith (75% yn 2024-25).
- Roedd cwynion am gyflymder gwasanaeth yn cyfrif am gyfran lai o gyfanswm y cwynion, gan leihau 11% (9.5% yn defnyddio data diwedd Mawrth 2026).

Sut rydym yn delio â chwynion

Y flwyddyn ddiwethaf roeddem wedi cryfhau ein dull o drin cwynion trwy wahaniaethu’n glir rhwng cwynion am wasanaeth a chwynion am benderfyniadau cyfreithiol. Rydym wedi canoli’r broses o drin cwynion am wasanaeth o fewn y Tîm Cwynion Cwsmeriaid, tra bod cwynion am benderfyniadau cyfreithiol yn parhau i gael eu rheoli gan ein cyfreithwyr a’n huwch weithwyr achos. Roedd hyn wedi sicrhau bod yr arbenigedd cywir yn cael ei neilltuo ar gyfer pob math o gŵyn gan gefnogi datrysiadau cyflymach a mwy effeithiol i gwsmeriaid.

Yr hyn rydym wedi ei wella

- Sut gall cwsmeriaid godi cwyn, gan gefnogi llwybr cyflymach a datrysiad cynharach.
- Ansawdd a chyflymder datrys a dolenni dysgu cryfach o’r mewnwelediad cwynion.
- Cipio data a chyflwyno offer adrodd i wella gwelededd y daith cwynion o’r dechrau i’r diwedd a chryfhau cydymffurfiaeth â safonau gwasanaeth cwsmeriaid cyhoeddedig.

Cyflymder gwasanaeth

Cyflymder ein gwasanaethau yw’r mater pwysicaf i’n cwsmeriaid o hyd. Er mwyn rhoi sylw i hyn, rydym wedi ymrwymo i leihau’n sylweddol oedran ein ceisiadau heb eu prosesu a chyrraedd y targed ar gyfer lleihau i o dan naw mis erbyn Mawrth 2026. Cefnogwyd hyn gan gamau gweithredu wedi eu targedu ar gyfer y ceisiadau hynaf a lleihad parhaus yn y nifer o geisiadau heb eu prosesu.

O Ebrill 2025 i Chwefror 2026, cynyddodd nifer y cwynion am gyflymder gwasanaeth gan 100; fodd bynnag, roedd y cwynion hyn yn cyfrif am gyfran lai o’r cwynion cyffredinol, gan leihau 11% (neu 9.5% gan

ddefnyddio data diwedd Mawrth 2026). Mae hyn ochr yn ochr â lleihad cyffredinol o 11% yn nifer y cwynion i 6,525 yn 2025-26 (o 7,319 yn 2024-25).

Datrysiad cyswllt cyntaf

Trwy ymgorffori egwyddorion datrys cyswllt cyntaf, a gwella gallu a thechnoleg gwasanaeth cwsmeriaid, erbyn hyn rydym yn datrys 89% o ymholiadau ffôn pan gysylltir â ni y tro cyntaf.

Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol

Gall cwsmeriaid sydd wedi cwblhau ein proses gwyno lawn ac sy’n parhau i fod yn anfonlon ofyn i’r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACR) ymchwilio i’w cwyn.

Penodwyd Helen Gillett (ACR Dros Dro) yng Ngorffennaf 2025 ac mae wedi adolygu ymateb i’r 10 cwyn oedd yn aros i’w hystyried yn dilyn marwolaeth Andrea Cook OBE y flwyddyn flaenorol. Yn 2025-26, derbyniwyd y 10 adroddiad terfynol oedd yn weddill ynghyd ag 19 adroddiad terfynol pellach.

O’r 29 o gwynion a adroddwyd arnynt, arweiniodd 14 at gasgliadau o gamweinyddu (h.y. wedi eu cadarnhau/ wedi eu cadarnhau’n rhannol) ac ni chafodd 15 eu cadarnhau.

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Os yw cwsmeriaid yn parhau i fod yn anfonlon â chanlyniad ymyrraeth yr ACA, gallant fynd â’u hachos at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Yn ystod 2025-26 codwyd un ymholiad gyda’r Ombwdsmon a arweiniodd at ymchwiliad a gafodd ei gadarnhau’n rhannol.

Dysgu o gwynion

Mae ailystyried sut rydym yn cyfathrebu â chwsmeriaid wedi bod yn ffocws allweddol. Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr allanol i ddatblygu egwyddorion cyfathrebu clir a chyfarwyddyd ymarferol, wedi eu hategu gan ethos tôn llais syml sy’n canolbwyntio ar eglurder er mwyn i gwsmeriaid deimlo’n hyderus.

Er mwyn meithrin newid diwylliannol, lle mae cwynion yn cael eu hystyried yn gyfrifoldeb pawb, datblygwyd dau fodiwl hyfforddi cwynion newydd i helpu cydweithwyr i nodi anfonlonrwydd cwsmeriaid a chymryd perchnogaeth er mwyn datrys problemau pan gysylltir â ni y tro cyntaf os oes modd, neu, os oes angen, cyfeirio’r gŵyn yn effeithlon at y Tîm Cwynion Cwsmeriaid. Erbyn Mawrth 2026, roedd dros 70% o’r staff wedi cwblhau’r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus.

Fel sefydliad dysgu sy’n gwerthfawrogi cwynion, rydym yn gwrando’n fwy astud ar lais y cwsmer. Rydym yn defnyddio astudiaethau achos cwynion (gan gynnwys y rhai o’r ACA), adborth uniongyrchol gan gwsmeriaid a chydweithwyr, a’r mewnwelediad cwynion i ddileu achosion systemig cwynion, ysgogi effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth sy’n canolbwyntio mwy ar y cwsmer.

Perfformiad ac amseroldeb

Erbyn diwedd Mawrth 2026, roeddwn wedi datrys 62% o gwynion o fewn ein safon gwasanaeth cwsmeriaid 20 diwrnod gwaith (75% yn 2024-25). Er bod amseroldeb wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi buddsoddi

mewn adnoddau, gwelliannau proses a hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau gwelliant cyson yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn.

Roedd cwynion yn cyfrif am 0.14% o'r ceisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd yn 2025-26, gan ddangos bod y rhan fwyaf o'r rhyngweithiadau wedi cael eu trin yn ddidrafferth ar draws ceisiadau ac ymholiadau.

Gwella gallu a chyfathrebu

Datblygwyd llwybr hyfforddi cynhwysfawr newydd ar gyfer trinwyr cwynion, gan ymgorffori safonau'r Ombwdsmon a chynnwys hyfforddiant ffôn a sgiliau drafftio. Mae hon yn ymdrech ar draws y sefydliad i feithrin gallu cwynion.

Cynhelir adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd (mewnol ac allanol) o gwynion a ddewisir ar hap, ochr yn ochr ag achosion ACA, fel rhan o'r fframwaith sicrhau ansawdd. Bydd y pwyllgor priodol yn adolygu'r casgliadau, gan roi sicrwydd ein bod yn gwrando ar ein cwsmeriaid ac yn dysgu o gwynion.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae tua 30 o lythyrau ac e-byst effaith uchel yn cael eu hailysgrifennu fel templedi clir a chyson, gan gynnwys gohebiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau, ymholiadau a chwynion. Mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei lywio gan ymchwil cwsmeriaid a'r mewnwelediad cwynion, a ddangosodd fod iaith a thôn aneglur yn cyfrannu at ddryswch ac ailgysylltu. O ganlyniad, mae cwsmeriaid yn derbyn esboniadau cliriach o'r hyn sydd wedi digwydd, beth sydd ei angen nesaf a pham, gan helpu i leihau ansicrwydd a dilyn i fyny diangen.

Darparu gwasanaeth o safon

Datblygwyd model sicrhau ansawdd cadarn ar draws llinell sicrwydd cyntaf, ail a thrydedd linell sicrwydd er mwyn rhoi hyder yn nhaith y cwsmer, gan gwmpasu ansawdd rhyngweithiadau, amseroldeb a chywirdeb gwaith achos. Bydd y model hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob tîm sy'n rheoli cwynion, gyda gweithgarwch sicrwydd yn dechrau o 1 Ebrill. Mae hefyd yn rhagflaenu'r strategaeth ansawdd gyflawn sy'n cael ei datblygu ar gyfer y sefydliad ar hyn o bryd.

Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae symleiddio prosesau a gwella cyfathrebu, gan gynnwys datrys problemau pan gysylltir â ni y tro cyntaf lle bynnag y bo modd, wedi gwella cysondeb yn y ffordd rydym yn nodi ac yn delio ag anfodlonrwydd cwsmeriaid ac wedi helpu i ymgorffori diwylliant o berchnogaeth ac atebolrwydd.

Cyflwynwyd egwyddorion arweiniol Cyswllt Cwsmeriaid i lunio profiad cyswllt cwsmeriaid gwell, wedi ei ategu gan ffocws ar ddatrys problemau. Cyflwynwyd fframwaith sicrhau ansawdd ymholiadau cwsmeriaid hefyd i sicrhau bod y newidiadau hyn yn gweithio'n dda i bob cwsmer.

Dathlu cydnabyddiaeth genedlaethol

Yn 2026, cawsom ein henwi yn rownd derfynol Tîm Ansawdd y Flwyddyn, gan adlewyrchu ymroddiad ein timau i gyflawni safonau uchel a datrysiadau ystyrlon yn gyson i gwsmeriaid.



Cafodd y castell canoloesol Castell Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg ei drawsnewid gan y teicwn papurau newydd o America William Randolph Hearst ar ddechrau'r 20fed ganrif ac erbyn hyn mae'n gartref i fyfyrwyr rhyngwladol Coleg yr Iwerydd. Ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Awst 2025. Llun: Alamy/ Neil McAllister

Geirfa

Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Canolfan rhagoriaeth Cofrestrfa Tir EF ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth.
Academi Cofrestru Tir	Canolfan rhagoriaeth hyfforddi staff Cofrestrfa Tir EF.
Business Gateway	Mae'r Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau Business Gateway yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad di-dor at ein gwasanaethau o fewn eu systemau rheoli achosion ac awtomeiddio prosesau ailadroddus.
Cais	Gwneud cais i gofrestru tir digofrestredig, diweddarau teitlau tir neu eiddo cofrestredig, neu wneud cais am wybodaeth gan Gofrestrfa Tir EF.
Cais creu cofrestr	Unrhyw gais sy'n arwain at greu cofrestr hollol newydd, megis trosglwyddo rhan o deitl sy'n bodoli, prydles newydd neu gofrestru tir am y tro cyntaf.
CO2/ Ôl troed carbon	Cyfanswm y nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys carbon deuocsid a methan) a gynhyrchir gan ein gweithredoedd.
Cofrestr Credydau Amaethyddol	Cofrestr sy'n darparu dull o sicrhau gwarant ar gyfer benthyca dros asedau fferm megis da byw ac offer.
Cofrestr Endidau Tramor	Cofrestr gyhoeddus o berchnogion buddiol endidau o'r tu allan i'r DU sy'n berchen ar dir yn y DU neu'n ei brynu, a weithredir gan gofrestrydd Tŷ'r Cwmnïau.
Cofrestr Pridiannau Tir	Cofrestr sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol: cofrestr o bridiannau tir, cofrestr o gamau gweithredu heb eu cwblhau a chamau gweithredu heb eu cwblhau mewn methdaliad, cofrestr gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a gwritiau a gorchmynion mewn methdaliad, cofrestr o weithredoedd cymodi sy'n effeithio ar dir a chofrestr blwydd-daliadau.
Cofrestr Pridiannau Tir Lleol (PTLI)	Cofrestr statudol sy'n cynnwys gwybodaeth awdurdodau lleol am ddefnyddio a mwynhau eiddo. Mae'n cynnwys materion megis statws adeilad rhestredig, gorchmynion cadw coed a mesurau eraill i warchod yr amgylchedd.
Cofrestr teitl	Mae'n cofnodi perchnogaeth tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr.
Cofrestriad cyntaf	Y gofyniad i gofrestru ystadau rhydd-ddaliol a phrydlesol digofrestredig mewn tir.
Comisiwn Geo-ofodol	Pwyllgor arbenigol, a noddir gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n gosod strategaeth geo-ofodol y DU ac yn hyrwyddo'r defnydd gorau o ddata geo-ofodol.
Copi swyddogol	Copïau o weithredoedd a dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda ni, gan gynnwys cofrestri teitl a chynlluniau teitl, y gwarantir eu bod yn gywir ac y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth fel pe baent yn ddogfennau gwreiddiol.
Cyfyngiad	Cofnod sy'n cyfyngu Cofrestrfa Tir EF rhag diweddarau'r gofrestr oni bai fod amodau penodol yn cael eu bodloni.
Cyngor Cyngori'r Gofrestrfa Tir	Bwrdd ymgynghorol sy'n sicrhau bod buddion budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a chynhyrchion. Mae'n rhoi cyfle i gyfnewid a thrafod gwybodaeth, gan fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd ar y cyd yr aelodau.
CHRhA	Data canfyddadwy hygyrch, rhyngweithredol ac ailddefnyddiadwy.
Chwiliad o'r Map Mynegai	Cais i ddarganfod a yw darn o dir wedi ei gofrestru ac, os ydyw, beth yw'r rhif teitl, o dan reol 145, Rheolau Cofrestru Tir 2003.
Chwiliad swyddogol	Mae'n cynnig modd i bobl megis prynwyr tai neu roddwyr benthyg morgeisi gael blaenoriaeth ar gyfer cwblhau eu pryniant, prydles neu bridiant cyn ceisiadau a gyflwynir wedi hynny.
Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo	Gwasanaeth sy'n cynnig modd i gwsmeriaid lawrlwytho copïau o'r crynodeb eiddo, cynllun teitl a chofrestr teitl ar gyfer eiddo yng Nghymru a Lloegr.
Darllenadwy gan beiriant	Data wedi ei strwythuro a'i godio mewn ffordd sy'n golygu y gellir ei ddarllen a'i brosesu gan gyfrifiadur.

Data agored	Data y gellir ei ddefnyddio, ei aildddefnyddio a'i ailddosbarthu gan unrhyw un yn rhad ac am ddim.
Data defnydd o dir ac eiddo	Setiau data am yr holl dir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr.
Deallusrwydd artifisial	Deallusrwydd a dysgu wedi eu harddangos gan beiriannau.
Digideiddio	Y broses o droi gwybodaeth yn ffurf ddigidol (darllenadwy gan gyfrifiadurol).
Digidol yn ddiofyn	Y sefyllfa bresennol ar gyfer cyflwyno ceisiadau i Gofrestrfa Tir EF, lle mai digidol yw'r opsiwn diofyn, boed hynny trwy'r porthol cwsmeriaid gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol neu ddefnyddio meddalwedd sy'n gysylltiedig â Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau Business Gateway.
Diweddarau cofrestr	Unrhyw gais i newid cofrestr y cyfan o deitl eiddo sy'n bodoli, gan gynnwys morgeisi newydd, newid enwau, trosglwyddiadau a rhyddhadau.
Dysgu peirianyddol	Astudio algorithmau cyfrifiadurol sy'n gallu gwella'n awtomatig trwy brofiad a thrwy ddefnyddio data.
Economi data	Ecosystem ddigidol fyd-eang lle mae data'n cael ei gasglu, ei drefnu a'i gyfnwio gan rwydwaith o werthwyr er mwyn cael gwerth o'r wybodaeth a gronwyd.
Fforwm Diwydiant y Gofrestrfa Tir	Trawstoriad o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn y farchnad eiddo sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r broses drawsgludo.
Geo-ofodol	Data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â lleoliad neu le penodol.
Geovation	Yr arfer o ddefnyddio data a deallusrwydd lleoliad i helpu i nodi cyfleoedd a chreu datrysiadau.
Grŵp Prynu a Gwerthu Tai	Cymysgedd anffurfiol o bobl ar draws y sectorau eiddo, cyfreithiol a chyllid sy'n cydweithio i wella'r broses prynu a gwerthu tŷ i ddefnyddwyr.
Gwasanaeth Cofrestru Digidol	Gwasanaeth porthol Cofrestrfa Tir EF sy'n cynnig modd i geisiadau gael eu cyflwyno'n ddigidol lle mae'r data'n cael ei wirio'n awtomatig cyn ei gyflwyno.
Gwasanaethau gwybodaeth warrantedig	Gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chanlyniadau sy'n dod â gwarant y wladwriaeth.
Gwasanaethau wedi eu cyflymu	Gall cwsmeriaid ofyn i Gofrestrfa Tir EF flaenoriaethu cais brys. Mae hon yn broses llwybr carlam ar gyfer ceisiadau preswyl a masnachol. Ein nod yw prosesu ceisiadau wedi eu cyflymu cyn belled ag y bo modd o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae hyn yn golygu, o fewn 10 diwrnod gwaith, y byddwn naill ai yn: — sicrhau bod yr eiddo wedi ei gofrestru'n llawn; neu'n — gofyn am wybodaeth y mae ei hangen gan drydydd partion eraill, gan gynnwys ar geisiadau cysylltiedig a dderbyniwyd yn flaenorol, cyn y gallwn gofrestru'r cais wedi ei gyflymu. Gall hyn fod oherwydd bod yn rhaid cofrestru cais cynharach yn gyntaf, neu oherwydd ein bod yn aros i eraill weithredu, megis rhoddwr benthyg, trawsgludwr neu sefydliad arall sy'n ymwneud â'r cais, i ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth, ymateb i ymholiad, neu ganiatáu i gyfnod rhybudd statudol neu gyfreithiol ddod i ben.
Gweld Ceisiadau	Gwasanaeth rhad ac am ddim o fewn porthol Cofrestrfa Tir EF sy'n cynnig modd i ddefnyddwyr weld yr holl geisiadau a wneir trwy ddefnyddio'r porthol, ynghyd â gweld statws a lawrlwytho'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â phob cais.
Gweld cofrestr	Gweld y fersiwn cyfredol o'r gofrestr.
Hunaniaeth ddigidol	Ffurf rithiol o hunaniaeth sy'n lleihau'r amser, yr ymdrech a'r gost a all fod yn gysylltiedig â rhannu dogfennau ffisegol pan fydd angen i bobl ddarparu prawf cyfreithiol o bwy ydyn nhw.

Hyb Mudo	Ffynhonnell ar-lein o arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol sy'n mudo eu data pridiannau tir lleol i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol.
MapSearch	Offeryn mapio ar-lein sy'n galluogi cwsmeriaid i sefydlu'n gyflym a yw tir ac eiddo yng Nghymru neu Loegr wedi ei gofrestru.
Pridiannau Tir	Buddion mewn tir digofrestredig a all gael eu gwarchod gan gofnod yn y Gofrestr Pridiannau Tir.
Rhaglen Cyflymydd Geovation	Y cynllun a gefnogir gan Gofrestrfa Tir EF a'r Arolwg Ordnans sy'n darparu cyllid grant, mynediad at ddata, arbenigedd technegol a chymorth busnes i fusnesau newydd Technoleg Eiddo a geo-ofodol.
Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau	Mae'n galluogi cwmnïau i agor eu data a swyddogaethau cymwysiadau i ddatblygwyr trydydd parti allanol, partneriaid busnes ac adrannau mewnol o fewn eu cwmnïau.
Safonau data cyffredin	Mae safonau data yn gosod dealltwriaeth glir a chyffredin o sut mae'n rhaid i'r llywodraeth ddisgrifio, cofnodi, storio, rheoli a chael mynediad at ddata mewn ffyrdd cyson.
Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol	Term a ddefnyddir i ddisgrifio prosesau, systemau, cyfleusterau, technolegau, rhwydweithiau, asedau a gwasanaethau sy'n hanfodol i iechyd, diogelwch, neu lesiant economaidd y genedl a gweithrediad effeithiol y llywodraeth.
Sero Net	Sicrhau cydbwysedd rhwng faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a faint sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer.
Strategaeth Ddata Genedlaethol	Strategaeth uchelgeisiol, sy'n annog twf ac yn ysgogi'r DU i adeiladu economi ddata sy'n arwain y byd gan sicrhau ffydd y cyhoedd yn y defnydd o ddata yr un pryd.
Strategaeth Geo-ofodol Genedlaethol	Hyrwyddo a diogelu'r defnydd o ddata lleoliad i ddarparu barn yn seiliedig ar dystiolaeth o werth marchnadol data lleoliad, gosod canllawiau clir ar gyfer mynediad at ddata, preifatrwydd, moeseg a diogelwch, a hyrwyddo'r defnydd gwell o ddata lleoliad. Mae'r Comisiwn Geo-ofodol yn berchen ar y strategaeth.
Technoleg Eiddo	Defnyddio technoleg i helpu unigolion a chwmnïau i ymchwilio, prynu, gwerthu a rheoli eiddo tiriog.
Teitl	Tystiolaeth o hawl rhywun i eiddo.
Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGA Cyfalaf, TGAC)	Buddsoddiad mewn meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol, offer TG ac ystadau.
Trawsnewid digidol	Cwmni sy'n mabwysiadu technoleg ddigidol. Y nodau cyffredin ar gyfer ei weithredu yw gwella effeithlonrwydd, gwerth neu arloesedd.
Uwch Dim Gweithredol	Y tîm gweithredol sy'n rheoli'r gwaith bob dydd o redeg Cofrestrfa Tir EF.
Y Stryd Ddigidol	Dull ymchwil a datblygu sy'n bodoli eisoes, gan gydweithio â chymuned gref o arweinwyr arloesedd, entrepreneuriaid ac aflonyddwyr creadigol i wthio ffiniau disgwyliadau'r farchnad eiddo.
Ymholiad/cais am wybodaeth	Lle mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EF wneud ymholiadau i'r ceisydd ynghylch cais oherwydd bod gwybodaeth neu dystiolaeth heb ei chyflwyno neu'n anghywir ac felly ni ellir prosesu'r cais.
Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth	Y camau y bydd adrannau llywodraeth y DU a'u hasiantaethau yn eu cymryd i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn y cyfnod 2021 i 2025.



Iain Banfield
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adran hon yn nodi aelodaeth allweddol o'n prif gyrff llywodraethu ac yn egluro eu cyfrifoldebau.

Ein strwythur llywodraethu

Mae system lywodraethu dwy haen gan Gofrestrfa Tir EF:

- Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (yn cynnwys aelodau bwrdd anweithredol a chyfarwyddwyr gweithredol). Fe'i cefnogir gan y:
 - Pwyllgor Archwilio a Risg
 - Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau
 - Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid
- Pwyllgor Gweithredol Cofrestrfa Tir EF

Mae'r strwythur hwn yn galluogi Aelodau Bwrdd Anweithredol i ddarparu her briodol i'r Tîm Gweithredol ac ar yr un pryd yn cynnig modd i'r Tîm Gweithredol wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch gweithrediad Cofrestrfa Tir EF o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Cysgodol yn parhau i fod yn rhan annatod o strwythur y Pwyllgor Gweithredol ac yn parhau i wella tryloywder llywodraethu ar draws y sefydliad.

Bwrdd Cofrestrfa Tir EF

Pwyllgor Archwilio a Risg

Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid

Pwyllgor Gweithredol

Pwyllgor Cysgodol

Pwyllgor Iechyd Corfforaethol

Pwyllgor Buddsoddi, Cyllid a Masnachol

Pwyllgor Rhaglen a Phortffolios

Bwrdd Cofrestrfa Tir EF

Amlinellir rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (y Bwrdd) yng nghylch gorchwyl y Bwrdd a'r Fframwaith cyhoeddedig. Adolygir y cylch gorchwyl bob blwyddyn. Adolygir y Fframwaith bob tair i bedair blynedd. Cyhoeddwyd Fframwaith wedi ei ddiweddarau ar 9 Chwefror 2026.

Pwmpas y Bwrdd yw cefnogi, herio'n adeiladol, dal yn atebol a chynghori'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Tîm Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth fusnes gytunedig ac yn sicrhau llywodraethu priodol ar gyfer gweithgareddau Cofrestrfa Tir EF. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i ysgogi gwelliant parhaus ar draws Cofrestrfa Tir EF mewn ffordd sy'n gynaliadwy dros y tymor hir ac sy'n rhoi gwerth i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cwsmeriaid a gweithwyr. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau, a'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau bwrdd anweithredol. Mae gan aelodau bwrdd anweithredol amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad perthnasol i gefnogi a herio'r Tîm Gweithredol.

Mae'r Aelodau Bwrdd Anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r bwrdd lofnodi datganiad blynyddol sy'n cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a datgan unrhyw fuddiannau newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Cedwir cofrestr ganolog o fuddiannau a'i rhannu'n flynyddol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar gais. Gweler nodyn 15 i'r cyfrifon ar dudalen 112 am ddatgeliadau partion cysylltiedig.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd bwrdd blynyddol, gydag adolygiad a hwylusir yn allanol bob tair blynedd. Cwblhawyd yr adolygiad allanol diwethaf yng Ngorffennaf 2022 gan Deloitte, a bydd yr adolygiad allanol nesaf a gynhelir gan RedQuadrant yn dod i ben yn hydref 2026. Cwblhawyd hunanwerthusiad bwrdd mewnol ym Mehefin 2025. Trafodwyd y canlyniadau yn y cyfarfod ar 1 Gorffennaf 2025, a rhoi'r camau gweithredu ar waith.

Aelodau Bwrdd yn y llun yw'r rhai oedd yn y swydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26.

Neil Sachdev



Cadeirydd Anweithredol

Ymunodd Neil â Chofrestrfa Tir EF yn 2022 fel Cadeirydd y Bwrdd. Yn Gadeirydd profiadol a Chyfarwyddwr Anweithredol, mae'n arwain Cyfoeth Naturiol Cymru, Cofrestrfa Tir EF, a'r East West Rail Company ar hyn o bryd, gan weithio ar draws seilwaith, yr amgylchedd, a thwf economaidd. Mae hefyd yn Gomisiynydd Anweithredol yn y Comisiwn Coedwigaeth, yn Aelod Bwrdd Forestry England, ac yn cadeirio Cyngor Llywodraethu Prifysgol Warwick. Mae ei yrfa weithredol yn cwmpasu rolau uwch yn Tesco a J Sainsbury, gan arwain rhaglenni eiddo, gweithrediadau a chynaliadwyedd. Cafodd Neil MBE am wasanaethau i effeithlonrwydd ynni ac mae'n adnabyddus am arweinyddiaeth a arweinir gan werthoedd ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Caroline Crowther a Charlotte Spencer



Aelodau Bwrdd Anweithredol

Ymunodd Caroline a Charlotte â Chofrestrfa Tir EF fel Aelodau Bwrdd Anweithredol yn Ebrill 2025, gan gynrychioli'r adran nawdd sef y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, lle maent yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr (rhannu swydd) ar gyfer Les-ddaliad, Rhentu Preifat a Digidol. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Cynllunio Digidol a nawdd uwch y Gwasanaeth Cynghori ar Les-ddaliad. Yn bartneriaid rhannu swydd er 2016, ymunon nhw â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2020 ar ôl gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr Strategaeth yn Defra cyn hynny. Mae gan Caroline dros 20 mlynedd o brofiad o weithio yn y gwasanaeth sifil ar draws y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gan gwmpasu polisi, deddfwriaeth ac economeg. Mae Charlotte wedi arwain gwaith polisi a chyflenwi ar draws sawl adran er 2005.

Iain Banfield

Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 1 Medi 2025) a Phrif Swyddog Ariannol (tan 31 Awst 2025)

Ymunodd Iain â Chofrestrfa Tir EF yn Chwefror 2019 fel Prif Swyddog Ariannol ac ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro. Cyn Cofrestrfa Tir EF, treuliodd dwy flynedd a hanner yn yr Adran Masnach Ryngwladol fel Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Cyllid Strategol a Chyfarwyddwr Cyllid Dros Dro. Yn was sifil er 2001, mae ei yrfa'n cwmpasu rolau yn UK Trade & Investment, y Weithrediaeth Cyfranddalwyr, a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, gan gwmpasu adolygiadau gwariant, cynllunio busnes, a rheolaeth ariannol. Mae Iain yn gyfrifydd sector cyhoeddus cymwysedig ac enillodd dwy brif wobwr CIPFA am ei berfformiad yn ei arholiadau terfynol.

Rommel Pereira

Aelod Bwrdd Anweithredol

Ymunodd Rommel Pereira â Chofrestrfa Tir EF fel Aelod Bwrdd Anweithredol yn Chwefror 2025 ac mae'n cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Aelod Bwrdd Anweithredol yn yr Archifau Gwladol ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn Supply Chain Coordination Limited ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Llundain. Mae gan Rommel brofiad uwch weithredol eang ar draws y sector bancio canolog, gwasanaethau ariannol, dielw a gwasanaethau busnes. Mae ganddo radd mewn Mathemateg ac yn Gyfrifydd Siartredig cymwysedig, gan ddod ag arbenigedd ariannol a dadansodol cryf i'w rolau llywodraethu. Mae ei brofiad helaeth ar draws y sector cyhoeddus a phreifat yn ei wneud yn ychwanegiad gwerthfawr at Fwrdd Cofrestrfa Tir EF.

Ann Henshaw

Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol

Ymunodd Ann â Bwrdd Cofrestrfa Tir EF yn 2021 ac mae'n gwasanaethu fel Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau. Mae ganddi arbenigedd helaeth ym maes Adnoddau Dynol(AD) sy'n cwmpasu sawl sector yn y DU ac yn rhyngwladol, ar ôl arwain busnes trawsnewid ac ymgynghori am 20 mlynedd a mwy. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr AD yn British Land, Cyfarwyddwr AD Grŵp yn Clear Channel International, a Chyfarwyddwr AD yn EDF Energy, gyda phrofiad pellach yn Vodafone, BUPA, JP Morgan Chase ac Equinix.

Dr Enda Ridge

Aelod Bwrdd Anweithredol

Mae Dr Enda Ridge yn Uwch Wyddonydd Data Staff yn Google Commerce, gan arwain tîm Gwyddor Data EFEA. Yn gyn Brif Wyddonydd Data yn Sainsbury's, sefydlodd ei dimau gwyddor data a dysgu peirianyddol cyntaf ac arweiniodd ei fudo cwmwl a thrawsnewidiad ystwyth. Mae ganddo brofiad ymgynghori gyda KPMG ac EY ac mae'n awdur cyhoeddedig ar weithrediadau tîm gwyddor data ac ymchwil wedi ei adolygu gan gyfoedion. Mae ganddo PhD mewn Cyfrifiadureg o Brifysgol Caereffrog a Baglor mewn Peirianeg Fecanyddol o Brifysgol Galway.

Deborah McLaughlin

Aelod Bwrdd Anweithredol

Ymunodd Deborah McLaughlin â Chofrestrfa Tir EF fel Aelod Bwrdd Anweithredol yn Chwefror 2025 ac mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Parth Datblygu Maerol Ashton a Chyfarwyddwr Anweithredol For Housing. Ym Mai 2025, penodwyd Deborah yn Gomisiynydd Llywodraeth Leol yng Nghyngor Spelthorne, gan arwain y gwaith Adfywio a Thai, ar ôl gwasanaethu cyn hynny ar ei Dîm Arolygu Gwerth Gorau. Treuliodd tair blynedd fel Comisiynydd Llywodraeth Leol yng Nghyngor Dinas Lerpwl gan ganolbwyntio ar eiddo ac adfywio. Mae ei gyrfa uwch weithredol yn cynnwys rolau fel Cyfarwyddwr Gweithredol yn Homes England, Rheolwr Gyfarwyddwr Eiddo Tiriog yn Capita, a Chyfarwyddwr Tai yng Nghyngor Dinas Manceinion.

Hena Jalil

Aelod Bwrdd Anweithredol

Ymunodd Hena Jalil â Chofrestrfa Tir EF fel Aelod Bwrdd Anweithredol yn Chwefror 2025. Yn dechnolegydd o ran cefndir, ar hyn o bryd mae'n Brif Swyddog Digidol a Gwybodaeth yn BT Business, lle mae'n arwain trawsnewid digidol, strategaeth dechnoleg, a gwelliannau profiad cwsmeriaid. Mae wedi cael sawl rôl Prif Swyddog Gwybodaeth ar draws BT Group ac Openreach, ac yn gynharach yn ei gyrfa bu'n gweithio yn y sector ynni a manwerthu trwy ymgynghoriaethau gan gynnwys Accenture a LogicaCMG. Mae gan Hena radd mewn Peirianeg a MBA o Brifysgol Warwick. Mae'n dod ag arbenigedd sylweddol mewn trawsnewid digidol ac arweinyddiaeth dechnoleg i Fwrdd Cofrestrfa Tir EF.

Aelodaeth BCT	
Anweithredol	
Neil Sachdev	Cadeirydd Anweithredol
Caroline Crowther a Charlotte Spencer	Aelodau Bwrdd Anweithredol
Ann Henshaw	Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau
Hena Jalil	Aelod Bwrdd Anweithredol (o Chwefror 2025)
Deborah McLaughlin	Aelod Bwrdd Anweithredol (o Chwefror 2025)
Rommel Pereira	Aelod Bwrdd Anweithredol (o Chwefror 2025)
Dr Enda Ridge	Aelod Bwrdd Anweithredol (o Chwefror 2025)
Gweithredol	
Iain Banfield	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro

Y flwyddyn mewn ffocws

Yn ystod 2025-26 roedd y materion a gafodd sylw gan BCT yn cynnwys:

- cynllunio busnes, dangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd am berfformiad;
- perfformiad gweithredol, gan gynnwys ôl-groniad ac allbwn;
- cyflenwi trawsnewid, gan gynnwys rheoli cyfathrebu cwsmeriaid a newid digidol;
- profiad, cwynion ac ymgysylltiad cwsmeriaid;
- strategaeth ffioedd a chodi tâl;
- cynllunio'r gweithlu, cyflenwi'r cynllun galluogrwydd a phobl;
- diwylliant, ymgysylltu a ffyrdd o weithio;
- risg, sicrwydd ac archwaeth risg, gan gynnwys seiber a thwyll;
- goruchwyliaeth ariannol, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol, archwiliad a chydymffurfiaeth;
- data, cywirdeb y gofrestr a strategaeth geo-ofodol;
- blaenoriaethau allanol, gan gynnwys yr agenda prynu a gwerthu tai;
- llywodraethu, effeithiolrwydd pwyllgorau a sicrwydd y Bwrdd; a
- pharhad busnes, diogelwch ac iechyd technoleg.

Cyfarfodydd Bwrdd

Cyfarfu BCT naw gwaith yn 2025-26 gyda chymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn swyddfeydd lleol Cofrestrfa Tir EF, a oedd hefyd yn cynnwys cyfle i Aelodau Bwrdd ymgysylltu â chydweithwyr yn y safleoedd. Yn Nhachwedd 2025, ymrwymodd y Bwrdd i ymweld â phob un o 14 swyddfa Cofrestrfa Tir EF yn 2026/27, trwy gyfarfodydd Bwrdd ac ymweliadau unigol gan aelodau bwrdd.

Ymgysylltu â budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan allweddol o sicrhau bod BCT yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ymgysylltu â Gweinidogion yn ein noddwyr yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Prif Swyddog Ariannol gyda thîm nawdd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol rhyngddynt, i drafod llywodraethu, perfformiad yn erbyn y cynllun busnes, a materion perthnasol eraill fel y'u nodir yn y Fframwaith.
- Ymgysylltodd aelodau'r Bwrdd â'u swyddogion cyfatebol yn adrannau eraill o'r llywodraeth gan gynnwys Trysorlys EF yn ôl yr angen.
- Cyfarfu aelodau'r Bwrdd â budd-ddeiliaid y farchnad sy'n aelodau o Grŵp Llywio'r Farchnad Eiddo Digidol, Cyngor Ymgynghorol y Gofrestrfa Tir a'r Fforwm Diwydiant, yn ogystal â chwsmeriaid sy'n mynychu ein Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid.

Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EF

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bum gwaith yn 2025-26. Mae'n cefnogi BCT a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir trwy oruchwylio effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, sicrwydd ac archwilio Cofrestrfa Tir EF. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd ac yn uwchgyfeirio materion y mae angen iddo roi sylw iddynt.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gweld adroddiad risg cyffredinol sy'n ymgorffori'r gofrestr risg ac adroddiadau manwl ar faterion megis seiberddiogelwch. Ym mhob cyfarfod mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiad Rheoli Risg mwy manwl o'r Prif Risgiau, felly mae'r holl brif risgiau'n cael eu hadolygu dros y flwyddyn.

Yn ystod 2025-26 roedd y materion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys:

- datblygu fframwaith risg a sicrwydd Cofrestrfa Tir EF, gan gynnwys archwaeth risg, tacsonomeg, mapio sicrwydd a chynllunio aeddfedrwydd;
- craffu ar brif risgiau ac archwiliadau dwfn o ansawdd y gofrestr, iechyd technegol, seiberddiogelwch, anghenion cwsmeriaid a chynaliadwyedd ariannol;
- goruchwylio archwilio mewnol, gan gynnwys y strategaeth, siarter, bydysawd archwilio, cynllun blynyddol a barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adolygu adroddiadau risg, sicrwydd a diogelwch chwarterol, gan gynnwys risgiau twyll a gweithgarwch gwrth-dwyll;
- goruchwylio trefniadau chwythu'r chwiban yn dilyn model y Gwasanaeth Sifil, gyda phryderon yn cael eu rheoli gan Swyddogion Enwebedig a'u monitro gan Hyrwyddwr y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg;
- herio dyfarniadau cyfrifyddu, y gronfa indemnïad, cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus a'r fframwaith ariannol;
- adolygu diweddariadau archwilio allanol, gan gynnwys

- adroddiadau cynllunio a datganiadau ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yr adroddiad llywodraethu, y gofrestr buddion a'r trefniadau atebolrwydd;
 - ystyried cwynion cwsmeriaid, casgliadau'r Adolygydd Cwynion Annibynnol ac ymateb Cofrestrfa Tir EF, gan gynnwys risgiau ehangach i gwsmeriaid a phroblemau gwasanaeth; ac
 - adolygu sicrwydd pensiynau a datgeliadau cysylltiedig yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg

Rommel Pereira	Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
Dr Enda Ridge	Aelod Bwrdd Anweithredol
Deborah McLaughlin	Aelod Bwrdd Anweithredol
Caroline Crowther*	Aelod Bwrdd Anweithredol
Elliot Jordan	Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mynychwyr rheolaidd

Stephen Aynsley-Smith	Prif Swyddog Ariannol Dros Dro (o 1 Medi 2025)
Emily d'Albuquerque	Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Data a Chywirdeb y Gofrestr
Iain Banfield	Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 1 Medi 2025) a Phrif Swyddog Ariannol (tan 31 Awst 2025)
Harnaik Dhillon	Pennaeth Archwilio Mewnol
Joanna Horrocks-Potts	Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd
Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

* Wedi ei ddirprwyo gan Gareth Caller, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ddwywaith yn 2025-26. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod trefniadau tâl ac enwebu yn ategu nodau Cofrestrfa Tir EF ac yn goruchwyllo prosesau recriwtio, cadw a pherfformiad y tîm gweithredol ac Uwch Weision Sifil eraill yn unol â pholisïau tâl y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod.

Yn ystod 2025-26 roedd y prif faterion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau yn cynnwys:

- perfformiad sefydliadol a pherfformiad y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir;
- perfformiad a thâl yr Uwch Wasanaeth Sifil;
- strwythur, datblygiad a chynllunio dilyniant uwch arweinwyr; ac
- adroddiadau am faterion rhyw a materion eraill yn ymwneud â'r bwloch cyflog.

Aelodaeth y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

Ann Henshaw	Cadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ac Aelod Bwrdd Anweithredol
Caroline Crowther	Aelod Bwrdd Anweithredol
Rommel Pereira	Aelod Bwrdd Anweithredol
Hena Jalil	Aelod Bwrdd Anweithredol
Iain Banfield	Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 1 Medi 2025) a Phrif Swyddog Ariannol (tan 31 Awst 2025)
Simon Hayes	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (tan 5 Medi 2025)

Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid

Cyfarfu'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid dair gwaith yn 2025-26. Yn dilyn yr Adolygiad Gofal Cwsmeriaid, ehangwyd ei gylch gwaith i oruchwyllo trawsnewid a gwelliant parhaus ar gyfer cwsmeriaid, cyflenwyr a chydweithwyr.

Yn 2025-26 adolygodd y Pwyllgor Newid y canlynol:

- goruchwyllo trawsnewid a chyflenwi portffolio;
- adolygu mapiau a cherrig milltir cyflenwi;
- clywed yn uniongyrchol gan gwsmeriaid ym mhob cyfarfod trwy'r eitem llais cwsmeriaid;
- llunio dylunio a chyflenwi strategol; a
- gwella'r ddarpariaeth i gwsmeriaid a gwasanaethau.

Aelodaeth y Pwyllgor Newid

Deborah McLaughlin	Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid
Caroline Crowther*	Aelod Bwrdd Anweithredol
Hena Jalil	Aelod Bwrdd Anweithredol
Dr Enda Ridge	Aelod Bwrdd Anweithredol
Mark Gray	Prif Swyddog Trawsnewid a Thechnoleg
Angie Clarkson	Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth
Abi Howarth	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cofrestru Tir

* Wedi ei ddirprwyo gan Rachel Rayner, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Manylion Presenoldeb ar gyfer Aelodau BCT, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau a'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Newid.

Enw	Teitl	Cyfnod ¹	Bwrdd BCT	Pwyllgor		
				Archwilio	Tâl	Cwsmeriaid a Newid
Aelodau bwrdd anweithredol						
Neil Sachdev	Cadeirydd Anweithredol		9/9	–	–	–
Ann Henshaw	Aelod Bwrdd Anweithredol		9/9	–	2/2	2/3
Caroline Crowther/ Charlotte Spencer ²	Aelod Bwrdd Anweithredol		8/9	4/4 (Gareth Caller 2/4)	2/2	3/3 (Rachel Rayner 2/3)
Hena Jalil	Aelod Bwrdd Anweithredol		9/9	–	2/2	3/3
Deborah McLaughlin	Aelod Bwrdd Anweithredol		9/9	1/2	–	3/3
Rommel Pereira	Aelod Bwrdd Anweithredol		9/9	4/4	1/2	–
Dr Enda Ridge	Aelod Bwrdd Anweithredol		9/9	4/4	–	1/1
Elliot Jordan	Aelod Bwrdd Anweithredol	Tan Orffennaf 2025	2/2	1/1	–	–
Angela Morrison	Aelod Bwrdd Anweithredol	Tan Ebrill 2025	–	–	–	–
Kirsty Cooper	Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol	Tan Ebrill 2025	–	–	–	–
Cyfarwyddwyr gweithredol						
Iain Banfield ³	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro a Phrif Swyddog Ariannol		9/9	4/4	1/1	–
Emily d'Albuquerque	Cwmsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Data a Chywirdeb y Gofrestr		8/9	4/4	–	–
Abi Howarth	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cofrestru Tir		8/9	–	–	3/3
Mark Gray	Prif Swyddog Trawsnewid a Thechnoleg		9/9	–	–	3/3
Stephen Anysley- Smith	Prif Swyddog Ariannol Dros Dro	O Fedi 2025	6/6	3/3	–	–
Angie Clarkson	Cyfarwyddwr Dros Dro, Cwsmeriaid a Strategaeth	O Ragfyr 2025	3/3	–	–	1/1
Emily Hobbs	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	O Chwefror 2026	2/2	–	–	–
Simon Hayes ⁴	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	Tan Fedi 2025	3/3	1/1	1/1	–
Mike Harlow ⁴	Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir	Tan Ionawr 2026	5/5	–	–	2/2
Rebecca Bishop	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol		7/8	–	–	–

1 Mae'r penodiad yn berthnasol i'r flwyddyn adrodd gyfan oni nodir fel arall.

2 Mae presenoldeb yn cynrychioli aelodau a dirprwyon.

3 Roedd Iain Banfield yn aelod bwrdd llawn yn ei rolau fel Prif Swyddog Ariannol (tan Awst 2025) a Phrif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o Fedi 2025).

4 Roedd Simon Hayes a Mike Harlow yn aelodau llawn am y cyfnod cyn iddynt adael Cofrestrfa Tir EF.

Roedd cyfarwyddwyr gweithredol eraill yn fynychwyr Bwrdd Cofrestrfa Tir ac yn bresennol ar gyfer eitemau perthnasol yn unig.

Pwyllgor Gweithredol

Mae strwythur llywodraethu mewnol Cofrestrfa Tir EF yn cynnwys y Pwyllgor Gweithredol sy'n cwrdd ddwywaith y mis dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys y Tîm Gweithredol ac aelodau o'r tîm Uwch Weision Sifil, trwy adrodd yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gwasanaethu fel pwyllgor gwneud penderfyniadau gweithredol Cofrestrfa Tir EF, gan sicrhau cyfatebiaeth â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Bwrdd. Mae'n darparu arweinyddiaeth strategol, yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i atebolrwydd statudol, ac yn goruchwyllo perfformiad sefydliadol, perfformiad ariannol a phrif risgiau o fewn ei gyllideb ddirprwyedig.

Cyfarwyddwyr gweithredol Cofrestrfa Tir EF	
Iain Banfield	Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 1 Medi 2025) a Phrif Swyddog Ariannol (tan 31 Awst 2025)
Stephen Aynsley-Smith	Prif Swyddog Ariannol (o 1 Medi 2025)
Emily d'Albuquerque	Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Data a Chywirdeb y Gofrestr
Angie Clarkson	Cyfarwyddwr, Cwsmeriaid a Strategaeth (o 1 Rhagfyr 2025)
Abi Howarth	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cofrestru Tir
Mark Gray	Prif Swyddog Trawsnewid a Thechnoleg
Emily Hobbs	Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol (o Chwefror 2026)
Simon Hayes	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (tan 5 Medi 2025)
Mike Harlow	Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth (tan 31 Ionawr 2026)
Rebecca Bishop	Cyfarwyddwr Dros Dro, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol (tan 28 Chwefror 2026)

Cyrff llywodraethu gweithredol eraill

Mae cyrff llywodraethu ffurfiol eraill yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol sef:

- Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid;
- Pwyllgor Rhaglen a Phortffolio;
- Pwyllgor Iechyd Corfforaethol.

Mae'r cyrff llywodraethu ffurfiol yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gweithredol ar ôl pob cyfarfod. Mae aelodaeth o'r cyrff hyn yn cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r cyrff hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan nifer o weithgorau ar eitemau penodol megis amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch, gwrth-dwyll a diogelwch a gwytnwch.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn parhau i gael ei gefnogi gan y Pwyllgor Cysgodol, gyda'r nod o barhau i wella tryloywder llywodraethu a bod yn agored ar draws y sefydliad. Mae Aelodau'r Pwyllgor Cysgodol yn

cynnwys cydweithwyr o bob gradd, swyddfa a maes swyddogaethol ar draws Cofrestrfa Tir EF. Mae'r Pwyllgor Cysgodol yn adolygu'r un papurau â'r rhai a ystyrir yn y Pwyllgor Gweithredol ac mae'r Cadeiryddion yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol ac yn cynrychioli barn y grŵp, gan godi pryderon a/neu ddarparu cefnogaeth mewn perthynas â'r eitemau a drafodir.

Digwyddiadau diogelwch

Mae Tîm Diogelwch Cofrestrfa Tir EF yn darparu goruchwyliaeth, arweiniad a sicrwydd ar draws pob agwedd ar ddiogelwch sefydliadol. Mae ei rôl yn canolbwyntio ar osod polisi a disgwyliaidau clir, monitro cydymffurfiaeth, a darparu barn annibynnol ar y sefyllfa ddiogelwch gyffredinol, yn unol â Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS 007 – Diogelwch.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y tîm wedi parhau i roi sicrwydd annibynnol i uwch fforymau llywodraethu, gan gynnwys y Pwyllgor Iechyd Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd adrodd wedi canolbwyntio ar fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, effeithiolrwydd rheoli a meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Roedd y tîm hefyd wedi cefnogi gweithgareddau sicrwydd allweddol y llywodraeth, gan gynnwys yr Archwiliad Iechyd Diogelwch Adrannol ac adolygiad blynyddol GovAssure, gan gynnal ardystiad i ISO/IEC 27001:2022.

Cafodd cyfanswm o 81 o ddigwyddiadau diogelwch eu hadrodd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys 32 o ddigwyddiadau ffisegol a 49 o ddigwyddiadau seiber-gysylltiedig.

Cafodd pob digwyddiad ffisegol ei asesu fel un effaith isel. Roedd y rhain yn cynnwys materion megis bylchau dros dro yn y ddarpariaeth Swyddogion Diogelwch, methiannau i ddilyn gweithdrefnau cloi adeiladau, problemau gyda rheoli cardiau ymwelwyr, a gwendidau rheoli mynediad unigol. Er nad oedd yr un ohonynt wedi arwain at golli neu beryglu asedau neu wybodaeth, maent wedi llywio ymgysylltiad parhaus â Rheoli Cyfleusterau a phartneriaid darparu gwasanaethau i gryfhau rheolaethau lleol a chysondeb ymarfer.

Roedd digwyddiadau seiberddiogelwch yn cynnwys 18 o ddigwyddiadau effaith isel a 31 o ddigwyddiadau effaith ganolig. Roedd y rhain yn adlewyrchu amrywiaeth o broblemau diogelwch cyffredin, gan gynnwys colli asedau ffisegol, ymdrechion i gael mynediad heb awdurdod, a mân wendidau system, a rheolwyd pob un ohonynt yn effeithiol trwy reolaethau sefydledig a phrosesau ymateb. Ymdriniwyd â phob digwyddiad yn unol â gweithdrefnau ymateb diffiniedig, gydag ymchwilio, cyfyngu ac adfer priodol. Ni arweiniodd unrhyw ddigwyddiadau at darfu sylweddol neu barhaol ar wasanaethau.

Ar draws y ddau faes ffisegol a seiber, mae nifer y digwyddiadau yn parhau i fod yn gyson ag amgylchedd gweithredu a phroffil risg y sefydliad. Mae'r themâu a nodwyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymddygiad defnyddwyr, dilyn gweithdrefnau sefydledig a'r defnydd cyson o reolaethau. Mae dysgu o ddigwyddiadau yn parhau i lywio gwelliannau wedi eu targedu, cryfhau mesurau ataliol, a chefnogi diwylliant diogelwch mwy rhagweithiol ac ymwybodol o risg ar draws y sefydliad.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol
Mae'n ofynnol i bob adran o'r llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth am achosion o dor diogelwch data personol sy'n bodloni'r trothwy risg ar gyfer hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG).

Yn ystod cyfnod adrodd 2025-26, roedd Cofrestrfa Tir EF wedi hysbysu SCG am un achos o dor diogelwch data personol. Roedd SCG wedi ystyried yr hysbysiad a phenderfynu nad oedd angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Cyfrifon adnoddau

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys Ei Fawrhydi wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EF i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion am yr adnoddau sy'n cael eu caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr adran, ei hincwm a'i gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol

amdano, am gadw cofnodion priodol, a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EF, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF. Defnyddiwyd yr holl wariant at y diben a fwriadwyd gan y Senedd.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EF yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Datganiad llywodraethu

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EF rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EF, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EF.

Cefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro o 1 Medi 2025. Rwyf wedi derbyn llythyr penodi gweinidogol yn unol â Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EF, yn fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn Adran Anweinidogol. Amlinellir fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yn Rheoli Arian Cyhoeddus, sef sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cyfrifir yn briodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r prif ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chynnal y cofrestr a ddelir gan Gofrestrfa Tir EF i'w gweld yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Ddeddf Pridiannau Tir 1972, a Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EF yn cyflawni ei dyletswyddau mewn modd sy'n bodloni'r safonau priodol o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol yn effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n nodi a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflenwi strategaeth Cofrestrfa Tir EF, ei hamcanion strategol a thargedau perfformiad. Mae'n cyfateb â'n dyletswyddau statudol ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi nodau strategol a llywodraethu adran nawdd Cofrestrfa Tir EF. Rhoddir manylion am ddulliau llywodraethu Cofrestrfa Tir EF a'i pherthynas â chyrff eraill y llywodraeth mewn Fframwaith wedi ei gytuno gyda'r Gweinidogion.

Cymeradwywyd Fframwaith diwygiedig gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EF a'i gyhoeddi ar 9 Chwefror 2026. Mae ein dull llywodraethu yn unol â Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da Trysorlys EF.

Rheolaethau canolog

Cyfeirir at fy rôl fel Prif Gofrestrydd Tir yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Ddeddf Pridiannau Tir 1972, Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928 a Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gadw'r cofrestr hynny a sefydlwyd at ddibenion y Ddeddfau hynny, ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a orfodir ar y Cofrestrydd gan y Ddeddfau hynny a chan y rheolau ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir oddi tanynt. Wrth gyflawni'r swyddogaethau statudol penodol hynny nid yw'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ddarostyngedig i unrhyw reolaeth neu gyfarwyddyd gweinidogol. Mae'r swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys.

Wrth reoli ei busnes yn fwy cyffredinol, mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu o fewn y fframwaith dirprwyaethau fel y'i diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys EF a'r Fframwaith.

Mae safonau swyddogaethol y llywodraeth yn arwain pobl sy'n gweithio i a gyda llywodraeth y DU ac yn hyrwyddo ffyrdd cyson a chydlynol o weithio. Mae Cofrestrfa Tir EF wedi ymgorffori safonau swyddogaethol perthnasol y llywodraeth ac yn gweithredu system i fonitro cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus.

Rheoli risg a sicrwydd

Ein hymagwedd at reoli risg

Mae rheoli risg yn rhan annatod o fframwaith rheolaeth fewnol Cofrestrfa Tir EF. Mae'n ein helpu i nodi, asesu a rheoli'n effeithiol risgiau i gyflenwi ein Strategaeth, Cynllun Busnes a swyddogaethau statudol, gan gefnogi gwneud penderfyniadau cymesur a'r defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

Mae ein Polisi Risg a Sicrwydd yn amlinellu ymagwedd gyson at reoli risg ac yn hyrwyddo perchnogaeth glir ar draws y sefydliad. Rheolwyd risgiau trwy ddull rheoli risg menter, gyda hierarchaeth o brif risgiau, risgiau corfforaethol a grŵp, risgiau rhaglen a risgiau gweithredol. Mae hyn yn cynnig modd rheoli risgiau ar y lefel gywir a'u huwchgwyfeirio lle gallent effeithio ar gyflenwi ein hamcanion strategol neu lle mae angen camau gweithredu uwch.

Mae gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EF oruchwyliaeth gyffredinol dros brif proffil risg ac archwaeth risg Cofrestrfa Tir EF. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n darparu craffu a her dros effeithiolrwydd rheoli risg, sicrwydd a rheolaeth fewnol. Mae Pwyllgorau Gweithredol yn gyfrifol am adolygu a rheoli prif risgiau, cytuno ar gamau lliniaru a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol o fewn yr archwaeth.

Caiff y prif risgiau eu hadolygu'n rheolaidd gyda pherchnogion risg a thrwy uwch lywodraethwyr. Mae adolygiadau'n ystyried y sefyllfa risg bresennol, cyfeiriad y daith, y sefyllfa archwaeth, effeithiolrwydd rheolaeth, gweithgarwch sicrwydd ac unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd. Mae rhagor o fanylion am ein prif risgiau ar gyfer 2025-26 wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad.

Y Llyfr Oren: egwyddorion rheoli risg

Datganiad cydymffurfio neu egluro

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio'n sylweddol â phum egwyddor Llyfr Oren Trysorlys EF: Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau: llywodraethu ac arweinyddiaeth; integreiddio; cydweithio a gwybodaeth; prosesau; a gwelliant parhaus.

Mae ein fframwaith rheoli risg yn cyfateb â'r Llyfr Oren ac wedi ei ategu gan Fframwaith Rheoli Risg y llywodraeth, gyda sicrwydd wedi ei lywio gan Gyfeirlyfr Sicrwydd y llywodraeth Ganolog. Yn ystod 2025-26, rydym wedi parhau i ymgorffori'r egwyddorion hyn trwy ein trefniadau llywodraethu, risg a sicrwydd.

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd Cofrestrfa Tir EF yn gosod y tôn ar gyfer rheoli risg effeithiol, gydag atebolrwydd clir am berchnogaeth, goruchwyliaeth ac uwchgwyfeirio prif risgiau. Mae cyfrifoldebau rheoli risg wedi eu hymgorffori o fewn strwythurau llywodraethu, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n darparu cyngor, craffu a her annibynnol. Mae

arweinyddiaeth yn hyrwyddo diwylliant sy'n ymwybodol o risg sy'n gyson â gwireddu amcanion Cofrestrfa Tir EF.

Integreiddio

Mae rheoli risg wedi ei integreiddio i gynllunio strategol, busnes ac ariannol, rheoli perfformiad a gwneud penderfyniadau. Ystyrir risgiau wrth osod blaenoriaethau, datblygu polisïau a rhaglenni, a rheoli newid, gan sicrhau bod risg a chyfle yn cael eu hasesu ochr yn ochr ag amcanion cyflawni.

Cydweithio a gwybodaeth

Mae gwybodaeth am risgiau yn dod o bob rhan o'r sefydliad a, lle bo'n berthnasol, o berthnasoddd allanol er mwyn rhoi darlun agrededig o'r proffil risg. Mae adrodd am risg yn cefnogi trafodaeth wybodus gan uwch reolwyr a'r Bwrdd, gan alluogi uwchgwyfeirio ac ystyriaeth amserol o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau trawsbynciol.

Prosesau

Mae gan Gofrestrfa Tir EF brosesau wedi eu diffinio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau, wedi eu cefnogi gan reolaethau cymesur ac wedi eu cyfateb â'n harchwaeth risg. Mae'r prosesau hyn yn cael eu cymhwyso ar draws y sefydliad a'u cefnogi gan weithgarwch sicrwydd ar draws y dull Tair Llinell, gan helpu i sicrhau bod rheolaethau allweddol yn gweithredu fel y bwriedir.

Gwelliant parhaus

Defnyddiwn sicrwydd, casgliadau archwilio, adolygiadau rheoli a gwersi a ddysgwyd o brofiad i wella effeithiolrwydd ac aeddfedrwydd ein fframwaith rheoli risg. Caiff cynlluniau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch sicrwydd eu monitro trwy drefniadau llywodraethu sefydledig. Mae gwaith pellach yn parhau i gryfhau dysgu gwersi, mapio sicrwydd a galluogrwydd risg ar lefelau gweithredol.

Rheoli a sicrhau risg

Mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio'r dull Tair Llinell i gefnogi perchnogaeth glir, goruchwyliaeth a sicrwydd annibynnol.

O dan y dull hwn:

- mae rheolwyr Llinell Gyntaf yn berchen ar ac yn rheoli risgiau, rheolaethau a chamau gweithredu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb;
- mae swyddogaethau Ail Linell yn darparu cyngor, goruchwyliaeth, her a sicrwydd ar gyfer gweithrediad y fframwaith, gan gynnwys ansawdd gwybodaeth risg, dylunio rheolaethau ac adrodd; a
- darperir sicrwydd Trydedd Llinell trwy Archwilio Mewnol, sy'n rhoi sicrwydd annibynnol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi uwchgwyfeirio effeithiol ac yn helpu i sicrhau bod uwch gyrrff llywodraethu yn derbyn sicrwydd priodol ar gyfer rheoli risgiau allweddol.

Ein harchwaeth am risg

Mae ein datganiadau archwaeth risg yn nodi faint o risgiau a'r math o risg y mae Cofrestrfa Tir EF yn fodlon ei chymryd wrth gyflawni ei hamcanion. Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau cymesur trwy egluro ble y dylem fod yn fwy gofalus a ble y gallwn gymryd risg wedi ei rheoli i wella gwasanaethau, cyflenwi newid a gwireddu gwerth.

Yn Chwefror 2026, diwygiwyd y datganiadau er mwyn galluogi a diogelu'r sefydliad yn well wrth iddo gyflawni mwy o newid, ar gyflymder, mewn amgylchedd cymhleth ac ansicr.

Mae'r datganiadau diwygiedig yn cydnabod bod Cofrestrfa Tir EF yn agored i fanteisio ar fwy o gyfleoedd ac arloesedd. Mae hefyd yn cydnabod y gall osgoi risg ei hun leihaus ein gallu i wella gwasanaethau, ymateb i anghenion sy'n newid a sicrhau canlyniadau strategol.

Rydym wedi cadw archwaeth risg isel mewn meysydd a allai effeithio ar gywirdeb y cofrestr, twyll, diogelwch, seiber-wydnwch, cydymffurfiaeth statudol a ffydd y cyhoedd. Mae'r meysydd hyn yn hanfodol i'n rôl a'n henw da ac yn gofyn am reolaethau a goruchwyliaeth gref.

Lle mae'r rhwymedigaethau craidd hyn wedi eu diogelu, derbyniwn fod rhywfaint o risg wedi ei rheoli yn ofynnol er mwyn moderneiddio'r sefydliad, gwella gwasanaethau, defnyddio data yn effeithiol a chyflenwi canlyniadau gwell. Caiff risgiau eu hasesu trwy ddefnyddio tebygolrwydd ac effaith, gydag archwaeth yn cael ei defnyddio i benderfynu a yw'r sefyllfa risg weddilliol yn oddefadwy neu a oes angen cymryd camau pellach, uwchgyfeirio neu sicrwydd.

Effeithiolrwydd y fframwaith risg a sicrwydd

Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am gynnal ac adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol Cofrestrfa Tir EF. Roedd y system hon yn gweithredu trwy gydol 2025-26 ac wedi ei llywio gan amrywiaeth o ffynonellau sicrwydd, gan gynnwys goruchwyliaeth weithredol, adrodd ar risg, archwilio mewnol, archwilio allanol, sicrwydd rheoli, adrodd am berfformiad a gwaith uwch arweinwyr sydd â chyfrifoldebau swyddogaethol.

Mae gan Gofrestrfa Tir EF fframwaith o lywodraethu, gweithdrefnau a rheolaethau sy'n cwmparu gweithgarwch ariannol ac anariannol. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau dros gyllid, cyflenwi gweithredol, cywirdeb y gofrestr, diogelwch gwybodaeth, cyflenwi newid, pobl, data, parhad busnes a gwrth-dwyll. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n gyson trwy oruchwyliaeth reoli, gweithgarwch sicrwydd ac archwilio mewnol.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EF, Pwyllgorau Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu craffu annibynnol ar lywodraethu, rheoli risg, sicrwydd a rheolaeth fewnol. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar y prif broffil risg, gweithgarwch archwilio mewnol, casgliadau sicrwydd, gwrth-dwyll, seiberddiogelwch a'r amgylchedd rheoli. Mae'r pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod, gan gefnogi goruchwyliaeth y Bwrdd o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg.

Mae Pwyllgorau Gweithredol yn adolygu perfformiad cyflenwi, rheolaeth ariannol, cynlluniau strategol a rheoli prif risgiau. Mae adrodd am brif risgiau yn ystyried y sefyllfa risg gyfredol, symudiad yn ystod y flwyddyn, y sefyllfa archwaeth, effeithiolrwydd rheolaeth, gweithgarwch sicrwydd ac unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd. Mae hyn yn cefnogi uwchgyfeirio amserol ac yn helpu i sicrhau bod risgiau'n cael eu hystyried ochr yn ochr â phenderfyniadau perfformiad a chyflenwi.

Yn ystod 2025-26, roedd Cofrestrfa Tir EF wedi parhau

i gryfhau ei threfniadau risg a sicrwydd. Roedd hyn yn cynnwys gwella adrodd am brif risgiau, cynyddu archwaeth am risg er mwyn galluogi mwy o ddefnydd o gyfleoedd/arloesedd, cryfhau adolygiad a her Ail Linell, a datblygu'r defnydd o fapio sicrwydd i ddeall yn well y ddarpariaeth ar draws rheolaethau a risgiau allweddol.

Mae'r map sicrwydd yn rhoi golwg ehangach ar yr amgylchedd risg, rheolaeth a sicrwydd. Mae'n helpu i nodi lle mae sicrwydd ar gael, lle y gall fod bylchau neu ddyblygu, a ble y gallai fod angen mwy o weithgarwch sicrwydd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull hwn yn ystod 2026-27 i gefnogi golwg fwy integredig o weithgarwch sicrwydd wedi ei gynllunio ar draws yr Ail a'r Drydedd Linell, cryfhau hyder mewn rheolaethau allweddol a gwella ansawdd adrodd i uwch swyddogion llywodraethu.

Parhad busnes

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cynnal trefniadau parhad busnes i gefnogi gwydnwch gweithredol ac ymateb effeithiol i darfu ar wasanaethau. Rheolir y trefniadau hyn ar draws y sefydliad, gyda meysydd busnes yn gyfrifol am gynnal cynlluniau ar gyfer eu gwasanaethau a'u swyddogaethau.

Mae ein trefniadau rheoli digwyddiadau yn defnyddio strwythur gorchymyn Aur, Arian ac Efydd i ddarparu ymateb strategol, tactegol a gweithredol clir yn ystod unrhyw darfu. Defnyddir y gwersi a ddysgwyd o ymarferion a digwyddiadau i wella cynlluniau, egluro rolau a chryfhau ein gallu i ymateb ac adfer.

Ystyrir risgiau a gwersi parhad busnes trwy fframwaith risg corfforaethol a llwybrau llywodraethu perthnasol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynllunio parhad yn parhau i gyfateb â'n gwasanaethau, dibyniaethau a risgiau strategol pwysicaf.

Yn ystod 2025-26, rydym wedi parhau i ddatblygu ein System Rheoli Parhad Busnes a threfniadau ymateb i ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer ymhellach ein trefniadau Gorchymyn Aur ac Arian, parhau i adolygu cynlluniau parhad busnes a gwaith i gryfhau cynllunio adfer seiber a tharfu gweithredol.

Adrodd am berfformiad

Rwy'n derbyn adroddiadau ariannol misol gan y Prif Swyddog Ariannol ac yn cynnal cyfarfodydd un-i-un rheolaidd â Chadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EF.

Rwy'n derbyn gwybodaeth gyson am berfformiad sefydliadol, a gyflwynir yn fisol i'r Pwyllgor Gweithredol i'w hadolygu. Fel y nodir yn adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol, mae ein fframwaith perfformiad ar gyfer 2025-26 yn cynnwys naw dangosydd perfformiad allweddol sy'n darparu cerdyn sgorio cytbwys ar draws effeithiau gweithredol, ariannol, pobl a chwsmeriaid yr hyn a wnawn.

Bob mis, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn derbyn data ar gyflenwi gwasanaethau ochr yn ochr â gwybodaeth reoli sy'n hanfodol i fusnes. Darperir lefelau priodol o wybodaeth reoli hefyd i bwyllgorau allweddol eraill ac i reolwyr ar draws y sefydliad. Mae tîm dadansoddi pwrpasol gan Gofrestrfa Tir EF sy'n sicrhau ansawdd y wybodaeth reoli hon. Adroddir data perfformiad yn rheolaidd i Fwrdd Cofrestrfa Tir EF. Adolygir perfformiad sefydliadol hefyd bob chwe mis gan y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau. Bob chwarter rwyf fi, ac uwch gydweithwyr eraill, yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd ac uwch swyddogion y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a

Llywodraeth Leol lle rydym yn adolygu perfformiad gweithredol, ariannol a strategol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol Cysgodol yn parhau i ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o wahanol rolau, cyfrifoldebau a lleoliadau o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r Pwyllgor Gweithredol Cysgodol yn adolygu ac yn herio'r un data perfformiad a rennir gyda'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Pwyllgorau Cysgodol wedi bod yn gyfle gwerthfawr i brofi eglurder gwybodaeth, gwneud penderfyniadau ac anfon negeseuon gyda chynulleidfia fewnol ehangach. Rwyf i, ochr yn ochr â'r Tîm Gweithredol, yn teithio'n rheolaidd i swyddfeydd Cofrestrfa Tir EF i rannu data perfformiad allweddol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chydweithwyr yn y swyddfeydd lleol.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae Grŵp Goruchwyllo Modelu a Chymorth i Wneud Penderfyniadau pwrpasol, sy'n adrodd i'r Pwyllgor lechyd Corfforaethol, yn darparu goruchwyliaeth a her berthnasol i'n modelau busnes hanfodol. Defnyddiwn strwythurau perchnogaeth a dogfennaeth sicrhau ansawdd sy'n cydymffurfio â Llyfr Aqua. Yn yr un modd, rydym yn datblygu dulliau arfarnu, monitro a gwerthuso yn unol â'r Llyfrau Gwyrdd a Magenta.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd yn fisol i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol ac yn rhoi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Pwyllgor Gweithredol a BCT. Mae BCT yn adolygu cyllid, perfformiad a chynnydd risg ym mhob cyfarfod Bwrdd.

Rwyf wedi adrodd i'r gweinidogion a'r uwch swyddogion yn ein hadran nawdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod cynnydd Cofrestrfa Tir EF yn erbyn amcanion strategol a meysydd eraill o bryder. Rwyf wedi cwrrd ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allanol er mwyn deall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol.

Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Ariannol, ynghylch caffaeliadau penodol, fod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â rheoliadau caffael a chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF, a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r rhain a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EF.

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid (PBMCh) yn gyfrifol am gymeradwyo contractau sy'n werth dros £1m ac yn cynghori ar gymeradwyo achosion buddsoddi sy'n ddarostyngedig i Reolaeth Gwariant Masnachol Swyddfa'r Cabinet. Ni chafodd Cofrestrfa Tir EF unrhyw heriau cyfreithiol i ymarferion caffael yn 2025-26.

Mae gan bob contract Uwch Berchennog Cyfrifol ar lefel UWS, y mae ei ddirprwyaethau'n cael eu hamlinellu'n ffurfiol bob blwyddyn ynghyd â chyfrifoldebau ei reolwyr contract. Rydym yn parhau i fonitro sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr ar gyfer ein contractau mwyaf hanfodol i fusnes a monitro'r gwaith o gwblhau cynlluniau parhad busnes, busnes wrth gefn ac ymadael ar gyfer y contractau hyn. Fel rhan o'n sicrwydd sefydliadol, gweithredwn raglen dreigl o wiriadau lechyd Contractau ar gyfer ein contractau mwyaf hanfodol i fusnes. Mae'r PBMCh hefyd yn goruchwyllo casgliadau'r adolygiadau archwilio lechyd Contractau hyn.

Rydym wedi cydymffurfio a byddwn yn parhau i gydymffurfio â gofynion tryloywder Deddf Caffael 2023 a byddwn yn defnyddio'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol ar gyfer caffaeliadau perthnasol.

Rydym yn asesu ac yn meincnodi ein harferion masnachol yn erbyn arferion da gan ddefnyddio Fframwaith Asesu Gwelliant Masnachol Parhaus Swyddfa'r Cabinet sy'n cwmparu holl Safonau Swyddogaethol Masnachol Parhaus y Llywodraeth (GovS 008). Mae ein sgôr o 81.2% yn ein rhoi ni yn y Sgôr Aeddfedrwydd 'Gwell'. Adroddwn ar ein cynnydd yn erbyn y safonau i Swyddfa'r Cabinet yn flynyddol ac mae Cynllun Gwella Parhaus gennym i gynyddu ein haeddfedrwydd yn erbyn y themâu allweddol. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni achredu Rheoli Contractau Swyddfa'r Cabinet, ac mae mwy na 150 o staff wedi cwblhau achrediad y Sefydliad Rheoli Contractau.

Archwilio Mewnol a barn

Cadarnhawyd bod gan Gofrestrfa Tir EF fframwaith dibynadwy ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol. Mae'r amgylchedd risg yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a'r rheolaethau'n cael eu profi ar gyfer cyflawnrwydd a digonolrwydd. Roedd gweithgarwch archwilio wedi nodi rhai materion rheolaeth ond nid oedd unrhyw dueddiadau arwyddocaol neu sylweddol o ran methiannau rheolaeth. Mae'r sefydliad yn parhau i drawsnewid i fod yn fusnes mwy digidol ac awtomataidd ac mae prosesau archwilio mewnol yn parhau i ddatblygu er mwyn ateb yr anghenion newidiol hyn. Y meysydd penodol i'w monitro yw bygythiadau seiberddiogelwch parhaus a llywodraethu technolegau newydd a deallusrwydd artiffisial. Mae'r argymhelliad cyffredinol ar gyfer y sgôr Archwilio Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn parhau i fod yn Gymedrol ac nid yw wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

Sicrwydd parhaus

Gallaf gadarnhau bod y rheolaethau mewnol y cyfeirir atynt trwy'r Datganiad Llywodraethu hwn yn parhau yn eu lle. Caiff rheolaethau eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siwr eu bod yn cyfateb ag arferion gorau'r Llywodraeth, fel rhan o'r ymarferion sicrwydd a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.



Iain Banfield

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Adroddiad atebolrwydd seneddol

1. Adroddiad tâl

Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil (UWS) yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell unigolion sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw gweithwyr;
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau adrannol;
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a roddir iddo ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EF i gytuno ar gyflog y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn unol â pharamedrau Canllawiau Cyflog y Gwasanaeth Sifil. Mae Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau Cofrestrfa Tir EF, yn gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EF, yn ystyried argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn nodi'r strategaeth dâl flynyddol (gan gynnwys tâl sylfaenol, codiadau cyflog, bylchau cyflog a thâl perfformiad) ar gyfer y tîm gweithredol a staff UWS eraill o fewn Cofrestrfa Tir EF.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn <https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management>

Yn ystod y flwyddyn, aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol Ann Henshaw (Cadeirydd), Rommel Pereira, Hena Jalil, Caroline Crowther, Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir tan 5 Medi 2025 ac Iain Banfield fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro o 1 Medi 2025.

Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EF nad ydynt ar raddau UWS yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EF a'r undebau cydnabyddedig, ac yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae gan yr holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r swydd yn gynnar ar gyfer y cyfarwyddwyr sydd ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

Datgeliadau oddi ar y gyflogres

Cyflogiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2026, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:

Cyflogiadau presennol ar 31 Mawrth 2026	2025-26 82	2024-25 89
O'r rhain y rhai sy'n bodoli:		
— am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad	41	47
— rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad	25	17
— rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad	8	21
— rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad	8	4
— rhwng pedair neu ragor o flynyddoedd adeg yr adroddiad	—	—
Cyflogiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis		
Cyflogiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026	83	54
O'r rhain y rhai:		
— sydd wedi eu hasesu fel rhai o fewn IR35	83	54
— sydd wedi eu hasesu fel rhai y tu allan i IR35	—	—
— sydd wedi eu terfynu o ganlyniad i sicrwydd heb gael ei dderbyn	—	—
Nifer y cyflogiadau uniongyrchol (trwy Gontract Sector Cyhoeddus i adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol	—	—
Nifer y cyflogiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	82	89
Nifer y cyflogiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb	—	—
Cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026		
Nifer y cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol, yn ystod y flwyddyn ariannol	—	—
Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn 'aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol', yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyflogiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres	7	7

Gwariant ar ymgynghori

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Cost ymgynghori	10	127
Cyfanswm	10	127

Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol⁽¹⁾⁽²⁾ 2025-26

	Cyflog	Tâl perfformiad	Digolledu ar gyfer colli swydd	Buddion mewn nwyddau i'r £100 agosaf	Buddion pensiwn ³	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000		£	£'000
Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir ⁽⁴⁾	65-70	–	–	–	24,000	90-95
Swm Blynyddol Cyfatebol	(165-170)	–	–	–		(165-170)
Mike Harlow Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir ⁽⁵⁾	115-120	–	–	–	35,000	150-155
Swm Blynyddol Cyfatebol	(140-145)	–	–	–		(140-145)
Iain Banfield Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro ⁽⁶⁾	150-155	5-10	–	–	108,000	265-270

- Wedi ei archwilio.
- Y cyfarwyddwyr gweithredol a adroddir yn y tabl yw aelodau gweithredol Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (Bwrdd Rheoli) ac er y gall cyfarwyddwyr gweithredol eraill fynychu nid ydynt yn rhan o'r Bwrdd Rheoli ac nid yw'n ofynnol iddynt gael eu hadrodd o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM).
- Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.
- Daeth penodiad Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i ben ar 5 Medi 2025.
- Daeth penodiad Mike Harlow fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i ben ar 31 Ionawr 2026
- Dechreuodd penodiad Iain Banfield fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro ar 1 Medi 2025. Mae'r symiau a ddatgelir yn cwmpasu'r cyfnod fel Prif Swyddog Ariannol a Phrif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro. Y Swm Blynyddol Cyfatebol ar gyfer y cyfnod yn rôl y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro oedd 155-160 (£'000)

Cyflog a thâl perfformiad⁽¹⁾ – cyfarwyddwyr gweithredol⁽²⁾ 2024-25

	Cyflog	Tâl perfformiad	Buddion mewn nwyddau i'r £100 agosaf	Buddion pensiwn ³	Cyfanswm
	£'000	£'000		£	£'000
Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	150 – 155	–	–	92,000	245 – 250
Mike Harlow Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir	135 – 140	–	–	91,000	230 – 235
Iain Banfield Prif Swyddog Ariannol	135 – 140	0 – 5	–	80,000	220 – 225

- Wedi ei archwilio.
- Y cyfarwyddwyr gweithredol a adroddir yn y tabl yw aelodau gweithredol Bwrdd Cofrestrfa Tir EF (Bwrdd Rheoli) ac er y gall cyfarwyddwyr gweithredol eraill fynychu nid ydynt yn rhan o'r Bwrdd Rheoli ac nid yw'n ofynnol iddynt gael eu hadrodd o dan FReM.
- Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.

Tabl cyflog cyfarwyddwyr anweithredol¹

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Nilesh Sachdev Cadeirydd Anweithredol	55 – 60	55 – 60
Kirsty Cooper ⁽²⁾ Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol	0 – 5	20 – 25
Swm blynyddol cyfatebol	20 – 25	–
Ann Henshaw Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol	20 – 25	20 – 25
Angela Morrison ⁽³⁾ Aelod Bwrdd Anweithredol	0 – 5	20 – 25
Swm blynyddol cyfatebol	20 – 25	–
Elliot Jordan ⁽⁴⁾ Aelod Bwrdd Anweithredol	5 – 10	20 – 25
Swm blynyddol cyfatebol	20 – 25	–
Rommel Pereira ⁽⁴⁾ Aelod Bwrdd Anweithredol	20 – 25	0 – 5
Swm blynyddol cyfatebol		20 – 25
Enda Ridge Aelod Bwrdd Anweithredol	20 – 25	0 – 5
Swm blynyddol cyfatebol	–	20 – 25
Hena Jalil Aelod Bwrdd Anweithredol	20 – 25	0 – 5
Swm blynyddol cyfatebol	–	20 – 25
Deborah McLaughlin Aelod Bwrdd Anweithredol	20 – 25	0 – 5
Swm blynyddol cyfatebol	–	20 – 25
Caroline Crowther ⁽⁵⁾ Aelod Bwrdd Anweithredol	–	–
Charlotte Spencer ⁽⁶⁾ Aelod Bwrdd Anweithredol	–	–

- 1. Wedi ei archwilio.
- 2. Daeth penodiad Kirsty Cooper i ben ar 8 Ebrill 2025.
- 3. Daeth penodiad Angela Morrison i ben ar 8 Ebrill 2025.
- 4. Daeth penodiad Elliot Jordan i ben ar 14 Awst 2025.
- 5. Dechreuodd penodiad Caroline Crowther ar 1 Ebrill 2025. Cynrychiolodd Caroline fudd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac ni chafodd unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EF.
- 6. Dechreuodd penodiad Charlotte Spencer ar 1 Ebrill 2025. Cynrychiolodd Charlotte fudd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac ni chafodd unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EF.

Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros, hawliau neilltuedig i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i’r graddau y mae’n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae’r tabl ar dudalen 74 yn seiliedig ar daliadau cronrus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EF ac sy’n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EF fel enillion trethadwy.

Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o’r broses adolygu perfformiad fel y trafodwyd ac a nodwyd yn y Pwyllgor Tâl ym Mehefin. Mae’r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn y cawsant eu talu i’r unigolyn. Mae’r dyfarniadau a adroddwyd yn 2025/26 yn ymwneud â pherfformiad yn 2024/25.

Buddion pensiwn⁽¹⁾

	Gwir gynnydd mewn swm cyfandaliad pensiwn yn 60 oed		Cyfanswm cronnus Mawrth 2026		Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) ar 31 Mawrth		Gwir gynnydd mewn GTCAP ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi
	Pensiwn £'000	Cyfandaliad £'000	Pensiwn £'000	Cyfandaliad £'000	2026 £'000	2025 £'000	£'000
Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	0-2.5	0	55-60	135-140	1225	1189	15
Mike Harlow Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cwsmeriaid a Strategaeth	0-2.5	–	50-55	–	1041	985	21
Iain Banfield Prif Swyddog Ariannol	5-7.5	5-7.5	50-55	115-120	1000	866	79

1. Wedi ei archwilio.

Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy’n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy’n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O’r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd a benodwyd a’r mwyafrif o’r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae pedair adran i’r cynllun hwnnw: tair adran sy’n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (sef **classic**, **premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw’r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy’n daladwy o dan gynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** yn cael eu cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol PGPGS oedd o fewn 10 mlynedd i’w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn PGPGS ac ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o’u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu’r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, gall aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â’r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae’r holl aelodau sy’n newid i **alpha** yn cael eu buddion PGPGS wedi eu ‘bancio’, gyda’r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn cael y buddion hynny ar sail ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae’r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha** – fel y bo’n briodol.

Os oes gan y swyddog fuddion yn PGPGS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy’n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau buddion wedi eu diffinio priodol neu bensiwn cyfraniadau wedi eu diffinio (prynu arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o’r cynllun **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Bydd buddion yn y cynllun **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o’r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun **premium**, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o’r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i’r cynllun **classic**, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, croesiad yw **classic plus** gyda buddion am wasanaeth rhwng 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo’n fras yn yr un modd â **classic** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi eu cyfrifo fel yn **premium**. Yn y cynllun **nuvos** bydd aelod yn adeiladu pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth â’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae’r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o’i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno’r cynllun, ac mae’r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun **alpha** yn cronni mewn modd tebyg i **nuvos**, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (symud) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau wedi eu diffinio galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae’r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i’r gweithiwr gyfrannu, ond os yw’n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o’r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau o **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 oed ar gyfer aelodau o **nuvos**, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PGPGS ac **alpha** y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalafog, wedi ei asesu gan actiwari buddion y cynllun pensiwn y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelodau o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

Gwir gynnydd mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth
Sifil ac eraill – pecynnau ymadael¹

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25
£0 – £10,000	–	–	5	2	5	2
£10,001 – £25,000	–	–	5	1	5	1
£25,001 – £50,000	–	–	–	1	–	1
£50,001 – £100,000	–	–	6	3	6	3
£100,001 – £150,000	–	–	2	–	2	–
£150,001 – £200,000	–	–	–	–	–	–
>£200,000	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm y pecynnau ymadael	–	–	18	7	18	7
Cyfanswm cost	–	–	£798,876	£217,990	£798,876	£217,990

1. Wedi ei archwilio.

Gwnaethpwyd 18 taliad ex-gratia yn 2025-26 sef cyfanswm o £798,876 (2024-25: saith, £217,990).

Digolledu ar gyfer colli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y contract cytundebol i ymadael. Pan fo'n gymwys, mae costau ychwanegol budd pensiwn gostyngol am adael y cynllun yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EF ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Cymarebau tâl – Wedi eu harchwilio

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r tâl ar gyfer chwartzel isaf, canolrifol ac uchaf gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, lwfansau, goramser, taliadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau

Tabl 1 – Lluosrifau tâl ar gyfer cyfanswm tâl a buddion

	2025-26	2024-25
Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000)	165 – 170	150 – 155
Canolrifol (£)	39,925	38,439
Canolrifol (cymhareb tâl)	4.1	4.0
Chwartzel isaf (£)	32,276	31,090
Chwartzel isaf (cymhareb tâl)	5.1	5.0
Chwartzel uchaf (£)	47,322	45,484
Chwartzel uchaf (cymhareb tâl)	3.5	3.4

Tabl 2 – Lluosrifau tâl ar gyfer yr elfen cyflog yn unig

	2025-26	2024-25
Band cyfanswm cyflog y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000)	155-160	150 – 155
Canolrifol (£)	32,119	30,958
Canolrifol (cymhareb tâl)	5.0	5.0
Chwartzel isaf (£)	32,119	30,958
Chwartzel isaf (cymhareb tâl)	5.0	5.0
Chwartzel uchaf (£)	39,849	38,427
Chwartzel uchaf (cymhareb tâl)	4.0	4.0

Cynyddodd lluosrifau tâl cyffredinol ychydig rhwng 2024-25 a 2025-26, gan adlewyrchu dyfarniadau cyflog uwch ar draws y sefydliad. Cynyddodd cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf i £165k-£170k, o'i gymharu â £150k-£155k yn y flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, cynyddodd y cyflog canolrifol o £38,439 i £39,925, gan arwain at y lluosrif tâl canolrifol yn codi o 4.0 i 4.1.

Cynyddodd elfen cyflog a lwfansau tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf gan 7%. Ar draws y gweithlu, roedd cynnydd cyfartalog cyflog a lwfans yn 5%, gyda thâl perfformiad a bonysau yn cynyddu 2% ar gyfartaledd i'r gweithwyr sy'n weddill. Cynyddodd bonws y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf o £0 yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dim ond newidiadau canrannol y mae Tabl 3 yn eu hadrodd; gan na ellir cyfrifo unrhyw symudiad canrannol o sylfaen o £0, cyflwynir hyn fel 0%.

Cynyddodd yr ystodau cyflog ar gyfer tâl staff (ac eithrio buddion pensiwn) flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd. Cododd y band tâl isaf o £20k-£25k i £25k-£30k, tra bod y band tâl uchaf wedi cynyddu o £150k-£155k i £165k- £170k, gan adlewyrchu'r un symudiad ar lefelau uwch. Y rheswm am y cynnydd ar gyfer pob band tâl yw'r cynnydd cyflog blynyddol safonol.

Wrth ystyried cyflog yn unig, arhosodd y lluosrif cyflog rhwng y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf a'r gweithiwr canolrifol yn sefydlog ar 5.0 ar draws 2023-24, 2024-25 a 2025-26, sy'n dangos cysondeb yn y sefyllfa tâl gymharol dros amser er gwaethaf twf cyflog cynyddrannol.

Tabl 3 – Canran newid

	Cyflog a lwfansau	Tâl perfformiad a bonysau
Newid canrannol rhwng 2024-25 a 2025-26 ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf	7%	0%
Newid canrannol cyfartalog ar gyfer gweithwyr yr endid cyfan, rhwng 2024-25 a 2025-26 ar gyfer y gweithwyr sy'n weddill	5%	2%

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystodau cyflog cymharol ar gyfer tâl staff (ac eithrio buddion pensiwn).

	2025-26	2024-25
Tâl isaf (£'000)	25 – 30	20 – 25
Tâl uchaf (£'000)	165 – 170	150 – 155

2. Adroddiad staff

Niferoedd staff

	2025-26			2024-25		
	Staff parhaol	Eraill	Cyfanswm	Staff parhaol	Eraill	Cyfanswm
Uwch reolwyr	6	–	6	7	–	7
Gweithrediadau	4,795	47	4,842	4,868	14	4,882
Prif Swyddfa	582	4	586	545	3	548
Trawsnewid a Thechnoleg	814	114	928	738	57	795
	6,197	165	6,362	6,158	74	6,232

Costau staff ar gyfer 2025-26¹

	2025-26			2024-25		
	Staff parhaol £'000	Eraill £'000	Cyfanswm £'000	Staff parhaol £'000	Eraill £'000	Cyfanswm £'000
Cyflogau	243,935	4,747	248,682	237,051	2,931	239,982
Costau nawdd cymdeithasol	34,569	510	35,079	26,074	276	26,350
Costau pensiwn eraill	66,591	1,232	67,823	63,643	708	64,351
Cyfanswm costau staff	345,095	6,489	351,584	326,768	3,915	330,683

1. Wedi ei archwilio

Adroddiad staff ar 31 Mawrth 2026


	2025-26	2024-25
Nifer y gweithwyr parhaol (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth	7,193	6,907
Gweithwyr cyfwerth ag amser llawn parhaol ar 31 Mawrth ¹	6,446.7	6,198.2
Nifer y prentisiaid ar 31 Mawrth	78	71
Nifer y staff dros dro/dan gontract ar 31 Mawrth ¹	343	191
Diwrnodau salwch cyfartalog fesul gweithiwr	8.4	9
Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr	6.51	6.3
Diwrnodau hyfforddi fesul prentis	42.16	47
Gwariant hyfforddi fel canran o'r bil cyflogau	0.076%	0.2%
Gweithwyr benyw	61.1%	61.3%
Gweithwyr rhan-amser	33.8%	34.1%
Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig	6%	6%
Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt	11.5%	11%
Trosiant staff	5.7%	5.8%
Sgorau ymgysylltiad staff	65%	59%
Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiau	-0.2%	5.8%
Bwlch Cyflog Cymedrig Bonws rhwng y Rhywiau	3.9%	8%

Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2026

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Aelodau bwrdd anweithredol	4	3	7
Aelodau bwrdd gweithredol ¹	1	–	1
Uwch Wasanaeth Sifil – band 2 ¹	3	4	7
Uwch Wasanaeth Sifil – band 1 ¹	13	13	26
Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Weision Sifil)	2,783	4,377	7,160

1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.

Mae manylion sy'n ymwneud â materion eraill gweithwyr, megis Recriwtio ac Adnoddau, Gallu ac Iechyd a Llesiant i'w gweld yn yr Adroddiad Perfformiad sy'n dechrau ar dudalen 4.

Cyferwerth ag amser llawn cyfartalog yn ystod y flwyddyn

3. Adroddiad Archwilio ac Atebolrwydd Seneddol

Datganiad o Gyflenwad Seneddol a nodiadau cysylltiedig (wedi ei archwilio) ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Yn ychwanegol at y prif ddatganiadau ariannol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EF baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (DACS) a nodiadau ategol. Mae'r DACS a'r nodiadau cysylltiedig yn destun archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r DACS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion am y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os yw endid yn gwario mwy na'r terfynau a osodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn gymwysedig.

Mae ffurf y DACS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddwyd ar GOV.UK, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r DACS yn cynnwys tabl cryno, gyda manylion am berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: y llinell Alldro yn ôl Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad manylach (DACS Nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (DWNC), i gysylltu'r DACS â'r datganiadau ariannol (DACS nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyniad arian parod net (DACS nodyn 3); a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (DACS nodyn 4).

Mae'r DACS a'r Amcangyfrif yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu sy'n debyg, ond yn wahanol i IFRS. Mae dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol i'w gweld ar dudalen 51 i 52, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd i'w gweld ym Mhennod 1 o'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae'r DACS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y mae'r Senedd yn pleidleisio arni ac yn ei chydabod. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr adroddiad perfformiad, yn darparu trafodaeth gryno o alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i'r datgeliadau DACS.

Amcangyfrif o alldro o'i gymharu â'r
Amcangyfrif a Bleidleisiwyd
Tabl cryno 2025-26

Math o wariant	Nodyn DACS	Alldro			Amcangyfrif			Alldro yn erbyn amcangyfrif o arbedion/(tâl-dros- ben)		Aldro'r flwyddyn flaenorol
		Pleid- leisiwyd £'000	Heb ei Bleidleisio £'000	Cyfanswm £'000	Pleid- leisiwyd £'000	Heb ei Bleidleisio £'000	Cyfanswm £'000	Pleid- leisiwyd £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm 2024-25 £'000
Terfyn Gwariant Adrannol										
Adnoddau	1.1	476,088	–	476,088	490,213	–	490,213	14,125	14,125	439,802
Cyfalaf	1.2	62,427	–	62,427	63,100	–	63,100	673	673	27,675
Cyfanswm		538,515	–	538,515	553,313	–	553,313	14,798	14,798	467,477
Gwariant a Reolir yn Flynyddol										
Adnoddau	1.1	1,028	–	1,028	12,000	–	12,000	10,972	10,972	540
Cyfalaf	1.2	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm		1,028	–	1,028	12,000	–	12,000	10,972	10,972	540
Cyfanswm cyllideb										
Cyfanswm adnoddau		477,116	–	477,116	502,213	–	502,213	25,097	25,097	440,342
Cyfanswm cyfalaf		62,427	–	62,427	63,100	–	63,100	673	673	27,675
Cyfanswm gwariant cyllideb		539,543	–	539,543	565,313	–	565,313	25,770	25,770	468,017
Gwariant heb fod yn gyllideb		–	–	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm cyllideb a heb fod yn gyllideb		539,543	–	539,543	565,313	–	565,313	25,770	25,770	468,017

Mae'r ffigurau yn y manau a amlinellir mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr cyfarwyddyd Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK, i gael manylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

Gofyniad arian parod net 2025-26

	Nodyn DACS	Alldro £'000	Amcangyfrif £'000	Alldro yn erbyn amcangyfrif o arbedion/(tâl- dros-ben) £'000	Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol 2024-25 £'000
Gofyniad arian parod net	3	513,017	526,108	13,091	466,464

Nodiadau ar y Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2025-26

DACS 1. Manylion alldro, yn ôl llinell amcangyfrif

DACS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau yn ôl llinell amcangyfrif

Math o wario (Adnoddau)	Alldro adnoddau				Amcangyfrif			Alldro yn erbyn amcangyfrif o arbedion/ (tâl-dros- ben)	2024-25
	Rhaglen			Cyfanswm					Cyfanswm alldro
	Gros	Incwm	Net		Cyfanswm	Trosglwydd- iadau	Cyfanswm gan gynnwys trosglwydd- iadau		
	£'000	£'000	£'000						
Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)									
Gwariant a bleidleisiwyd									
A. Gwariant TGA craidd Cofrestrfa Tir EF	476,088	–	476,088	476,088	490,213	–	490,213	14,125	439,802
Cyfanswm gwario o fewn TGA	476,088	–	476,088	476,088	490,213	–	490,213	14,125	439,802
Gwario o fewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)									
Gwariant a bleidleisiwyd									
B. Gwariant GRF craidd Cofrestrfa Tir EF	1,028	–	1,028	1,028	12,000	–	12,000	10,972	540
Cyfanswm gwario mewn GRF	1,028	–	1,028	1,028	12,000	–	12,000	10,972	540
Cyfanswm adnoddau	477,116	–	477,116	477,116	502,213	–	502,213	25,097	440,342

DACS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf yn ôl llinell amcangyfrif

Math o wario (cyfalaf)	Alldro			Amcangyfrif			Alldro yn erbyn amcangyfrif o arbedion/ (tâl-dros- ben)	2024-25
	Gross	Income	Net	Cyfanswm	Trosglwydd- iadau	Cyfanswm gan gynnwys trosglwydd- iadau		Cyfanswm alldro
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		£'000
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (TGA))								
Gwariant a bleidleisiwyd								
A. Gwariant TGA craidd Cofrestrfa Tir EF	62,427	–	62,427	63,100	–	63,100	673	27,675
Cyfanswm gwario o fewn TGA	62,427	–	62,427	63,100	–	63,100	673	27,675
Gwario o fewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)								
Gwariant a bleidleisiwyd								
B. Gwariant GRF craidd Cofrestrfa Tir EF	–	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm gwario o fewn GRF	–	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm cyfalaf	62,427	–	62,427	63,100	–	63,100	673	27,675

Mae'r colofnau cyfanswm amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Mae trosglwyddiadau yn ailddyraniad o'r ddarpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad yw'n ofynnol iddynt gael awdurdod seneddol (oherwydd nid yw'r Senedd yn pleidleisio i'r lefel honno o fanylion ac yn dirprwyo i Drysorlys EF). Mae rhagor o wybodaeth am hawliau trosglwyddiadau ar gael yn y Llawlyfr Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae'r cyfanswm amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi ei gynnwys er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a roddwyd gerbron y Senedd.

DACS 2. Cysoni alldro i wariant gweithredu net

	Nodyn	Alldro £'000	2024-25 Cyfanswm alldro £'000
Cyfanswm alldro adnoddau yn DACS	DACS 1.1	477,116	440,342
(Llai)/Ychwanegu: Ymchwil a datblygu		-	-
(Llai)/Ychwanegu: Darpariaeth dadfeiliadau a godir i GRF	DWNC	-	-
(Llai)/Ychwanegu: Incwm gweithredu arall	DWNC	(231)	(412)
Cyfanswm		476,885	439,930
Gwariant gweithredu net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Cynhwysfawr Net	DWNC	476,885	439,930

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r DACS uchod, mae'r alldro a'r amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol i, IFRS. Felly mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r DACS i'r Datganiadau Ariannol.

Mae incwm gweithredu arall yn ymwneud ag incwm rhentu o is-osod lle nas defnyddir yn ein hadeiladau i sefydliadau eraill.

DACS 3. Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

2025-26	Nodyn DACS	Alldro £'000	Amcangyfrif £'000	Alldro yn erbyn amcangyfrif o arbedion/(tâl- dros-ben) £'000
Cyfanswm alldro adnoddau	1.1	477,116	502,213	25,097
Cyfanswm alldro cyfalaf	1.2	62,427	63,100	673
Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:				
Dibrisio ac amorteiddio		(26,128)	(30,610)	(4,482)
Symudiad Darpariaeth Indemniad		(1,556)	(12,000)	(10,444)
Ad-daliad cyfalaf o brydlesi		3,019	–	(3,019)
Amhariad asedau anghyfredol		(1,067)	–	1,067
Tâl yr archwilydd		(236)	–	236
IFRS 16 ychwanegiadau/(gwarediadau) prydlesi		(1,549)	–	1,549
IFRS 16 ailbrisiadau prydlesi		2,231	–	(2,231)
Adfer amhariad mewn perthynas ag asedau hawl-i-ddefnyddio		–	–	–
Rhyddhau o'r gronfa gyffredinol		(45)	–	45
Cyfanswm		(25,331)	(42,610)	(17,279)
Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol				
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy		648	–	(648)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy		(2,850)	3,405	6,255
Defnydd o ddarpariaethau		1,595	–	(1,595)
Symudiadau mewn eitemau nad ydynt yn mynd trwy'r DWNC		(588)	–	588
Cyfanswm		(1,195)	3,405	4,600
Gofyniad arian parod net		513,017	526,108	13,091

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r DACS uchod, mae'r alldro a'r amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

DACS 4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol

DACS 4.1 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal â'r incwm a gedwir gan Gofrestrfa Tir EF, mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig).

	Cyfanswm alldro 2025-26		Cyfanswm alldro 2024-25	
	Croniadau £'000	Sail arian parod £'000	Croniadau £'000	Sail arian parod £'000
Incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrifon	231	257	412	410
Arian parod dros ben y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol	–	19	–	45
Cyfanswm y symiau a dalwyd ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	231	276	412	455

DACS 4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn Nodyn 4.1 y Datganiad Ymddiriedolaeth yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran pan oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na'r brif adran. Adroddir ar y symiau a gesglir fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi eu heithrio o'r prif ddatganiadau ariannol) fel rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn, ac maent wedi eu crynhoi isod:

Eitem	Alldro 2025-26	Cyfanswm alldro 2024-25
	£'000	£'000
Cofrestru teitl	473,537	382,391
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	21,357	11,404
Pridiannau Tir Lleol	1,922	1,552
Incwm o weithgareddau masnachol	3,751	3,899
Llai:		
Costau casglu a dileu dyledion	(431)	(392)
Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	500,136	398,854
Balans a gedwir ar ddechrau'r flwyddyn	15,752	3,665
Taliadau i'r Gronfa Gyfunol	(493,865)	(386,767)
Balans a gedwir ar ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn	22,023	15,752

Datgeliadau atebolrwydd seneddol

1. Colledion a thaliadau arbennig (wedi eu harchwilio)

Nid oes unrhyw daliad arbennig neu golledion i'w datgelu sydd uwchlaw'r trothwy adrodd o £300,000. Roedd yr holl golledion a thaliadau arbennig o dan y trothwy adrodd hwn (2024-25: £0k).

2. Ffioedd a thaliadau¹ (wedi eu harchwilio)

Cynhyrchir y wybodaeth ganlynol am brif weithgareddau Cofrestrfa Tir EF at ddibenion ffioedd a thaliadau ac nid yw'n ffurfio adroddiad segmentau o dan IFRS 8 *Segmentau Gweithredu*.

	Statudol			Anstatudol		
	Cofrestru teitl ²	Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ³	Pridiannau Tir Lleol ⁴	Incwm rhentu	Incwm masnachol ⁵	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2025-26						
Incwm	473,537	21,357	1,922	231	3,751	500,798
Cost y gwasanaeth	(471,176)	(2,995)	(1,247)	(27)	(2,101)	(477,546)
Gwarged/(diffyg) gweithredu	2,361	18,362	675	204	1,650	23,252
2024-25						
Incwm	382,391	11,404	1,552	412	3,899	399,658
Cost y gwasanaeth	(431,025)	(2,014)	(5,529)	(50)	(2,116)	(440,734)
Gwarged/(diffyg) gweithredu	(48,634)	9,390	(3,977)	362	1,783	(41,076)

- Wedi ei archwilio
- Cofrestru teitl – yn cynnwys dyletswyddau statudol Cofrestrfa Tir EF o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
- Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol – cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.
- Pridiannau Tir Lleol – roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i Gofrestrfa Tir EF am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol (PTLI). Mae'r rhaglen PTLI yn parhau i gael ei hadeiladu.
- Incwm Masnachol – yn cynnwys rhyddhau data Cofrestrfa Tir EF yn fasnachol.

3. Atebolrwydd dibynnol o bell (wedi ei archwilio)

Mae'r barnau a luniwyd i roi gwerth ar y Gronfa Indemniad yn asesiad ar gyfer digwyddiadau ar yr adeg hon ac nid ydynt yn cynnwys asesiad ar gyfer digwyddiadau sy'n rhy ansicr neu'n rhy bell i'w cynnwys.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (WCHH) yn seiliedig ar lwyddiant tebygol hawliadau. Mae rhagor o fanylion am effaith newidiadau mewn digwyddiadau hysbys i'w gweld ar dudalennau 108 a 109.

4. Rheoleidd-dra gwariant (wedi ei archwilio)

Defnyddiwyd yr holl wariant at y diben a fwriadwyd gan y Senedd.

Iain Banfield
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EF am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr Adran ar 31 Mawrth 2026 a'i gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 ac yn dangos na wariwyd mwy na'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), y gyfraith sy'n gymwys a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EF yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EF o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EF wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a thystysgrif ac adroddiad fy archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â

chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EF a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Gofrestrfa Tir EF neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau o dâl penodol a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (RhAC) i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r RhAC y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r RhAC i bersonau o fewn y Gofrestrfa Tir y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath yn eu lle fel y penderfynir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sydd heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr

Adroddiad Tâl a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac

- asesu gallu Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EF yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi.

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EF ar:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EF sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Cofrestrfa Tir EF â Deddf Adnoddau a Chyfrifon 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:

- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig,
- wedi trafod â'r tîm ac arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol, gan gynnwys arbenigwr actiwaraid, ynghylch sut a ble y gallai twyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cofrestrfa Tir EF ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan Safonau Archwilio Ariannol (DU), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EF a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu sy'n cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EF. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, y Deddfau Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Neilltuo Arian, Deddf Cofrestru Tir 2022, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972 a deddfwriaeth cyflogaeth, pensiynau a deddfwriaeth dreth berthnasol.

Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau mewnol ac archwilio;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, trwy brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau am yr amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm gan gynnwys ymgysylltu a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/

auditors responsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ac ni aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Fod yn Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth archwilio briodol ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwrpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

3 Gorffennaf 2026

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Datganiadau ariannol adrannol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Incwm gweithredu arall	2.1	(231)	(412)
Cyfanswm incwm gweithredu		(231)	(412)
Costau staff	3.1	351,584	330,683
Prynu nwyddau a gwasanaethau	2.2	94,502	72,575
Taliadau dibrisio, amorteiddio ac amharu	2.2	27,195	29,529
Symudiadau a thaliadau darpariaeth	2.2	1,556	5,610
Cyfanswm gwariant gweithredu		474,837	438,397
Gwariant gweithredu net		474,606	437,985
Incwm cyllid: Llog	4	(21)	(22)
Treuliau cyllid: Prydlesi cyllid	5	1,700	1,947
(Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol	2.2	600	20
Gwariant net am y flwyddyn		476,885	439,930
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar		-	-
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		476,885	439,930

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 112 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

		2025-26	2024-25
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Asedau anniriaethol	7	197,774	161,495
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	8	35,715	39,541
Eiddo, offer a chyfarpar	6	20,379	18,184
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	10	885	4,533
Cyfanswm asedau anghyfredol		254,753	223,753
Asedau cyfredol			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	10	19,807	15,714
Arian parod	9	13,064	13,008
Cyfanswm asedau cyfredol		32,871	28,722
Cyfanswm asedau		287,624	252,475
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaethau tymor byr	12.1	693	667
Ymrwymadau prydles	8	3,119	3,215
Cronfa Indemniad	12.2	43,335	43,400
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	11	67,672	64,792
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		114,819	112,074
Asedau anghyfredol ynghyd â (rhwymedigaethau)/ asedau cyfredol net		172,805	140,401
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Ymrwymadau prydles	8	34,805	38,538
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		34,805	38,538
(Rhwymedigaethau)/asedau net		138,000	101,863
Ecwiti Trethdalwyr			
Cronfa Gyffredinol	DNET	138,000	101,863
Cyfanswm Ecwiti		138,000	101,863

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 112 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.



Iain Banfield

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Datganiad o lifoedd arian parod am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu			
Incwm/(gwariant) gweithredu net	DWNC	(474,606)	(437,985)
Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod:			
Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	2.2	9,386	10,110
Amorteiddio asedau anniriaethol	2.2	16,742	18,479
Amhariad asedau anghyfredol		1,067	940
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill		(648)	(4,666)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill		2,823	427
Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r DWNC		(7)	(198)
Tâl yr archwilydd	2.2	236	200
Newid yn y Gronfa Indemniad	12.2	1,556	5,610
Newid mewn Rhyddhau Cynnar a Darpariaethau Eraill	12.1	71	32
Defnydd o Ddarpariaeth y Gronfa Indemniad	12.2	(1,621)	(6,010)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		(445,001)	(413,061)
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu asedau diriaethol	6	(9,056)	(5,495)
Prynu asedau anniriaethol	7	(54,032)	(42,582)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(63,088)	(48,077)
Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu			
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – blwyddyn gyfredol	DNET	513,100	456,599
Ad-daliadau o elfen gyfalaf ymrwymadau o dan brydlesi cyllid	8	(3,222)	(3,196)
Elfen llog ymrwymadau o dan brydlesi cyllid	5	(1,700)	(1,947)
Ad-daliad cyfalaf o brydlesi prydleswr yn ystod y flwyddyn	8	203	207
Llog a dderbyniwyd	4	21	22
Ariannu net		508,402	451,685
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol		313	(9,453)
Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol		(257)	(410)
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		56	(9,863)
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod	9	13,008	22,871
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod	9	13,064	13,008

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 112 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000
Balans ar 31 Mawrth 2024		75,541	75,541
Cyflenwad tybiedig	9	22,827	22,827
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol – Blwyddyn flaenorol	9	44	44
Cronfa Seneddol net – wedi ei dynnu i lawr		456,599	456,599
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn	DWNC	(439,930)	(439,930)
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	DAP	(410)	(410)
Tâl yr archwilydd	2.3	200	200
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	11	(45)	(45)
Symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol am y flwyddyn	11	(12,963)	(12,963)
Balans ar 31 Mawrth 2025		101,863	101,863
Balans sy'n cael ei ddwyn ymlaen		101,863	101,863
Cyflenwad tybiedig	9	12,962	12,962
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol – Blwyddyn flaenorol	9	45	45
Cronfa Seneddol net – wedi ei dynnu i lawr		513,100	513,100
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn	DWNC	(476,885)	(476,885)
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	DAP	(257)	(257)
Tâl yr archwilydd	2.3	236	236
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	11	(19)	(19)
Symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol am y flwyddyn	11	(13,045)	(13,045)
Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 202		138,000	138,000

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 112 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau ar y cyfrifon adrannol

1 Datganiad o bolisiâu cyfrifyddu

1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2025-26 ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn FReM yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddasir neu fel y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cofrestrfa Tir EF (CTEF) at ddibenion penodol rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisiâu cyfrifyddu CTEF yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CTEF baratoi Datganiad o Gyflenwad Seneddol (DACS) a nodiadau ategol i ddangos Alldro yn erbyn Amcangyfrif o ran gofyniad adnoddau net a gofyniad arian parod net.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar CTEF o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol mewn perthynas â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi CTEF yn y dyfodol. Yn yr un modd ag adrannau eraill o'r llywodraeth, mae ariannu rhwymedigaethau CTEF yn y dyfodol i'w talu gan grantiau Cyflenwad yn y dyfodol a chymhwyso incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Ystyrir felly ei bod yn briodol paratoi'r cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth (DACHLI) 2000.

Roedd *Safonau cyfrifyddu newydd a ddaeth i rym yn ystod y flwyddyn ariannol hon* IFRS 17 Contractau Yswiriant wedi dod i rym ar gyfer y sector cyhoeddus ar 1 Ebrill 2025. Mae FReM yn nodi, wrth gymhwyso'r safon hon i'r sector cyhoeddus, nad yw 'deddfwriaeth a rheoliadau, ar eu pennau eu hunain, yn gyfwerth â contractau yswiriant'. Yn seiliedig ar y canllawiau cymhwyso, nid yw darpariaeth indemnïad CTEF yn ffurfio contract yswiriant felly nid oes unrhyw effaith gan IFRS 17 ar gyfrifon blynyddol CTEF.

Daeth *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb ddod i rym eto* IFRS 18 Cyflwyniad a Datgeliad mewn Datganiadau Ariannol ei gyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ac mae'n disodli Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 1 *Cyflwyniad Datganiadau Ariannol*. Mae'r safon yn cyflwyno strwythur diwygiedig ar gyfer y datganiad elw neu golled, gan ei gwneud yn ofynnol i endidau ddosbarthu incwm a gwariant yn categorïau gweithredu, buddsoddi, ariannu, treth, a gweithrediadau y rhoddwyd gorau iddynt, ynghyd â chyflwyno is-gyfansymiau gorfodol newydd.

Mae IFRS 18 yn weithredol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y sector cyhoeddus yn parhau i gael ei hasesu, ac nid yw penderfyniad wedi ei wneud eto ar ddyddiad gweithredu.

Newidiadau FReM a ddaeth i rym yn ystod y flwyddyn ariannol

O 1 Ebrill 2025 ymlaen, roedd FReM wedi tynnu'r opsiwn yn ôl i fesur asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r model

ailbrisio. Nid oes unrhyw effaith gyfrifyddu ar CTEF o ganlyniad i'r newid hwn.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar, Asedau Anniriaethol ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu gan ddefnyddio 'gwerth mewn defnydd cyfredol', a elwir hefyd yn 'Gost Amnewid Ddibrisiedig' (CADd).

1.3 Meysydd o amcangyfrif a barnau arwyddocaol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys y disgwyliadau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Y maes amcangyfrifon a barnau arwyddocaol yn y cyfrifon hyn, sydd â risg sylweddol o achosi addasiad perthnasol i symiau sy'n cario ein rhwymedigaethau o fewn y cyfnod cyfrifyddu hwn yw:

- Nodyn 12.2 – amcangyfrif o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i setlo'r holl hawliadau indemnïad y gwyddys amdanynt ac sydd Wedi Codi ond Heb eu Hadrodd (WCHH) – lle y ceir ansicrwydd o ran cyfran yr hawliadau sy'n aros i'w prosesu a gaiff eu talu yn y pen draw, gwerth y taliadau hynny ac effaith unrhyw farnau cyfreithiol. Ar gyfer hawliadau WCHH, ni wyddys nifer yr hawliadau sydd heb eu hadrodd, a hefyd yr adeg pan fydd gwall yn dod i'r amlwg a gwerth unrhyw hawliad posibl.

1.4 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid

Mae IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* wedi cael ei fabwysiadu. Mae'r meini prawf cydnabod incwm o fewn IFRS 15 yn gyson â pholisi cyfrifyddu CTEF. Mae'r holl ffioedd statudol a thaliadau yn cael eu dal mewn Datganiad Ymddiriedolaeth CTEF ar wahân. Mae incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (DWNC) yn ymwneud ag incwm rhentu eiddo a gydnabyddir wrth i'r symiau fod yn ddyledus.

1.5 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd CTEF yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel gwariant yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeoliad y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.

1.6 Pensiynau

Mae gweithwyr CTEF yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu Gynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill – a elwir yn 'Alpha'. Cynlluniau buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb eu cyllido yw'r rhain, ond nid yw CTEF yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae CTEF wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 *Buddion Gweithwyr* fel pe baent yn gynlluniau

cyfraniadau wedi eu diffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar PGPGS neu gynllun Alpha.

Fel arall, gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n bensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr.

1.7 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i CTEF brisio asedau anghyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (DSA) ar eu gwerth cyfredol mewn defnydd presennol. Ar gyfer asedau mewn defnydd mae FReM 10.1.6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i asedau gweithredol gael eu mesur yn ôl eu gwerth mewn defnydd cyfredol yn unol â *Llyfr Coch* RICS, yn hytrach na gwerth y farchnad fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 *Eiddo, Offer a Chyfarpar*. Mae manylion addasiadau FReM sy'n gymwys ar gyfer 2025-26 i'w gweld ar GOV.UK (chwiliwch 'Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2025-26').

Caiff asedau nad ydynt yn eiddo eu gwerthuso trwy ddefnyddio CADd. Caiff adeiladau prydlesol eu trin fel asedau a gedwir am eu gallu gweithredol a'u mesur yn ôl eu gwerth mewn defnydd presennol, yn amodol ar gyfnod y brydles.

Ni chaiff Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu (ACH) eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisiant yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu cost llai amcangyfrif o werth gweddillol asedau anghyfredol yn systematig dros eu Hoes Ddefnyddiol sy'n Weddill (ODdW) gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae categori asedau CTEF Offer a Pheiriannau yn cynnwys TG, Offer Swyddfa a Pheiriannau. Mae CTEF yn cyfalafu gwariant dros £2,500 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r lleiafswm gwerth ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi CTEF yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau neu ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn berthnasol.

Adolygir oes asedau yn ystod pob blwyddyn ariannol, gan mai amcangyfrif cyfrifyddu yw hwn. Caiff unrhyw newidiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cymhwyso'n rhagolygol i asedau sydd newydd eu cyfalafu yn unol ag IAS 8 *Polisiau Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon Cyfrifyddu a Gwallau*.

Defnyddir yr ODdW canlynol ar gyfer asedau sydd newydd eu cyfalafu:

Technoleg Gwybodaeth	3 i 10 mlynedd
Offer a Pheiriannau	5 i 10 mlynedd

1.8 Prydlesi

Mae CTEF yn cyfrif am y mwyafrif o'i phrydlesi o dan IFRS 16 *Prydlesi*, gyda'r costau, dibrisiant a datgeliadau cysylltiedig eraill wedi eu disgrifio yn Nodyn 8.

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys y rhai sydd â phrydles oes fer (llai na 12 mis), neu a ystyrir yn 'werth isel' o dan IFRS 16. Mae CTEF yn dal prydles sengl y mae'n ei diffinio fel gwerth isel, a'i gwerth yw £6k ar hyn o bryd. Ar gyfer y brydles benodol hon, mae'r meini prawf gwerth isel yn briodol gan ei fod yn ymwneud ag isbrydles fach iawn o fewn eiddo llawer mwy y llywodraeth.

Cydnabyddiaeth gychwynnol

Ar ddechrau'r brydles, mae CTEF yn cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles a'r gyfradd dibrisio a ddefnyddiwyd yw cyfnod y brydles neu ODdW y brydles.

Mae'r rhwymedigaeth prydles yn cael ei mesur adeg y taliad ar gyfer gweddill cyfnod y brydles (fel y'i diffinnir uchod), yn glir o dreth ar werth anadferadwy, wedi ei disgowntio naill ai gan y gyfradd sydd ymhlyg yn y brydles, neu (lle na ellir pennu hyn), gyfradd benthyca fewnol ganolog CTEF. Y taliadau sydd wedi eu cynnwys yn y rhwymedigaeth yw'r rhai sy'n sefydlog, neu yn sefydlog o ran eu sylwedd, heb gynnwys taliadau sy'n codi (hynny yw o adolygiadau rhent neu fynegeion yn y dyfodol). Mesurir yr ased hawl-i-ddefnyddio yn ôl gwerth y rhwymedigaeth, wedi ei addasu ar gyfer: unrhyw daliadau a wnaed neu symiau sydd wedi cronni cyn y dyddiad cychwyn; cymhellion prydles a dderbyniwyd; costau cynyddrannol wrth gael y brydles; ac unrhyw gostau gwaredu ar ddiwedd y brydles.

Mesur dilynol

Yn dilyn newidiadau i brydles, megis addasiad i'r ardal a brydlesir, y rhent sy'n daladwy neu gyfnod y brydles, mesurir yr asedau hawl-i-ddefnyddio trwy ddefnyddio'r model cost. Mae'r rhwymedigaeth yn cael ei haddasu ar gyfer ad-daliadau llog. Mae'r diweddariadau hyn yn defnyddio'r gyfradd benthyca sy'n gywir ar adeg yr addasiad.

Gwariant prydles

Mae gwariant yn cynnwys llog, dibrisiant llinell syth ac unrhyw amhariadau i asedau ac unrhyw newidiadau mewn taliadau prydles amrywiol nad ydynt wedi eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth yn ystod y cyfnod y cododd y digwyddiad ysgogi. Mae taliadau prydles yn cael eu debydu yn erbyn y rhwymedigaeth. Mae taliadau rhent ar gyfer prydlesi lle mae'r cyfnod yn 12 mis neu lai, neu lle mae'r brydles wedi ei dosbarthu fel gwerth isel yn cael eu codi fel treuliau.

Cyfradd benthyca

Mae CTEF yn defnyddio cyfradd disgownt Trysorlys EF fel ei chyfradd fenthyca gynyddrannol. Mae papur System Gwariant Cyhoeddus (SGC) (2025) 09 Trysorlys EF yn nodi mai'r gyfradd benthyca gynyddrannol (cyfradd nominal) ar gyfer prydlesi sy'n dechrau ar ôl Rhagfyr 2025 yw 5.32% (2024: 4.81%).

1.9 Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol eu gwerthuso ar gost hanesyddol (dybiedig) llai amorteiddio cronedig a cholledion amhariad cronedig (a elwir hefyd yn CADd).

Adolygiad blynyddol o Oes Economaidd Ddefnyddiol (OEDd) Asedau Anniriaethol

Yn 2025-26, cynhaliodd CTEF adolygiad treigl o asedau anniriaethol gan gynnwys eu OEDd, yn unol ag IAS 38 *Asedau Anniriaethol*. Defnyddiodd adolygiad o ddangosyddion mewnol CTEF a hefyd meincnodiwyd ei OEDd yn erbyn y rhai a ddefnyddir mewn sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus. Ni wnaed unrhyw newidiadau i ODdW CTEF yn 2025-26, felly mae asedau anniriaethol wedi cael eu cyfalafu gan ddefnyddio'r ODdW canlynol:

Meddalwedd pwrpasol a ddatblygwyd yn fewnol	Hyd at 10 mlynedd
Asedau data	Hyd at 15 mlynedd

Pridiannau Tir Lleol

Cwblhaodd CTEF y gwaith o adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i gadw data Pridiannau Tir Lleol yng Ngorffennaf 2018. Ar 31 Mawrth 2026, mae’r data sy’n ymwneud â 147 o Awdurdodau Lleol wedi ei ychwanegu at y gofrestr ac mae’r ased sylfaenol yn cael ei ddefnyddio (2024-25: 125 o Awdurdodau Lleol). Nid yw’r dyddiad cwblhau ar gyfer trosglwyddo data i CTEF o Awdurdod Lleol yr un fath â dyddiad cyfalafu’r ased; mae hyn oherwydd y bydd CTEF yn cydnabod ased amhariad dim ond pan fydd yn bodloni’r meini prawf cydnabod ased a nodir yn IAS 38.

O dan IAS 38, mae costau datblygu wedi cael eu cyfalafu ar gyfer dau ased ar wahân; cronfa ddata i ddal y wybodaeth a’r data ei hun y mae angen ei lanhau, ei ddigideiddio a’i symud i’r gronfa ddata hon. Yn dilyn dechrau’r gwasanaeth cofrestr, mae’r cydrannau hyn yn cael eu hamorteiddio dros eu OEDd:

Cofrestr Pridiannau Tir Lleol	Hyd at 10 mlynedd
Data Pridiannau Tir Lleol	Hyd at 15 mlynedd

Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd

Mae asedau anniriaethol a gaffaelwyd ar wahân yn cael eu dangos yn ôl cost hanesyddol. Mae’r costau a gafwyd i gaffael a dechrau defnyddio’r asedau hyn wedi eu cyfalafu. Mae’r rhain yn cynnwys costau contractwyr, deunyddiau, costau llafur i’w priodoli’n uniongyrchol a chostau gorbenion i’w priodoli’n uniongyrchol. Mae trwyddedau meddalwedd wedi eu cynnwys yn ôl cost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu OEDd priodol fel yr amlinellir yn y tabl canlynol:

Meddalwedd prif ffrâm	3 i 10 mlynedd
Meddalwedd system	Hyd at 10 mlynedd
Trwyddedau meddalwedd	Yn unol â chytundebau trwydded

Gellir defnyddio eithriadau i’r OEDd diodyn hyn lle gellir cyfiawnhau hynny.

Mae agwedd CTEF at ddatblygu meddalwedd wedi ei nodi yn Nodyn 1.10.

E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway

Roedd asedau E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway wedi eu hamorteiddio’n llawn ar ddechrau’r flwyddyn ariannol, ond wedi eu cynnwys yn y cyfrifon am eu bod yn parhau i gael eu defnyddio.

1.10 Asedau sy’n Cael eu Hadeiladu

Delir yr holl Asedau sy’n Cael eu Hadeiladu (ACH) am gost. Mae CTEF yn cydnabod tri chategori o ACH: Diriaethol, Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol ac Anniriaethol – Trawsnewid Digidol. Mae’r dosbarthiadau hyn o asedau yn gysylltiedig â chyfalafu costau Pridiannau Tir Lleol yn ystod y flwyddyn, gwelliannau rheoli achos, mudo o’r brif ffrâm i un sy’n seiliedig ar gwmwl a morgais digidol. Mae rhagor o fanylion am forgaes digidol ar gael ar GOV.UK (chwiliwch ‘Rhwymedigaeth Bosibl Gwasanaeth Morgais Digidol Cofrestrfa Tir EF’).

Anniriaethol arall – Costau datblygu meddalwedd

Yn unol ag IAS 38, cyfalafir gwariant ar ddatblygu seilwaith TG newydd (gan gynnwys costau trydydd parti a chostau uniongyrchol ymdrech staff mewnol). Caiff costau datblygu sydd i’w priodoli’n uniongyrchol i gynllunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw a reolir gan CTEF eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir gofynion IAS 38.

Mae’r costau y gellir eu priodoli’n uniongyrchol wedi eu cyfalafu fel rhan o’r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o’r gorbenion perthnasol. Cydnabyddir gwariant datblygu arall nad yw’n bodloni’r meini prawf hyn fel treuliau a gafwyd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel ased yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae’r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

Cofnodir gwariant a gafwyd wrth ddatblygu meddalwedd fel ased anniriaethol sy’n cael ei adeiladu ac yna caiff ei drosglwyddo i’w ddefnyddio fel ased anniriaethol pan fydd y meddalwedd hwnnw a’r data cysylltiedig ar gael gan CTEF i’w chwsmeriaid fel rhan o’r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol.

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu categorieiddio fel ACH o fewn Nodyn 7.

Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol

Mae CTEF yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol amrywiol i drosglwyddo ei data pridiannau tir i blatfform digidol CTEF.

Asedau Digidol Trawsnewid

Asedau meddalwedd digidol a ddatblygwyd o waith o fewn Gwasanaethau Corfforaethol CTEF.

Diriaethol – arall

Mae’r maes hwn yn adlewyrchu ffrydiau gwaith eraill CTEF gan gynnwys datblygu seilwaith TG.

1.11 Amhariad asedau anghyfredol

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad, mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (DWNC) yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw’r ased yn cael ei gario am swm wedi ei ailbrisio, mae’r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio o’r gronfa wrth gefn ailbrisio sy’n berthnasol i’r ased, gydag unrhyw beth dros ben yn y DWNC. Ar hyn o bryd, mae gan CTEF £0.0m yn ei chronfa wrth gefn ailbrisio. Os yw unrhyw arwydd o’r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn pennu graddfa’r golled amhariad. Y swm adenilladwy yw’r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth mewn defnydd.

Ar gyfer ACH, cynhelir adolygiad blynyddol i gadarnhau bod yr asedau hyn yn parhau i fodloni’r meini prawf mesur o fewn IAS 38 *Asedau Anniriaethol*.

1.12 Symiau derbyniadwy masnach

Nid yw symiau derbyniadwy masnach yn cario unrhyw log a chânt eu datgan am eu gwerth enwol wedi ei leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy. Mae’r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi mewn costau gweinyddol yn y DWNC. Cymerir bod y swm sy’n cario o symiau derbyniadwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn neu lai cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Nid yw CTEF yn agored i risg marchnad, credyd a hylifedd sylweddol o dan IFRS 7 *Offerynnau Ariannol*.

1.13 Arian parod ac arian parod cyfatebol

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw ac arian parod a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Nid oes unrhyw arian parod cyfatebol gan CTEF.

1.14 Symiau taladwy masnach

Mae symiau taladwy masnach yn ymrwymiadau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae symiau taladwy masnach wedi eu datgan yn ôl eu gwerth enwol. Ystyrir bod swm cario symiau taladwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Mae cyfrifon taladwy wedi eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

1.15 Darpariaethau

Mae CTEF yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol ac adeiladol sy'n ansicr o ran eu hamseru neu swm ar ddyddiad y DSA, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr ar y dyddiad hwnnw o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Gan fod effaith disgowntio yn amherthnasol, caiff ei chynnwys fel rhan o'r ailbrisiad i'r ddarpariaeth honno yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'i datgelu ar linell ar wahân. Codir tâl ar ddarpariaethau ar y DWNC a'u cofnodi fel rhwymedigaethau yn y DSA. (Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys sensitifrwydd, yn Nodyn 12).

1.16 Cronfa Indemniad

Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i CTEF indemnio trydydd partïon yn erbyn colledion a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a cholli dogfennau gan CTEF. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau indemniad CTEF yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i dwyllo dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyllffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn wahanol. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan CTEF i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon yn gyfrifol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran eu hamseru a'u swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi ei sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r amcangyfrif o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau a gafwyd wrth setlo'r hawliadau hynny.

Mae swm sy'n cario'r Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn chwarterol gan CTEF, wedi ei chefnogi gan ei hactiwari annibynnol, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, cynhelir adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan CTEF (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) er mwyn gweld a yw'r Gronfa Indemniad wedi ei phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setlo tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn Nodyn 12.2 o'r adroddiad hwn.

1.17 Rhwymedigaethau posibl

Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posiblwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni'r meini prawf darpariaethau wedi eu dosbarthu'n rhwymedigaethau posibl (gweler Nodyn 13).

1.18 TAW

Mae CTEF yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EF. Ar gyfer gweithgareddau anstatudol, sy'n weithgareddau busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Codir TAW anadenilladwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghostau prynu wedi eu cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth wrth werthu yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth wrth brynu, nodir y symiau yn glir o TAW.

2 Nwyddau a gwasanaethau

2.1 Incwm gweithredu

Nodyn	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau	(231)	(412)
Cyfanswm incwm gweithredu	(231)	(412)

2.2 Costau eraill

Eitemau arian parod	Nodyn	2025-26	2024-25
		£'000	£'000
Gwasanaethau TG a phroffesiynol		36,555	29,455
Costau staff eraill gan gynnwys hyfforddiant		17,074	10,332
Costau llety		12,170	12,370
Costau arolwg a sganio		5,873	5,339
Costau storio ffeiliau		4,914	4,852
Taliadau trosi a baich Pridiannau Tir Lleol		3,905	3,378
Costau Tribiwnlys haen gyntaf		3,493	3,551
Hurio peiriannau		3,494	3,276
Costau postio ac argraffu		2,232	1,946
Costau eraill a gwrthdroi croniadau		2,147	(4,892)
Costau telathrebu		1,348	1,116
Hysbysebu a marchnata		823	750
Cynnal a chadw swyddfa		817	903
Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau	8	21	19
Cyfanswm gwariant arian parod		94,866	72,395
Eitemau heb fod yn arian parod			
Amorteiddio asedau anniriaethol	7	16,742	18,479
Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a bercheogir	6	6,226	5,983
Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir	8	3,160	4,127
Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol		1,067	940
Symudiad croniadau indemniad	12	(917)	4,509
Symudiad darpariaeth indemniad	12	2,473	1,101
Tâl yr archwilydd – ffi archwilio	2.3	236	200
Symudiadau darpariaeth eraill		–	–
Cyfanswm gwariant heb fod yn arian parod		28,987	35,339
Cyfanswm Costau Eraill		123,853	107,734

Nodyn Esboniadol: Costau eraill a gwrthdroi Croniadau
Yn 2024-25, cynhaliodd y rheolwyr adolygiad manwl o'r holl wariant cronedig i wirio a oedd all-lif economaidd yn y dyfodol yn parhau'n debygol. Lle barnwyd nad oedd digon o dystiolaeth briodol ar gael i ddangos hyn, roedd y rheolwyr wedi gwrthdroi'r croniad, sydd wedi ei gyflwyno gyda chostau eraill ac yn gyfanswm o £2.5m.

Nodyn Esboniadol: Symudiad Croniadau Indemniad
Yn 2024-25, cydnabuwyd croniad o £4.0m mewn perthynas â hawliad indemniad sylweddol heb ei dalu; gostyngwyd hyn i £2.2m yn 2025-26 yn dilyn ailasesiad o werth setlo disgwyledig yr hawliad.

2.3 Tâl yr archwilydd
Mae tâl yr archwilydd yn ffi dybiannol yn y ddwy flwyddyn ariannol a delir trwy'r Broses Gyflenwi, sydd wedi ei dadansoddi fel a ganlyn:

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Archwiliad o Gyfrifon Adnoddau	210	175
Archwiliad o Gyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth	26	25
Cyfanswm ffi dybiannol	236	200

3 Gwybodaeth am weithwyr

3.1 Costau staff

	2025-26			2024-25		
	Staff sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol £'000	Eraill £'000	Cyfanswm £'000	Staff sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol £'000	Eraill £'000	Cyfanswm £'000
Cyflogau	243,935	4,747	248,682	237,051	2,931	239,982
Costau nawdd cymdeithasol	34,569	510	35,079	26,074	276	26,350
Costau pensiwn eraill	66,591	1,232	67,823	63,643	708	64,351
	345,095	6,489	351,584	326,768	3,915	330,683

3.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan Gofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2025-26			2024-25		
	Staff sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol	Eraill	Cyfanswm	Staff sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol	Eraill	Cyfanswm
Uwch reolwyr	5	–	5	7	–	7
Gweithrediadau	4,795	47	4,842	4,868	14	4,882
Prif Swyddfa	583	4	587	545	3	548
Trawsnewid a Thechnoleg	814	114	928	738	57	795
	6,197	165	6,362	6,158	74	6,232

3.3 Mae hawliau cyflog a phensiwn y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EF wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 74 i 76.

Nid yw'r costau staff yn Nodyn 3.1 yn cynnwys y costau staff hynny sydd wedi eu cyfalafu fel rhan o adeiladu asedau anniriaethol. Yn ystod 2025-26, cafodd £22.1m (2024-25: £17.3m) o gostau staff eu cyfalafu ar gyfer adeiladu'r asedau anniriaethol hyn.

3.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CPGSE) – a elwir yn “Alpha” – yn gynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu cyllido ond ni all CTEF nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actwari'r cynllun, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth, PGPGS ar 31 Mawrth 2025, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2025. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £67.6m yn daladwy i PGPGS (2024-25: £64.0m) ar y gyfradd o 28.97% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r

cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2025-26 sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n bensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £0.3m (2024-25 £0.3m) i un darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac wedi amrywio o 8.0% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3.0% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,747 (0.5%; 2024-25: £9,920, 0.5%) o dâl pensiynadwy yn daladwy i PGPGS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth y gweithwyr hyn mewn gwasanaeth neu eu hymddeoliad ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £0.05m. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.

Roedd saith unigolyn wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd; roedd y cyfanswm rhwymedigaethau pensiwn cronodig yn y flwyddyn yn gyfanswm o £37,813.32 (2024-25: £83,060.77).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 76 i 77 a Nodyn 1.6.

4 Incwm cyllid

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Llog a dderbyniwyd ar brydlesi	21	22
	21	22

5 Treuliau cyllid: Prydlesi cyllid

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Llog ar ymrwymadau o dan brydlesi cyllid	1,700	1,947
	1,700	1,947

6 Offer a chyfarpar

6.1 2025-26

	Technoleg Gwybodaeth	Offer a Pheiriannau	Asedau sy'n Cael eu Hadelladu	Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2025	96,092	3,143	58	99,293
Ychwanegiadau	9,056	–	–	9,056
Ailddosbarthu asedau	–	–	23	23
Asedau y dechreuwyd eu defnyddio	23	–	(23)	–
Amhariad	–	–	(58)	(58)
Gwarediadau	(35,222)	(1,500)	–	(36,722)
Ar 31 Mawrth 2026	69,949	1,643	–	71,592

Dibrisiant cronedig

Ar 1 Ebrill 2025	78,919	2,190	–	81,109
Codwyd amdano yn y flwyddyn	6,222	4	–	6,226
Gwarediadau	(34,730)	(1,392)	–	(36,122)
Ar 31 Mawrth 2026	50,411	802	–	51,213
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2026	19,538	841	–	20,379

Cyllido asedau

A berchnogir	19,538	841	–	20,379
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2026	19,538	841	–	20,379

6.2 2024-25

	Technoleg Gwybodaeth	Offer a Pheiriannau	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2024	91,054	3,143	473	94,670
Ychwanegiadau	5,495	–	–	5,495
Ailddosbarthu asedau	–	–	(415)	(415)
Gwarediadau	(457)	–	–	(457)
Ar 31 Mawrth 2025	96,092	3,143	58	99,293
Dibrisiant cronedig				
Ar 1 Ebrill 2024	73,376	2,187	–	75,563
Codwyd amdano yn y flwyddyn	5,980	3	–	5,983
Gwarediadau	(437)	–	–	(437)
Ar 31 Mawrth 2025	78,919	2,190	–	81,109
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2025	17,173	953	58	18,184
Cyllido asedau				
A berchnogir	17,173	953	58	18,184
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2025	17,173	953	58	18,184

Gweler Nodyn 1.7 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler Nodyn 1.11 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

7 Asedau anniriaethol

7.1 2025-26

	E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway	Pridiannau Tir Lleol	Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu		Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000	Pridiannau Tir Lleol £'000	Asedau Digidol Trawsnewid £'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2025	27,424	44,660	134,399	50,864	21,077	278,424
Ychwanegiadau	–	–	–	27,558	26,496	54,054
Asedau y dechreuwyd eu defnyddio	–	17,366	14,833	(17,366)	(14,833)	–
Ailddosbarthiad	–	–	–	–	(23)	(23)
Amhariad	–	–	–	–	(1,010)	(1,010)
Ar 31 Mawrth 2026	27,424	62,026	149,232	61,056	31,707	331,445
Amorteiddio						
Ar 1 Ebrill 2025	27,424	15,254	74,251	–	–	116,929
Codwyd amdano yn y flwyddyn	–	5,161	11,581	–	–	16,742
Ar 31 Mawrth 2026	27,424	20,415	85,832	–	–	133,671
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2026	–	41,611	63,400	61,056	31,707	197,774
Cyllido asedau:						
A berchnogir	–	41,611	63,400	61,056	31,707	197,774
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2026	–	41,611	63,400	61,056	31,707	197,774

7.2 2024-25

	E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway £'000	Pridiannau Tir Lleol £'000	Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd £'000	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu		Cyfanswm £'000
				Pridiannau Tir Lleol £'000	Asedau Digidol Trawsnewid £'000	
Cost						
Ar 1 Ebrill 2024	27,424	36,854	125,658	33,107	13,324	236,367
Ychwanegiadau	–	–	363	23,184	19,035	42,582
Asedau y dechreuwyd eu defnyddio	–	7,806	8,378	(7,806)	(8,378)	–
Aiddosbarthu Asedau	–	–	–	2,379	(1,964)	415
Amhariad	–	–	–	–	(940)	(940)
Ar 31 Mawrth 2025	27,424	44,660	134,399	50,864	21,077	278,424
Amorteiddio						
Ar 1 Ebrill 2024	27,424	15,124	55,902	–	–	98,450
Codwyd amdano yn y flwyddyn	–	130	18,349	–	–	18,479
Ar 31 Mawrth 2025	27,424	15,254	74,251	–	–	116,929
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2025	–	29,406	60,148	50,864	21,077	161,495
Cyllido asedau:						
A berchnogir	–	29,406	60,148	50,864	21,077	161,495
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2025	–	29,406	60,148	50,864	21,077	161,495

Gweler Nodyn 1.9 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Gweler Nodyn 1.11 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

8 Prydlesi

8.1 Datgeliadau meintiol ynghylch Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

	Adeiladau 2025-26 £'000	Adeiladau 2024-25 £'000
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio: Cost Adeiladau		
Ar 1 Ebrill	58,070	78,472
Ychwanegiadau	1,549	2,366
Ailfesur	2,653	(8,454)
Dadgydnabod	(10,641)	(14,314)
Ar 31 Mawrth	51,631	58,070
Asedau Hawl-i-Ddefnyddio: Dibrisiant Adeiladau		
Ar 1 Ebrill	(17,856)	(16,641)
Treuliau Dibrisiant	(3,365)	(4,339)
Dadgydnabod	5,757	3,124
Ar 31 Mawrth	(15,464)	(17,856)
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth	36,167	40,214

Mae'r dadgydnabod yn adlewyrchu gostyngiad yn asedau prydles hawl-i-ddefnyddio yn dilyn rhyddhau pum lleoliad swyddfa ac ail-negodi chwe llawr swyddfa, gan arwain at gredyd TGAC a gostyngiad yn y lle a feddiannir i gefnogi defnydd mwy effeithlon o ystad CTEF.

Mae gwerth asedau hawl-i-ddefnyddio CTEF a thâl dibrisiant yn cael eu gwrthbwysu gan gyfrifyddu'r prydleswr fel a ganlyn:

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Gostyngiad yng ngwerth yr ased oherwydd cyfrifyddu'r prydleswr		
Gweddill wrth agor	(673)	(893)
Ychwanegiadau	–	–
Dadgydnabod	16	8
Ailfesur	–	–
Gwrthbwysu dibrisiant – Blwyddyn Gyfredol	205	212
Dibrisiad Cronedig ar Warediadau	–	–
Gwerth yr ased wrth gau	(452)	(673)
Cyfanswm gwerth asedau hawl-i-ddefnyddio Cofrestrfa Tir EF	35,715	39,541

8.2 Datgeliadau meintiol ynghylch rhwymedigaethau prydlesi

Dadansoddiad aeddfedrwydd

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Adeiladau – Hawl-i-Ddefnyddio		
O fewn blwyddyn	3,119	3,215
Yn yr ail i'r bum flwyddyn	13,210	12,691
Ar ôl pum mlynedd	21,595	25,847
Cyfanswm isafswm taliadau prydles	37,924	41,753
Cyfredol	3,119	3,215
Anghyfredol	34,805	38,538
Cyfanswm	37,924	41,753

8.3 Datgeliadau meintiol ynghylch elfennau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	Adeiladau 2025-26 £'000	Adeiladau 2024-25 £'000
Incwm Cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi	(21)	(22)
Dibrisiant	3,365	4,339
Taliadau cyllid: Llog ar ymrwymadau o dan brydlesi cyllid	1,700	1,947
Prydlesi Gwerth Isel a thymor byr	21	19
	5,065	6,283

8.4 Datgeliadau meintiol ynghylch all-lif arian parod ar gyfer prydlesi

Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Lifoedd Arian Parod	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Ad-daliad o brydlesi yn ystod y flwyddyn – Prydleswr	(3,222)	(3,196)
Taliadau Cyllid: Llog ar ymrwymadau o dan brydlesi cyllid	(1,700)	(1,947)
Ad-daliad o brydlesi yn ystod y flwyddyn – Prydlesai	203	207
Incwm cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi	21	22

8.5 Cofrestrfa Tir EF fel prydleswr

Ar 31 Mawrth mae'r isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu dileu yn dderbyniadwy fel a ganlyn:

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
O fewn blwyddyn	70	223
Yn yr ail i'r bumed flwyddyn	172	257
Ar ôl pum mlynedd	232	318
	474	798

8.6 Cysoni rhwymedigaeth prydles net – Prydlesai

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Ar 1 Ebrill	41,753	62,416
Ychwanegiadau	1,549	2,366
Gwarediadau	(5,208)	(11,379)
Ailbrisiad	2,284	(8,454)
Taliadau	(4,922)	(5,143)
Llog	1,700	1,947
Swm sy'n cario ar 31 Mawrth	37,156	41,753

9 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Balans ar 1 Ebrill	13,008	22,871
Newid net mewn balansau arian parod	56	(9,863)
Balans ar 31 Mawrth	13,064	13,008

Mae arian parod CTEF yn cael ei gadw gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

10 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

10.1 Asedau cyfredol

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Symiau derbyniadwy eraill	5,716	4,068
Prydles: Ad-daliad yn y flwyddyn	(70)	(207)
Rhagdaliadau ac incwm cronus	14,017	11,439
	19,663	15,300
Prydles: Dyledwyr	144	414
	19,807	15,714

Mae 'Prydles: Ad-daliad yn y flwyddyn' wedi ei gynnwys yn gywir yn y nodyn 'Symiau derbyniadwy' oherwydd pan fydd y lesddeiliaid yn gwneud taliad, mae'r balans hwn yn lleihau, sy'n cael ei wrthbwyso yn erbyn 'Prydles: Dyledwyr', felly dylid cyflwyno'r rhain gyda'i gilydd i roi dealltwriaeth gyflawn o'r trafodion sylfaenol.

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer darparu gwasanaethau yw 1.2 diwrnod (2024-25: 2.7 diwrnod). Ni chodir unrhyw log ar y symiau derbyniadwy.

10.2 Asedau anghyfredol

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Dyledwyr prydles	404	492
Symiau derbyniadwy eraill	8	24
Rhagdaliadau ac incwm cronus	473	4,017
	885	4,533

11 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

11.1 Cyfredol

	Nodiadau	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Symiau taladwy masnach		5,164	4,678
Trethiant a nawdd cymdeithasol		7,597	6,229
Symiau taladwy eraill		6,830	6,410
Croniadau		35,017	34,467
Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol – Incwm sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol	9	19	45
Symiau a ryddhawyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Cyflenwad ond heb eu gwario ar 31 Mawrth	9	13,045	12,963
		67,672	64,792
Ymrwymadau prydlesi	8	3,119	3,215
		70,791	68,007

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer pryniannau masnach yw 9.4 diwrnod (2024-25 8.2 diwrnod). Bernir bod y symiau sy'n cario o symiau taladwy masnach yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

11.2 Anghyfredol

	Nodiadau	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Ymrwymadau prydlesi	8	34,805	38,538
		34,805	38,538

12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

12.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

	2025-26			2024-25		
	Ymddeoliad cynnar ac Eraill	Dadfeiliadau	Cyfanswm	Ymddeoliad cynnar ac Eraill	Dadfeiliadau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill	83	584	667	51	584	635
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	–	71	71	32	–	32
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(45)	–	(45)	–	–	–
Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth	38	655	693	83	584	667
Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau cyfredol	38	655	693	83	584	667
Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol	–	–	–	–	–	–
	38	655	693	83	584	667

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar (DYC) yn rhoi buddion ymddeol i weithwyr penodol. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae CTEF yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Caiff taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Cyfanswm y taliadau yn y flwyddyn oedd £0.0m, a darparwyd ar gyfer £0.0m ohono o fewn y ddarpariaeth DYC yng nghyfrifon 2025-26 (2024-25: Taliadau £0.0m a Darpariaeth o £0.0m).

Darpariaeth dadfeiliad

Cydnabyddir darpariaethau dadfeiliad pan fydd gan CTEF ddigon o sicrwydd y bydd yn rhaid iddi wneud gwaith ar ddiwedd prydles i ddychwelyd yr adeilad i'r cyflwr yr oedd ynddo pan ddechreuodd y brydles.

Ymddeoliad cynnar a darpariaethau Eraill

Mae ymddeoliad cynnar a darpariaethau Eraill yn adlewyrchu costau yn y dyfodol y mae CTEF yn atebol i'w talu, lle mae'r digwyddiad rhwymedigaeth eisoes wedi codi, ond lle mae'r amseriad a'r gwerth yn parhau i fod yn ansicr.

12.2 Cronfa Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar CTEF i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partion. Fel yr yswiriwr teitlau statudol yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan CTEF. Mae CTEF yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (WCHH).

	2025-26			2024-25		
	Darpariaeth Heb ei Thalu	Darpariaeth WCHH	Cyfanswm	Darpariaeth Heb ei Thalu	Darpariaeth WCHH	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill	8,100	35,300	43,400	8,800	35,000	43,800
Darparwyd yn y flwyddyn	1,621	–	1,621	6,010	–	6,010
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(1,621)	–	(1,621)	(6,010)	–	(6,010)
Ailbrisiad hawliadau	1,524	–	1,524	(700)	–	(700)
Ailbrisiad WCHH	–	(1,589)	(1,589)	–	300	300
Ar 31 Mawrth	9,624	33,711	43,335	8,100	35,300	43,400

Yn dilyn adolygiad actiwari gan Adran Actwari'r Llywodraeth (AALI), mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau wedi eu hadrodd ond heb eu setlo (Darpariaeth Heb ei Thalu) wedi cynyddu yn 2025-26 gan £1.5m (2024-25: gostyngiad o £0.7m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau WCHH wedi gostwng yn 2025-26 gan £1.6m (2024- 25: cynnydd o £0.3m).

Mae'r gostyngiad o £0.1m yn y ddarpariaeth yn cael ei ysgogi'n bennaf gan newidiadau yng nghyfraddau disgownt y System Gwariant Cyhoeddus (SGC) a fandadwyd gan Drysorlys EF a diweddarau'r data yn y model i roi cyfrif am brofiad hawliadau yn ystod y flwyddyn. Os bydd chwyddiant yn symud fel y rhagwelir gan Fanc Lloegr, gall y prisiad symud yn uwch yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Ddarpariaeth Heb ei Thalu ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a chan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar gyfer yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw:

- cyfran yr hawliadau heb eu talu a gaiff eu talu yn y pen draw;
- gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud; ac
- effaith unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau mawr heb eu talu ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r Ddarpariaeth WCHH yn fwy ansicr yn gynhenid na'r Ddarpariaeth Heb ei Thalu. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth Heb ei Thalu, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau sydd eisoes yn bodoli, mae'r Ddarpariaeth WCHH yn cynnwys hawliadau posibl a allai gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddarau o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd yn y Ddarpariaeth WCHH yw:

- ni wyddys faint o wallau heb eu hadrodd sydd o fewn y Gofrestr ar hyn o bryd;

- ar ba adeg yn y dyfodol y bydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a hawliadau'n cael eu gwneud; a
- beth fydd cost yr hawliadau cyfatebol.

Gall gymryd sawl blwyddyn i adrodd am hawliadau ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y Ddarpariaeth WCHH, mae'r actiwari yn rhagamcanu nifer ac amseriad adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwylidig unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol y gwyddys amdanynt a chwyddiant hawliadau. Yna caiff y llifoedd arian parod amcanestynedig ar gyfer hawliadau yn y dyfodol eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio rhagnodedig Trysorlys EF. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol megis maint gweithgarwch CTEF a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwariad ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

Ansicrwydd yn y darpariaethau – dadansoddi sensitifrwydd

Mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn ddarostyngedig i werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (WCHH).

Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau heb eu talu arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ynghylch:

- cyfran yr hawliadau sy'n setlo am sero;
- maint yr hawliad ar gyfartaledd;
- cyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EF;
- nifer yr hawliadau a gaiff eu derbyn; a'r
- gyfradd chwyddiant.

Ystyriwyd y senarios hyn ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd fel y dangosir yn y tabl dadansoddi sensitifrwydd isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn:

- mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth rhwymedigaethau fod oddeutu £9.6m (Darpariaeth Heb ei Thalu) neu £33.7m (Darpariaeth WCHH)
- mae'n bosibl mewn senarios ffafriol iawn y gallai gwerth rhwymedigaethau fod cyn lleied â £6.1m (Darpariaeth Heb ei Thalu) a £18.8m (Darpariaeth WCHH).

Rydym hefyd wedi ystyried senarios niweidiol eithafol lle mae gwerth rhwymedigaethau yn gymaint â £13.5m (Darpariaeth Heb ei Thalu) a £49.4m (Darpariaeth WCHH). Mae natur benagored tymor hir indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r rhwymedigaeth fwyaf posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios fel hyn yn fach.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ddangosir yma. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon o ran tueddiadau hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:

- y bydd y ddarpariaeth heb ei setlo yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr hawliadau sy'n cael eu hadrodd y pryd hynny, yn enwedig hawliadau mawr;
- os bydd popeth arall yn gyfartal, bydd y Ddarpariaeth WCHH yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant; a
- bydd y Ddarpariaeth Heb ei Thalu a'r Ddarpariaeth WCHH yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Mae'r Ddarpariaeth Cronfa Indemniad o £43.3m yn amcangyfrif gorau. Yn ogystal, mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn y dyfodol yn agored i ansicrwydd cynhenid.

Dadansoddiad sensitifrwydd

Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth rhagweladwy rhesymol – gweler Nodyn 14.2)

Effaith senarios**Cyfradd disgownt**

1. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn

2. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn

Costau setlo

3. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall

4. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall

5. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll

6. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll

Senarios ffafriol eithafol

(1) + (4) + (6)

Senarios niweidiol eithafol

(2) + (3) + (5)

2025-26		
Uchafswm Darpariaeth Heb ei Thalu £m	Lleiafswm Darpariaeth Heb ei Thalu £m	Canran symudiad %
9.6	9.6	0.0%
–	(3.0)	(7.0%)
3.4	–	8.0%
0.4	–	1.0%
–	(0.4)	1.0%
0.1	–	2.0%
–	(0.1)	2.0%
–	6.1	
13.5	–	

Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth rhagweladwy rhesymol – gweler Nodyn 14.2)

Effaith senarios**Senarios ffafriol ond rhagweladwy****Cyfran hawliadau dim**

1. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau athreuliol gan +/- 5%

2. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau mawr gan +/- 5%

Cost gyfartalog yr hawliad

3. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall athreuliol gan +/- 10%

4. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall mawr gan +/- 10%

5. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau twyll athreuliol gan +/- 10%

6. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll mawr

Cyfradd disgownt

7. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn

8. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 1.0% y flwyddyn

Y nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH

9. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH athreuliol gan 10%

10. Gostwng y nifer amcanestynedig o hawliadau WCHH athreuliol gan 10%

11. Cynyddu'r nifer rhagamcanol o hawliadau WCHH mawr gan 10%

12. Gostwng y nifer rhagamcanol o hawliadau WCHH mawr gan 10%

Chwyddiant hawliadau yn y dyfodol

13. Cynyddu chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1%

14. Gostwng chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1%

Senarios ffafriol eithafol

(1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(10)+(12)+(14)

Senarios niweidiol eithafol

(1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(8)+(9)+(11)+(13)

2025-26			
Uchafswm Darpariaeth WCHH £m	Lleiafswm Darpariaeth WCHH £m	Cynydd symudiad canrannol %	Gostyngiad symudiad canrannol %
33.7	33.7		
1.3	(1.3)	3.0%	(3.0%)
0.9	(0.9)	2.0%	(2.0%)
1.7	(1.7)	4.0%	(4.0%)
1.2	(1.2)	3.0%	(3.0%)
0.3	(0.3)	1.0%	(1.0%)
0.2	(0.2)	1.0%	(1.0%)
3.4	(3.0)	8.0%	(7.0%)
1.9		4.0%	
	(1.9)		(4.0%)
1.4		3.0%	
	(1.4)		(3.0%)
3.4		8.0%	
	(3.0)		(7.0%)
–	18.8		
49.4	–		

13 Rhwymedigaethau posibl

Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2026, nid oedd gan CTEF unrhyw achosion tribiwnlys cyflogaeth yr ystyrir eu bod yn rhwymedigaethau posibl (2024-25: £0k).

14 Ymrwymïadau cyfalaf

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Gwariant cyfalaf	14,258	12,790
Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn	14,258	12,790

Mae'r datgeliad hwn yn adlewyrchu ymrwymïadau cyfalaf CTEF lle llofnodwyd contractau cyn 31 Mawrth 2026, nad ydynt wedi eu hadlewyrchu mewn nodiadau eraill ar y cyfrifon hyn.

	2025-26	2024-25
	£'000	£'000
Rhaglenni		
Pridiannau Tir Lleol	2,256	9,361
Rhaglen Awtomeiddio	7,328	3,429
Technoleg (Busnes fel Arfer)	4,674	–
	14,258	12,790

Pridiannau Tir Lleol

Mae ymrwymïadau cyfalaf o fewn rhaglen PTLI CTEF wedi lleihau ymrwymïadau cyfalaf oherwydd aeddfedrwydd y prosiect a newid o staff Asiantaeth i staff parhaol.

Rhaglen Awtomeiddio

Mae ymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar y rhaglenni Awtomeiddio gan gyflwyno adnodd arbenigol nad ydym yn gallu recriwtio ar ei gyfer.

Technoleg

Nid rhaglen yw technoleg, ond Busnes fel Arfer ac mae'n adlewyrchu diweddarau gliniaduron.

15 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Yn ystod 2025-26, cafodd CTEF nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Gwasanaeth Llys a Thribiwnlysoedd EF ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â CTEF yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolwyr allweddol.

16 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2026.

Newidiodd trefniant ariannu Cofrestrfa Tir EF (CTEF) ar 1 Ebrill 2026. O'r dyddiad hwnnw, symudodd CTEF i amcangyfrif cyflenwad yn seiliedig ar incwm. O dan y fframwaith hwn, gall CTEF gadw ac ailgylchu incwm i ariannu ei wariant TGAA gan gynnwys hyd at 10% o'i gyfanswm incwm y cytunwyd arno ymlaen llaw. Bydd gwariant TGAC ac A-GRF yn parhau i gael ei ariannu gan Drysorlys EF.

O ganlyniad, disgwylir na fydd CTEF yn paratoi Datganiad Ymddiriedaeth o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r newid hwn yn cynrychioli newid mewn trefniadau ariannu ac adrodd yn y dyfodol. Nid yw'n effeithio ar gydnabod neu fesur incwm neu wariant ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026.

Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF 2025-26

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EF i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, Ddatganiad Ymddiriedolaeth ("y Datganiad") yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r Datganiad i'w baratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y ffioedd a'r taliadau, a'r gwariant cysylltiedig a llifoedd arian parod, ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon a'r datganiad ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EF wedi penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir EF yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EF. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol, a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EF, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilyr Cofrestrfa Tir EF yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilyr yn ymwybodol ohoni.

Datganiad Llywodraethu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EF rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EF, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EF.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF. Mae'r Datganiad Llywodraethu, sy'n cwmpasu pob agwedd ar Gofrestrfa Tir EF, gan gynnwys y rhai a adroddir yma yn y Datganiad Ymddiriedolaeth hwn, wedi ei ddarparu yn yr adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 53 i 66).



Iain Banfield

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Barn ar y datganiadau ariannol

Ar dystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF;
- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, a'r Datganiad Ilifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o faterion Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF ar 31 Mawrth 2026 a'i refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), y gyfraith sy'n gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024)*. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesebol Ddiwygiedig 2024* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF wrth ystyried y gofynion a nodir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd i'w gweld yn yr Adroddiad Blynnyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a thystysgrif fy archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Ganghellor ac Adrannau Archwilio 1921.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF; neu
- nid yw ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau o dâl penodol a nodir gan *Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* Trysorlys EF wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (RhAC) i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r RhAC y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r RhAC i bersonau o fewn Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath yn eu lle fel y penderfynir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sydd heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, naill ai oherwydd twyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;

- paratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921; ac
- asesu gallu Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF ar:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Datganiad

Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus;

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
 - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig,
 - a oeddent wedi trafod gyda'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai dwyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll;

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF ar gyfer dwyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan Safonau Archwilio Ariannol (DU), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EF. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972.

Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll trwy reolwyr yn gwrthwneud rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau am yr amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol;

- cyfathrebais y deddfau a'r rheoliadau perthnasol dynodedig a risgiau dwyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth archwilio briodol ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwrpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

3 Gorffennaf 2026

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Datganiad Ymddiriedolaeth Datganiadau ariannol

Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall ar
31 Mawrth 2026

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Refeniw ffioedd a thaliadau			
Cofrestru teitl	2.1	473,537	382,391
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	2.1	21,357	11,404
Pridiannau Tir Lleol	2.1	1,922	1,552
Cyfanswm refeniw ffioedd a thaliadau		496,816	395,347
Incwm masnachol			
Incwm o weithgareddau masnachol	2.1	3,751	3,899
Cyfanswm incwm masnachol		3,751	3,899
Cyfanswm refeniw ac incwm arall		500,567	399,246
Gwariant			
Costau casglu	2.2	(400)	(331)
Dyledion eraill wedi eu dileu	3.3	(17)	(55)
Dyledion drwg wedi eu dileu	3.3	(14)	(6)
Cyfanswm gwariant		(431)	(392)
Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol	5	500,136	398,854

Ni chafodd unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eu cyfrif amdanynt y tu allan i'r Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 120 i 122 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn			
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy eraill	3.1	1,444	1,587
Arian parod		190,619	187,967
Cyfanswm asedau cyfredol		192,063	189,554
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy	4.1	–	–
Refeniw gohiriedig	4.1	170,040	173,803
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		170,040	173,803
Asedau cyfredol net		22,023	15,751
Cyfanswm asedau net		22,023	15,751
Wedi ei gynrychioli gan:			
Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol	5	22,023	15,751

Mae'r nodiadau ar dudalennau 120 i 122 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.



Iain Banfield
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro
2 Gorffennaf 2026

Datganiad o lifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	A	496,517	398,288
Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	5	(493,865)	(386,767)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn		2,652	11,521
Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian			
A: Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn cronfeydd net			
Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol	DWNC	500,136	398,854
(Cynnydd)/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy	3.1	143	461
Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau	4.1	(3,763)	(1,027)
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		496,517	398,288
B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net			
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn		2,652	11,521
Cronfeydd net ar 1 Ebrill (Arian Parod Net yn y Banc)		187,967	176,446
Cronfeydd net ar 31 Mawrth (balans wrth gau)		190,619	187,967
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:			
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth		190,619	187,967
Balans ar 31 Mawrth		190,619	187,967

Mae'r nodiadau ar dudalennau 120 i 122 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

Nodiadau ar y Datganiad Ymddiriedolaeth

1. Datganiad o Bolisiâu Cyfrifyddu

1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y Datganiad Ymddiriedolaeth yn unol â:

- *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* (FReM) 2025-26 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn arbennig Pennod 11.3 sy'n delio â referniw'r Gronfa Gyfunol a Datganiadau Ymddiriedolaeth. Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys o fewn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus; a'r
- cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF o dan adran 2 (3) o Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth isod. Defnyddiwyd y polisiâu cyfrifyddu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a welir yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd cronfeydd hynny y mae Cofrestrfa Tir EF yn eu trin ar ran y Gronfa Gyfunol a lle mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif adran.

Mae'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys yn y datganiadau hyn ac yn y nodiadau wedi ei thalgrynnu i'r £'000 agosaf.

Roedd *Safonau cyfrifyddu newydd sydd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol hon* IFRS17 *Contractau Yswiriant* IFRS 17 wedi dod i rym ar gyfer y sector cyhoeddus ar 1 Ebrill 2025. Mae FReM yn nodi, wrth gymhwyso'r safon hon i'r sector cyhoeddus, nad yw 'deddfwriaeth a rheoliadau, ar eu pennau eu hunain, yn gyfystyr â chontractau yswiriant'. Yn seiliedig ar y canllawiau cymhwyso, nid yw darpariaeth indemniad CTEF yn cael ei ystyried yn gontract yswiriant felly nid oes unrhyw effaith gan IFRS 17 ar gyfrifon blynyddol CTEF.

Mae *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb ddod i rym eto* IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol wedi cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ac yn disodli IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol*. Mae'r safon yn cyflwyno strwythur diwygiedig ar gyfer y datganiad o elw neu golled, gan ei gwneud yn ofynnol i endidau ddosbarthu incwm a gwariant yn gategorïau gweithredu, buddsoddi, ariannu, treth, a gweithrediadau y rhoddwyd gorau iddynt, ynghyd â chyflwyno is-gyfansymiau wedi eu mandadu newydd.

Mae IFRS 18 yn weithredol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y sector cyhoeddus yn parhau i gael ei asesu, ac nid yw penderfyniad wedi ei wneud eto ar ddyddiad gweithredu.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth wedi cael ei baratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

1.3 Cydnabod referniw

Mae ffioedd a thaliadau yn cael eu mesur yn unol ag IFRS 15 *Referniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid*. Mae ffioedd a thaliadau yn deillio o Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2024 (<https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2024/931/>

made). Mae'r rhain wedi eu cynnwys o fewn datganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Cydnabyddir incwm yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau, neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus yn cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Mae incwm cofrestru teitl a Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cael ei gydnabod pan dderbynnir cais a gwblhawyd. Os nad yw cais wedi ei gwblhau, mae'r swm a dderbynnir yn cael ei drin fel ffi ymlaen llaw, waeth beth fo'r math o gais. Mae pob math o gais yn cael ei gyfrif amdano yn gyson. Mae'r symiau tâl cysylltiedig a dderbynnir am wasanaethau sydd heb eu darparu yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni yn cael eu cofnodi wedi hynny fel rhwymedigaethau contract (incwm gohiriedig) a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

Cydnabyddir incwm ar ôl i'r ymrwymiad perfformiad contract o dan IFRS 15 gael ei fodloni, hynny yw ar ôl i'r gofrestr gael ei diweddu'n llawn ar ôl derbyn cais.

1.4 Symiau derbyniadwy

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion IFRS 9 *Offerynnau Ariannol*. Mae symiau derbyniadwy yn cael eu dadgydnabod pan fydd yr hawliau i dderbyn llifoedd arian o'r asedau wedi dod i ben.

1.5 Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau (sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â darpariaeth dyled ddrwg a cholledion credyd amherthnasol – gweler nodyn 3 am ragor o wybodaeth). Wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, mae CTEF yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Mae'r maes pwysicaf wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â chydnabod referniw a chyfrifo'r balans referniw gohiriedig, a nodir o'r cam cwblhau a gofnodwyd yn system brosesu CTEF, gan felly lleihau graddfa'r farn reoli yn y maes hwn. Mae rhagor o fanylion am gydnabod referniw i'w gweld yn Nodyn 1.3.

1.6 Amhariad ar golledion dyled a chredyd

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion FReM ac IFRS 9 *Offerynnau ariannol – datgeliadau*. Mae gwerth teg symiau derbyniadwy yn cael ei bennu trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario symiau derbyniadwy trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario i'r llif amcangyfrifedig o ad-daliadau yn y dyfodol.

Nid yw CTEF yn agored i risg sylweddol yn y farchnad, credyd a hylifedd o dan IFRS 7 *Offerynnau Ariannol*.

1.7 Incwm Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol Amrywiol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, mae gan Drysorlys EF bwerau i gyfarwyddo y gall incwm sydd wedi ei gynnwys mewn Amcangyfrif adrannol ac a gymeradwywyd gan y Senedd gael ei gadw a'i ddefnyddio gan yr adran. Gwneir hyn trwy gymhwyso'r incwm hwn yn erbyn costau penodol (adnoddau neu gyfalaf) yn yr Amcangyfrif hwnnw. Pan fydd CTEF yn derbyn incwm y tu allan i'r awdurdod hwnnw, rhaid ildio'r arian parod i'r Gronfa Gyfunol.

2. Datganiad o Refeniw, Nodiadau Incwm a Gwariant Arall

2.1 Refeniw ac incwm arall

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Ffioedd a thaliadau		
Cofrestru teitl	473,537	382,391
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	21,357	11,404
Pridiannau Tir Lleol	1,922	1,552
Cyfanswm ffioedd a thaliadau	496,816	395,347
Incwm masnachol		
Incwm o weithgareddau masnachol	3,751	3,899
Cyfanswm incwm masnachol	3,751	3,899
Cyfanswm refeniw ac incwm arall	500,567	399,246

2.2 Gwariant

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Costau casglu	(400)	(331)
Cyfanswm gwariant	(400)	(331)

Mae tâl archwilydd y Datganiad Ymddiriedolaeth o £26,000 wedi ei gynnwys yn Nodyn 2.3 y Cyfrif Adnoddau.

3. Symiau derbyniadwy

3.1 Symiau derbyniadwy cyfredol

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Symiau derbyniadwy	1,471	1,600
Darpariaeth ar gyfer dyled amheus	(27)	(13)
Symiau derbyniadwy cyn amhariad	1,444	1,587
llai amhariadau amcangyfrifedig	-	-
Cyfanswm y symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth	1,444	1,587

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli'r swm sy'n ddyledus gan drethdalwyr a busnesau lle mae anfonebau neu alwadau eraill am daliad wedi eu cyhoeddi ond heb eu talu ar 31 Mawrth 2026. Caiff dyledion eu dileu dim ond pan fydd dyledwr yn cael ei ddiddymu, yn fethdalwr neu yn nwylo'r diddymwr a bernir nad oes modd adennill y ddyled trwy unrhyw fodd pellach.

Mae derbyniadau cais unigol yn cael eu prosesu dim ond pan fydd y ffi berthnasol wedi cael ei chyfrif amdani. Mae'r cyfanswm i'w gasglu yn cael ei ledaenu dros nifer uchel o gwsmeriaid gwahanol gyda ffioedd gwerth isel cysylltiedig. Yn unol â hynny, mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu ffioedd a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg gyffredinol.

3.2 Symiau derbyniadwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

3.3 Colledion credyd

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Dyledion eraill (wedi eu dileu)/wedi eu hadfer		(17)	(55)
Dyled ddrwg (wedi ei dileu)/wedi ei hadfer		(14)	(6)
Cyfanswm		(31)	(61)

4. Symiau taladwy a refeniw gohiriedig

4.1 Symiau taladwy cyfredol

	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Symiau taladwy	–	–
Refeniw gohiriedig	170,040	173,803
Cyfanswm symiau taladwy a refeniw gohiriedig ar 31 Mawrth	170,040	173,803

Symiau taladwy yw'r symiau a sefydlwyd fel rhai sy'n ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle gwneir taliad wedi hynny. Mae refeniw gohiriedig yn cynnwys incwm ar gyfer ffioedd a dalwyd yn y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud â chyfnodau ariannol yn y dyfodol.

4.2 Symiau taladwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

5. Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol

	Nodyn	2025-26 £'000	2024-25 £'000
Balans ar y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill		15,752	3,665
Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol	DWNC	500,136	398,854
Llai'r swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol		(493,865)	(386,767)
Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol ar 31 Mawrth		22,023	15,752

6. Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EF yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn rhoi gwybodaeth am ddigolledu rheolwyr allweddol.

gyfanswm incwm y cytunwyd arno ymlaen llaw. Bydd gwariant TGAC ac A-GRF yn parhau i gael ei ariannu gan Drysorlys EF.

O ganlyniad, disgwylir na fydd CTEF yn paratoi Datganiad Ymddiriedaeth o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Mae'r newid hwn yn cynrychioli newid mewn trefniadau ariannu ac adrodd yn y dyfodol. Nid yw'n effeithio ar gydnabod neu fesur incwm neu wariant ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol.

7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2026. Nid yw'r cyfrifon yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Newidiodd trefniadau ariannu Cofrestrfa Tir EF (CTEF) ar 1 Ebrill 2026. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, symudodd CTEF i amcangyfrif cyflenwad yn seiliedig ar incwm; o dan y fframwaith hwn gall CTEF gadw ac ailgylchu incwm i ariannu ei wariant TGAA gan gynnwys hyd at 10% o'i

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol.

Atodiad A

Maint o waith a llwythi gwaith 2025-26 a 2024-25

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

	2025-26			2024-25		
	Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd	Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein	% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein	Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd	Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein	% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein
Diweddariadau cofrestr swmpus (DCS)	544,571	0	0.00%	386,409	0	0.00%
Cyfanswm ceisiadau ac eithrio DCS	56,014,550	55,216,175	98.57%	59,433,052	58,644,542	98.67%
Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion	56,559,121	55,216,175	97.63%	59,819,461	58,644,542	98.04%
Ceisiadau safonol ac eithrio DCS	4,615,622	4,183,035	90.63%	4,429,092	4,007,213	90.47%
Gwasanaethau Gwybodaeth Warantedig	22,704,030	22,602,547	99.55%	23,195,134	23,085,505	99.53%
Gwasanaethau ymholiadau gwybodaeth	28,694,898	28,430,593	99.08%	31,808,826	31,551,824	99.19%
Cyfanswm	56,014,550	55,216,175	98.57%	59,433,052	58,644,542	98.67%
Ceisiadau safonol ac eithrio DCS						
Cofrestriadau cyntaf	67,490	0	0.00%	67,931	0	0.00%
Cofrestru prydlesi newydd	156,067	148,212	94.97%	165,701	154,789	93.41%
Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig	167,957	154,651	92.08%	169,842	154,629	91.04%
Diweddaru cofrestr unigol	4,224,108	3,880,172	91.86%	4,025,618	3,697,795	91.86%
Cyfanswm	4,615,622	4,183,035	90.63%	4,429,092	4,007,213	90.47%
Gwasanaethau Gwybodaeth Warantedig						
Copïau swyddogol ¹	19,532,328	19,443,740	99.55%	19,970,337	19,871,116	99.50%
Chwiliadau swyddogol	2,469,567	2,468,950	99.98%	2,498,648	2,497,769	99.96%
Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai ²	702,135	689,857	98.25%	726,149	716,620	98.69%
Cyfanswm	22,704,030	22,602,547	99.55%	23,195,134	23,085,505	99.53%
Gwasanaethau ymholiadau gwybodaeth						
Gweld cofrestr	5,066,451	5,066,451	100.00%	5,699,345	5,699,345	100.00%
Gweld cynllun teitl	851,428	851,428	100.00%	1,062,627	1,062,627	100.00%
Gweld dogfen	32,898	32,898	100.00%	35,294	35,294	100.00%
Gohebiaeth	210,353	197,010	93.66%	191,795	178,476	93.06%
Ymholiadau ffôn	250,962	0	0.00%	243,683	–	–
Lawrlwythiadau MapSearch	1,711,705	1,711,705	100.00%	1,140,626	1,140,626	100.00%
Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo	17,764,691	17,764,691	100.00%	19,926,313	19,926,313	100.00%
Gweld teitl	2,806,410	2,806,410	100.00%	3,509,143	3,509,143	100.00%
Cyfanswm	28,694,898	28,430,593	99.08%	31,808,826	31,551,824	99.19%

1 Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

2 Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Gelwir y rhain yn gynhyrchion.

Mae'r tabl ar y dudalen flaenorol yn nodi'r gweithgareddau trafodaethol ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â chymarebau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 59 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion am ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r mathau gwahanol o geisiadau a dderbyniwn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig oedd mwy na 98%.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gofrestrfa Tir EF ac sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gohebu ar bob un o'i bridianau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Sylwer: Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Gelwir y rhain yn gynhyrchion.

Atodiad B

Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2025-26 a 2024-25

Yr Adran Pridiannau Tir

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestrï o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi eu cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

Math o gais	Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2025-26	Ailddatganedig: Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2024-25
Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau	12,485	13,878
Dileadau	2,696	3,505
Chwiliadau swyddogol		
– Chwiliadau llawn	106,653	121,046
– Chwiliadau wedi eu cyfyngu i ansolfedd	1,835,704	1,763,491
Copïau swyddfa	17,873	20,370
Cyfanswm	1,975,411	1,922,290

Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Math o gais	2025-26	2024-25
Cofrestriadau newydd	859	1,013
Dileadau a chywiriadau	874	1,008
Chwiliadau	3,727	3,479
Cyfanswm	5,460	5,500

Atodiad C

Data hanesyddol cynaliadwyedd

Data carbon (tunelli)

Allyriadau nwyon tŷ gwydr	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22	2020-21	2019-20
Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)							
Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2	1,985	2,068	2,062	2,587	3,186	3,828	3,900
Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy	0	0	0	0	850	646	525
Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (wedi gwaredu elfennau adnewyddadwy)	1,554	2,068	2,062	2,587	2,336	3,182	3,375
Allyriadau gros teithio cwmpas 3	431	377	380	320	230	30	645
Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd	2,416	2,445	2,442	2,907	3,416	3,858	4,545
Dangosyddion anariannol (mWh)							
Trydan: wedi ei brynu (grid, gwres a phŵer cyfunol, ac anadnewyddadwy)	3,593	5,522	3,990	5,815	4,436	2,901	8,757
Trydan: adnewyddadwy	3,593	5,522	0	0	3,681	1,326	1,896
Nwy	4,998	4,785	6,561	8,012	7,984	6,909	6,657
Ffynonellau ynni eraill	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm ynni	8,591	10,307	10,551	13,827	16,101	11,136	17,310
Dangosyddion ariannol (£'000)							
Gwariant ar ynni	1,561	1,844	1,930	1,600	1,626	1,779	2,102
Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (er enghraifft Cronfa Gwrthbwysio Carbon y Llywodraeth)	–	–	–	–	–	–	–
Gwariant ar deithio busnes swyddogol	2,532	1,617	1,689	915	333	24	1,222

Gwastraff sy'n codi (tunelli)

Gwastraff	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22	2020-21	2019-20
Dangosyddion anariannol							
Gwastraff peryglus	0	0	0	0	0	0	–
Gwastraff heb fod yn beryglus							
Gwastraff tirlenwi	5	0	0	0	0	4	20
Gwastraff wedi ei aildddefnyddio/ailgylchu	486	276	241	299	247	194	651
Ynni o wastraff	73	53	112	113	104	101	123
Cyfanswm y gwastraff sy'n codi	564	329	353	412	351	299	794
Cyfanswm y gwastraff sy'n codi							
Gwastraff peryglus	–	–	–	–	–	–	–
Gwastraff heb fod yn beryglus	–	–	–	–	–	–	–
Gwastraff tirlenwi	–	–	–	–	–	–	–
Gwastraff wedi ei aildddefnyddio/ailgylchu	–	–	–	–	–	–	–
Gwastraff a losgwyd	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm costau gwastraff	104	110	93	129	84	99	138

Lleihau dŵr (metrau ciwbig)

Dŵr	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22	2020-21	2019-20
Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)							
Defnydd							
Wedi ei gyflenwi	23,482	32,073	17,790	26,122	20,978	18,492	41,829
Wedi ei dynnu	–	–	–	–	–	–	–
Cyfanswm defnydd	23,482	32,073	17,790	26,122	20,978	18,492	41,829
Dangosyddion ariannol (£'000)							
Cyfanswm costau cyflenwi	75	206	119	211	100	134	201

Atodiad Ch

Cronfa Indemnïad

Yn 2025-26 talwyd £2,441,709 ar gyfer 775 o hawliadau, o'i gymharu â £1,623,932 ar gyfer 745 o hawliadau yn 2024-25. Y taliad mwyaf y flwyddyn hon oedd £580,183 ar gyfer trosglwyddiad twyllodrus o'r cyfan. Mae nifer yr hawliadau a dalwyd i fyny gan 30 o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Uchafswm gwerth cofnodedig yr hawliadau a dalwyd oedd £5,822,147 ond cafodd y rhain eu setlo am £2,441,709 gan arbed £3,380,438. Yn ystod y flwyddyn cafodd 278 o hawliadau eraill oedd wedi eu prisio am £1,611,510 eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain, roedd 2 ar gyfer twyll ac fe'u prisiwyd am £985,000, ac roedd 10 hawliad cofnod cofrestr arall gwerth £421,570 yn cyfrif am y mwyafrif o'r setliadau sero. Y flwyddyn hon, derbyniwyd 1,072 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £12,794,673, gan gynnwys 9 hawliad twyll wedi eu prisio am £6,026,500. Roedd y rhain ac 88 o hawliadau cofnod cofrestr arall gwerth £5,576,522 yn cyfrif am y mwyafrif o'r derbyniadau.

Adenillwyd £112,192 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £399,185 y flwyddyn ddiwethaf. Gall y ffigurau digolledu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu'r cydadwaith anrhagweladwy rhwng elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu ymarferoldeb adenill unrhyw gostau.

Natur yr hawliad	Nifer yr hawliadau	Colled safonol (£)	Costau (£)	Canran o'r cyfanswm
Stent teitlau cofrestredig	77	181,390	180,005	14.80
Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr	80	673,562	236,066	37.25
Gwallau cynlluniau amrywiol	1	0	702	0.03
Twyll a ffugio	5	779,088	153,798	38.21
Chwiliadau swyddogol (cynlluniau)	6	2,950	9,331	0.50
Gwallau methdaliad	0	0	0	0
Chwiliadau swyddogol (cyfreithiol)	5	200	4,391	0.19
Copiau swyddogol	1	0	3	0
Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai	7	5,350	10,428	0.65
Gwallau mewn darnau wedi eu ffeilio	341	7,042	76,369	3.42
Dogfennau coll/gwallau gweinyddol	252	38,077	82,157	4.96
Gwallau Pridiannau Tir	0	0	0	0
Cyfanswm	775	1,688,459	753,250	100
Taliad gros			£2,441,709	
Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawl ddigolledu statudol Cofrestrfa Tir EF			£112,192	
Indemnïad net			£2,329,517	

Atodiad D

Adrodd Rheoleiddiol

Mae gwariant net CTEF wedi ei rannu’n nifer o gyfansymiau gwariant, y ceisir cymeradwyaeth y Senedd ar eu cyfer. Y cyfansymiau gwariant y mae’r Senedd yn pleidleisio arnynt yw:


- Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (TGAA): terfyn net sy’n cynnwys costau rhedeg o ddydd i ddydd, llai incwm sy’n deillio’n bennaf o ffioedd a thaliadau a gweithgareddau masnachol. Mae incwm CTEF yn cwmpasu ei wariant yn llawn, felly mae’r amcangyfrifon yn cynnwys pleidlais symbolaidd;
- Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (TGAC): buddsoddi mewn meddalwedd, ystadau ac offer TG; a
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF): gwariant o ddydd i ddydd llai rhagweladwy nad yw’n hawdd ei reoli. Yn achos CTEF, yr elfen bwysicaf yw’r symudiad yn y ddarpariaeth indemniad a ddefnyddir i warantu cywirdeb y gofrestr tir ac sy’n gweithredu fel indemniad yn erbyn twyll neu wall. Mae’n cwmpasu eitemau eraill nad ydynt yn arian parod megis amhariadau. O 2026-27 ymlaen, mae A-GRF hefyd yn cynnwys dibrisiant arian parod a dibrisiant heb fod yn arian parod.

Alldro a gwariant wedi ei gynllunio yn ôl cyfanswm Rheolaeth Seneddol fel yr amlinellir yn Adolygiad Gwariant 2025


Blwyddyn	Math	TGAA	Incwm TGAA	TGAC	A-GRF	C-GRF
		£m	£m	£m	£m	£m
2021-22	Alldro	364.6		109.5	(0.3)	0.0
2022-23	Alldro	395.1		47.6	(9.0)	0.9
2023-24	Alldro	432.0		48.9	(13.1)	(0.4)
2024-25	Alldro	439.8		27.7	0.5	0.0
2025-26	Alldro	476.1		62.4	1.0	0.0
2026-27	Wedi ei gynllunio	486.0	(486.0)	59.1	48.9	0.0
2027-28	Wedi ei gynllunio	503.0	(503.0)	59.1	54.6	0.0
2028-29	Wedi ei gynllunio	502.5	(502.5)	59.1	61.2	0.0

Mae’r Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn destun archwiliad ac fe’i hadroddir ar dudalennau 82 i 88, sy’n darparu cysoniad rhwng yr alldro wedi ei gynllunio a’r alldro gwirioneddol ar gyfer 2025-26, gyda naratif ategol wedi ei ddarparu yn yr Adolygiad Ariannol ar dudalennau 50 i 53.

Aldro 2025-26 a gwariant wedi ei gynllunio yn ôl cyfanswm Rheolaeth wedi ei Phleidleisio mewn £m




Tueddiadau gwariant gros ac incwm TGAA CTEF £m



Mae gwariant gros TGAA wedi cynyddu'n fras yn unol â chwyddiant

Tueddiadau gwariant TGAC CTEF ac A-GRF CTEF £m



Mae'r cynnydd sydyn mewn gwariant TGAC yn 2021-22 i'w briodoli i fabwysiadu IFRS16.

Mae'r cynnydd yn A-GRF o 2026-27 yn adlewyrchu ailddosbarthu dibrisiant Trysorlys EF o Adnoddau TGA.

E03634113 07/26

ISBN 978-1-5286-6654-1